Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 19eg Mai, 2020 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Rhith-gyfarfod |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 EBRILL 2020 | | | 4 - 7 |
| 6 | YSGOL LLANAELHAEARN | Cyng. Cemlyn Williams | Gwern ap Rhisiart | 8 - 33 |
| 7 | EFFAITH COVID-19 AR GYLLIDEB 2020/21 | Cyng. Ioan Thomas | Dafydd Edwards a Ffion Madog Evans | 34 - 37 |
| 8 | DATGANIAD TECHNOLEG RHANBARTHOL AR AGREGAU: DRAFFT AIL ADOLYGIAD | Cyng. Gareth Griffith | Dafydd Wyn Williams | 38 - 92 |
| 9 | STRWYTHUR YR ADRAN TAI | Cyng. Craig ab Iago | Dafydd Gibbard | 93 - 103 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 28 EBRILL 2020**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad,

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

**5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 10 MAWRTH 2020**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2020 fel rhai cywir.

**6. CAIS AM ADNODDAU I'R ADRAN ADDYSG**

Cyflwynwyd gan Cyng. Cemlyn Williams

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd ymrwymo £180,000 o gyllid un tro o gronfa trawsffurfio'r Cyngor hyd at ddiwedd Mawrth 2022 ar gyfer galluogi'r Adran Addysg i gael adnodd ychwanegol ar delerau secondiad am gyfnod o ddwy flynedd er mwyn targedu, cefnogi a chynnig her briodol ac amserol i'r ysgolion uwchradd gan wireddu un o'r ymrwymiadau yng Nghynllun y Cyngor er mwyn gwella'r deilliannau i blant a phobl ifanc.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y cais yn gofyn am arian ar gyfer swydd secondiad am gyfnod o ddwy flynedd. Ychwanegwyd fod dwy ran i'r swydd y cyntaf i roi cefnogaeth i ysgolion uwchradd y sir i ymateb i'r problemau sydd yn codi o fewn y maes uwchradd ac yn ail i ryddhau adnoddau i'r gwasanaeth Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain - Moderneiddio Addysg.

Nododd y Pennaeth yr Adran Addysg fod yr adran wedi cydnabod fod rhai sefyllfaoedd yn y maes Uwchradd ble mae angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol er mwyn gwella deilliannau ysgolion. Mynegwyd fod y cynllun hwn yn gysylltiedig â un o flaenoriaethau strategol y Cyngor sef i ddatblygu arweinyddiaeth. Ychwanegwyd fod heriau i'w gweld yn yr Uwchradd, yn benodol ym Meirionydd, gyda diffyg niferoedd yn ymgeisio am swyddi arweinyddiaeth o fewn ysgolion. Ategwyd o ganlyniad i hyn mae trafodaethau i ail edrych ar recriwtio yn cael ei gynnal gyda'r holl benaethiaid. Mynegwyd fod diffyg adnoddau yn y maes Moderneiddio Addysg ar hyn o bryd a bydd yr arian yn sicrhau'r adnodd yma. Yn ychwanegol at hyn, nodwyd y bydd yr adnodd ar gael i gynorthwyo gyda heriau newydd o sicrhau fod plant, ac yn benodol plant bregus, yn parhau mewn addysg yn ystod y cyfnod argyfwng hwn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd am y sefyllfa o ran y Gronfa Trawsffurfio, nodwyd fod y sefyllfa yn iach ac ar gael ar hyn o bryd ond ei fod yn ddibynnol ar faint fydd yr angen yn dilyn argyfwng Covid-19.

## 7. DIWEDDARIAD AR YR YMATEB I BANDEMIG COVID-19

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dilwyn Williams

**PENDERFYNIAD**

Nodi'r wybodaeth a diolch i staff am eu gwaith yn ystod y cyfnod argyfwng.

**TRAFODAETH**

Bu i'r Prif Weithredwr nodi y bydd yn rhoi diweddariad a fydd yn amlinellu beth mae'r Cyngor yn ei wneud i ymateb i'r argyfwng Covid-19. Mynegwyd y bydd aelodau etholedig yn derbyn nodyn diweddariad cyn diwedd yr wythnos.

Rhoddwyd cliplun o'r sefyllfa staffio gan nodi fod 137 yn y categori gwarchodaeth y Llywodraeth, 175 o staff yn sâl gyda 46 o'r rheini o ganlyniad i symptomau covid-19. Ychwanegwyd fod dros 1800 o staff bellach yn gweithio o'u cartrefi ac mai dim ond 132 o aelod o staff sydd bellach yn gweithio o swyddfa. Mynegwyd, ar hyn o bryd, fod y maes gofal yn dygymod yn eithaf ond fod achosion wedi codi mewn tri chartref henoed, ond fod y sefyllfaoedd bellach yn cael eu rheoli.
Mynegwyd fod ystadegau yn dangos Gwynedd yn lled llwyddiannus a bod yr achosion ar waelod yr amrediad a amlygwyd yn y senarios posib. Ychwanegwyd unwaith y bydd y rheoliadau yn cael ei lleihau ac y bydd angen cynllunio ar gyfer y cyfnod nesaf. Nodwyd fod llawer o sôn am gyfarpar diogelwch PPE ond pwysleisiwyd y lefel cyfarpar yng Ngwynedd yn iawn ond fod nifer y masgiad yn peri pryder. Mynegwyd fod cyflenwadau gan y Llywodraeth a nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud i weld lefel y costau ychwanegol a fydd yn wynebu'r sector breifat.

Pwysleisiwyd fod cyfundrefn gwirfoddolwyr yn gweithio yn dda, gyda byddin o bobl Gwynedd yn barod i gynorthwyo. Mynegwyd fod addysg yn parhau i warchod plant gweithwyr allweddol a bregus. Pwysleisiwyd fod y gwasanaeth biniau wedi parhau drwy'r cyfnod ond y bydd Canolfannau Ailgylchu yn parhau ar gau ar hyn o bryd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i'r Prif Weithredwr a Prif swyddogion am yrru'r gwaith drwy'r cyfnod. Ychwanegwyd fod yr aelodau Cabinet wedi bod yn cyfarfod yn anffurfiol yn gyson.
- Nododd yr Aelod Cabinet dros Gyllid ddiolch i staff yr adran am eu gwaith yn ystod y cyfnod yn benodol i staff Technoleg Gwybodaeth i sicrhau fod modd i staff weithio o'u cartrefi. Pwysleisiwyd yn ogystal na fydd unrhyw dreth cyngor yn cael ei adennill hyd ddiwedd Mehefin a mynegwyd fod gwaith yn cael ei wneud er mwyn mesur effaith y cyfnod yn ariannol ar y Cyngor.
- Pwysleisiwyd fod y cyfnod hwn yn un argyfyngus ble mae taro pawb yn wahanol i'r argyfyngau sydd wedi taro'r sir o'r blaen, ble mae cymunedau penodol wedi eu taro. Mynegwyd o ran y maes Oedolion fod y staff yn gweithio yn galed a diolchwyd am eu gwaith o dan yr amodau heriol.
- Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol i'r staff am fod yn barod i weithio ac i sicrhau gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Mynegwyd fod tipio wedi bod yn codi pryder ond fod lefel yr achosion sydd wedi bod ddim llawer yn uwch nac arferol.
- Nodwyd fod yr unigolion sydd yn ddigartref bellach wedi eu cartrefu yn ystod y cyfnod argyfwng. Ychwanegwyd fod yr adran Eiddo wedi sicrhau 10 gwely ychwanegol yn y cartref Bryn Blodau ar gyfer y cyfnod.
- Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd fod trefniadau amgen ar gyfer y maes cynllunio wedi ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Ategwyd fod gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi bod yn brysur yn arwain ar y gwaith o leihau sgamio sydd wedi cael ei amlygu yn ystod y cyfnod.
- Diolchwyd i'r adran Cefnogaeth Gorfforaethol am eu parodrwydd i newid eu ffordd o weithio. Pwysleisiwyd fod Siop Gwynedd bellach wedi cau a bod staff Galw Gwynedd yn parhau i weithio o adref.
- Pwysleisiwyd fod taliadau uniongyrchol yn cael ei wneud i rieni plant sydd

yn cael cinio am ddim ac ychwanegwyd fod gwaith yn cael ei wneud i gynnig darpariaeth addysgol. Mynegwyd fod angen 2000 o ddyfeisiadau i ddisgyblion i sicrhau darpariaeth addysgiadol, gan ychwanegu y bydd y rhain yn dod o'r ysgolion yn uniongyrchol. Diolchwyd i staff ac athrawon am eu gwaith yn ystod y cyfnod.

- Nododd yr Aelod Cabinet dros Economi fod yr adran wedi bod yn gweithio yn wahanol iawn i'r arfer a diolchwyd i staff am hynny. Mynegwyd mai cefnogi busnes yw'r brif flaenoriaeth ac i sicrhau na fydd effaith hir dymor ar fusnesau'r ardal. Ategwyd fod gwaith wedi bod yn cael ei wneud i sicrhau gwydnwch cymunedol a bod 23 aelod yn rhan o'r tîm i sicrhau fod pobl fregus yn gallu cysylltu i gael cymorth.
- Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd fod yr adran wedi bod yn gweithio yn galed a bod llawer o straeon positif o fewn yr adran. Mynegwyd fod staff wedi derbyn cyfarpar PPE ac yn deall sut i'w ddefnyddio ac wedi dod o hyd i ffordd wahanol o weithio a chefnogi pobl ifanc a phlant.
- Mynegwyd fod y meysydd gofal - plant ac oedolion- ar agor i bobl bregus. A diolwch i'r staff i gyd a pharodrwydd staff y Cyngor a thrigolion i fod yn barod i gynorthwyo yn y maes gofal.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2:20 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **19 Mai 2020** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |
| **SWYDDOG** | **Gwern ap Rhisiart** |
| **TEITL YR EITEM** | **Ysgol Llanaelhaearn** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet gadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD


***2.1*** Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020. Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol ar y 5ed o Fawrth 2020, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar y 3ydd Ebrill 2020, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad.

## 3. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

***3.1*** Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar 4 Mehefin 2019, a phenderfynwyd, '*rhoi caniatâd i'r Adran Addysg i gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol*', a hynny o ganlyniad i bryder ynghylch cwymp sylweddol mewn niferoedd yn mynychu'r ysgol.

***3.2*** Yn dilyn cynnal y cyfarfodydd hyn, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 5 Tachwedd 2019 lle cymeradwywyd y penderfyniad i '*gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol, yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o'r 1 Medi 2020*'.

***3.3*** Yr oedd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r prif heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu, sef fod cwymp sylweddol mewn niferoedd yn mynychu'r ysgol yn ddiweddar sydd wedi arwain at sefyllfa argyfyngus gyda 8 disgybl ar y gofrestr yng nghyfrifiad Medi 2019 (gweler y darlun isod). Addysgir yr 8 disgybl hyn mewn dau ddosbarth. Dengys rhagamcanion y bydd cwymp pellach dros y 5 mlynedd nesaf yn ogystal.




***3.4*** O ganlyniad i'r niferoedd isel, cydnabyddir fod yr ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol. Mae'r data swyddogol diweddaraf yn dangos bod:

a. niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2019, 8 o ddisgyblion oedd wedi eu cofrestru yn yr ysgol.
b. maint y dosbarthiadau yn fychan – gydag un dosbarth o 3 ac un dosbarth o 5 disgybl.
c. rhagolygon yn dangos 7 o ddisgyblion ym Medi 2020, 5 o ddisgyblion yn 2021, a 5 o ddisgyblion yn 2022.
ch. 42 o blant oed cynradd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn gyda 34 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill.
d. Ysgol Llanaelhaearn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 yn £55,055. Ar hyn o bryd, mae'r Ysgol yn rhannu Pennaeth gyda dwy Ysgol arall, yn ogystal â chyflogi athro a chymhorthydd llawn amser. Nid yw'r cyllid presennol yn caniatáu i'r trefniant yma barhau.
dd. cost fesul disgybl Ysgol Llanaelhaearn yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,051 o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod yn £4,198.
e. 83% o lefydd gweigion (39 Derbyn i Flwyddyn 6, a 6 o lefydd gweigion Meithrin).

***3.5*** **Ymgynghoriad Statudol**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 16 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2020 a derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad. Un o'r materion cyson a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad oedd trefniadau cludiant ar ôl cau Ysgol Llanaelhaearn. Oherwydd trefniant presennol yr ysgol o rannu pennaeth ac Ysgol Chwilog, mae disgyblion Ysgol Llanaelhaearn wedi bod yn mynychu Ysgol Chwilog ar ddau brynhawn yr wythnos ers peth amser, ac yn adnabod yr athrawon a'r disgyblion eraill. Daeth i'r amlwg yn ôl ymatebion yr ymgynghoriad y byddai rhieni yn debygol o wneud cais i'w plant drosglwyddo i Ysgol Chwilog yn hytrach nac iddynt fynychu yr ysgol amgen, sef Ysgol Bro Plenydd. O ganlyniad ystyrir trefniadau cludiant arbennig i ysgolion penodol yn ystod y cyfnod o newid er mwyn lleihau effaith y cyfnod trawsnewidiol ar ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn.

***3.6*** Yn dilyn yr ymgynghoriad, adroddwyd yn ôl i Gabinet ar y 18fed o Chwefror 2020, a bu i'r Cabinet ystyried adroddiad yr ymgynghoriad a phenderfynu *derbyn y sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ynghyd a chytuno*:

*i.* *Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020.*

*ii.* *Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.*

iii. *Cymeradwyo trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trawsnewidiol yn unig, pryd bydd cludiant di-dâl i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Llanaelhaearn ar hyn o bryd, i Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr neu Ysgol Chwilog yn benodol, os yn byw dros 2 filltir i'r ysgol a ddewisir, neu yn derbyn cludiant am ddim oherwydd natur y ffordd yn unol â pholisi cludiant cyfredol Cyngor Gwynedd*.

***3.7*** **Cyfnod Gwrthwynebu**

Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol ar y 5ed o Fawrth 2020, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Gosodwyd copïau caled ar ddrysau a giatiau ysgolion Llanaelhaearn a Bro Plenydd. Bu i'r rhanddeiliaid dderbyn e-bost i'w hysbysu fod y cyfnod gwrthwynebu wedi dechrau a dosbarthwyd copïau caled i rieni'r disgyblion. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar y 3ydd Ebrill 2020, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad. Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn i'r Cabinet ystyried y sefyllfa cyn dod i benderfyniad ar gadarnhau'r cynnig yn derfynol.

**4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y 'PENDERFYNIAD A GEISIR'**

***4.1*** Yn unol â strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* ystyriwyd nifer o ffactorau wrth ddatblygu a gwerthuso opsiynau ar gyfer y sefyllfa.

***4.2*** Bu i'r materion hyn gael sylw manwl yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar y 5ed Tachwedd 2019, ac yn y ddogfen ymgynghori statudol wedi hynny. Gweler crynodeb o effaith y cynnig ar y ffactorau hyn yn Atodiad 1, gan ddefnyddio'r data swyddogol diweddaraf.

***4.3*** Wedi cynnal y cyfnod gwrthwynebu a hynny drwy rybudd statudol, a'r ffaith na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad, y mae'r Awdurdod yn fodlon mai gweithredu'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros lunio'r cynnig, sef yr hyn a nodwyd yn adran 3.3 o'r adroddiad hwn, gan na fyddai'r un o'r opsiynau eraill a ystyriwyd yn ystod y broses yn dod i'r afael a'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018, ystyriwyd y ffactorau canlynol wrth ddod i'r casgliad hwn:

***4.3.1*** **Ansawdd a Safonau Addysg**

Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, byddai'r ysgol amgen yn cynnig addysg o ansawdd a safon yn gyfatebol os nad gwell nag Ysgol Llanaelhaearn.

Cynigir yr ysgol amgen addysg o ansawdd cyfatebol fan lleiaf, gan gynnig mwy o brofiadau i gydweithio a chymdeithasu gyda'u cyfoedion, ac yn galluogi'r disgyblion i fanteisio ar ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Oherwydd cymhareb isel disgybl i athro sydd ar hyn o bryd yn Ysgol Llanaelhaearn, mae'r plant yn gwneud cynnydd da. Byddai gwireddu'r cynnig hwn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion, yn ddyddiol.

Bydd anghenion unrhyw grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ac anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei asesu a'i weithredu yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r awdurdod.

### *4.3.2* Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas na'r sefyllfa bresennol. Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at well cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd yr ardal. Gyda 23 o lefydd gweigion (a 7 o lefydd gwag ar gyfer y Meithrin), mae gan Ysgol Bro Plenydd ddigon o gapasiti ar gyfer niferoedd presennol y ddwy ysgol, ac am y tair blynedd nesaf.

Mae Ysgol Bro Plenydd yn ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg fel Ysgol Llanaelhaearn.

### *4.3.3* Adnoddau Addysg a goblygiadau ariannol eraill

Bydd gweithredu'r cynnig yn rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion a fyddai'n lleihau'r amrediad mewn cost y disgybl i holl blant Gwynedd. Amcangyfrifir y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at gost fesul disgybl o £4,296 yn Ysgol Bro Plenydd o'i gymharu â'r £17,051 y disgybl yn bresennol yn Ysgol Llanaelhaearn. Y cyfartaledd sirol ar gyfer yr un cyfnod yw £4,198 y disgybl.

Amcangyfrifir y byddai gwireddu'r cynnig yn arbed rhwng £92,213 a £105,813 y flwyddyn mewn costau refeniw, a hynny wedi ystyried costau cludiant ychwanegol. Mae'r amcangyfrif o arbed £105,813 yn seiliedig ar ystyried costau cludiant ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn i'w hysgol newydd, boed hynny yn Ysgol Chwilog neu Ysgol Bro Plenydd. Yn yr un modd, mae'r amcangyfrif o arbed £92,213 y flwyddyn yn seiliedig ar senario i'r dyfodol ble byddai holl blant dalgylch Llanaelhaearn yn mynychu eu hysgol dalgylch newydd, sef Ysgol Bro Plenydd, ac yn gymwys am gludiant yn unol a pholisi cludiant presennol yr Awdurdod.

Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgol ble mae'r niferoedd a rhagamcanion yn fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol gan leihau'r gyfradd o lefydd gweigion yn yr ardal o 35% i 27% yn sgil gweithredu'r cynnig hwn.

### *4.3.4* Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

Yn ystod y broses ymgysylltu a chynnal cyfarfodydd yn lleol gyda rhan-ddeiliaid perthnasol yr Ysgol, ystyriwyd nifer o opsiynau posib ar gyfer yr ysgol i'r dyfodol. Bu i'r holl opsiynau cael eu cloriannu yn erbyn ffactorau'r Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'.* Gweler gwerthusiad llawn o'r opsiynau hyn fel atodiad i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 18 Chwefror 2020 a gweler crynodeb o gymhariaeth y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa debygol wedi gwireddu'r cynnig yn Atodiad 1 sy'n ategol i'r adroddiad hwn.

### *4.3.5* Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Cynhaliwyd nifer o asesiadau effaith yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 gan gynnwys:

- *Asesiad o'r Effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio*
- *Asesiad o'r Effaith debygol ar y gymuned*
- *Asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg*

Adolygwyd yr asesiadau hyn wedi'r ymgynghoriad statudol a chynhwysir yr asesiadau hyn fel atodiad i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 18 Chwefror 2020.

Nodir casgliadau'r asesiad o'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio y byddai'r opsiwn o gau'r ysgol yn golygu fod angen i ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn deithio yn bellach i'w hysgol bob dydd. Gan fod yr ysgol amgen fwy na 2 filltir o'u cartrefi, bydd ganddynt hawl i gludiant am ddim i'r ysgol amgen. Mae Ysgol Bro Plenydd wedi ei lleoli 3.6 milltir o Ysgol Llanaelhaearn, a rhagwelir fod y daith oddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws, sydd o fewn y pellter rhesymol y disgwylir i blant cynradd ei deithio i'w hysgol yn unol â'r '*Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd*' o 30 munud bob ffordd. Bydd cludiant i'r ysgol amgen yn cael ei gynnig yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Yn ogystal, nodai'r asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned y byddai peth effaith negyddol o ran cau'r ysgol. Ond, nodir fod 7 o ddisgyblion sydd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn yn mynychu Ysgol Bro Plenydd ar hyn o bryd, ac felly, mae cyswllt eisoes rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach. Mae'r asesiad cymunedol yn nodi fod yr ysgol yn ymwneud â chymuned Llanaelhaearn, er nad oes defnydd o adeilad yr ysgol gan y gymuned ar hyn o bryd. Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys cymuned Llanaelhaearn.

Crynhoir casgliad yr asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg yn adran 4.3.1 o'r adroddiad hwn.

Y mae'r Adran Addysg yn parhau i fod o'r farn, a hynny ar ôl cynnal y cyfnod gwrthwynebu, na fyddai'r un o'r opsiynau eraill, gan gynnwys ffederaleiddio, yn mynd i'r afael a'r prif heriau sydd yn wynebu'r ysgol sef

- niferoedd isel o ddisgyblion
- rhagamcanion yn dangos gostyngiad pellach dros y pum mlynedd nesaf,
- disgyblion presennol yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sydd yn fychan mewn niferoedd gyda 3 disgybl mewn un dosbarth, a 5 disgybl yn y llall.

## 5. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Yn ogystal ac asesiadau effaith a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau penodol 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig' cynhaliwyd a diweddarwyd nifer o asesiadau effaith eraill yn ystod y broses. Cynhwysir yr asesiadau hyn fel atodiad i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 18 Chwefror 2020 a chrynhoir eu casgliadau isod.

### *5.1* Asesiad Cydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar yr opsiynau, sydd yn rhoi sylw i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Bu i'r asesiad cydraddoldeb nodi pwysigrwydd hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn

lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa.

***5.2*** **Asesiad Ardrawiad Ieithyddol**

Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg drwy wireddu'r cynnig, yn bennaf gan:

i. Fod yr ysgol amgen yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg, fel y mae'r disgyblion yn ei dderbyn yn Ysgol Llanaelhaearn.
ii. Mae ystadegau cyfrifiad 2011 ar gyfer ward Llanaelhaearn yn dangos fod 74% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, gyda 80% o boblogaeth ward Abererch yn siarad Cymraeg. Mae dalgylch Ysgol Bro Plenydd o fewn ward Aberech (Swyddfa Ystadegol Gwladol).
iii. Dengys ystadegau PLASC Ionawr 2019 fod 54% o ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 83% o ddisgyblion Bro Plenydd.

***5.3*** **Asesiad Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015)**

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y Sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, deuir i gasgliad fod y cynnig yn bodloni 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y cyngor. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol. Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

**6. ARGYMHELLIAD**

***6.1*** Mae'r argymhelliad yma yn dilyn ystyriaeth o ystod o opsiynau. Gwerthuswyd yr opsiynau yma'n llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol. Defnyddiwyd y *strategaeth* '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'*, y Cod Trefniadaeth Ysgolion, casgliadau'r asesiadau effaith a ffactorau perthnasol eraill wrth werthuso'r opsiynau.

***6.2*** Gan na dderbyniwyd gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a'r ffaith na adnabuwyd opsiwn arall a fyddai'n dod i'r afael a'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, argymhellir i'r Cabinet i gymeradwyo'r penderfyniad a geisir, sef cadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

***7.1*** Yn ddarostyngedig ar benderfyniad Y Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol;

| | |
|---|---|
| **Mehefin 2020** | **Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru:** Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'r benderfynu:<br>i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;<br>ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;<br>iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;<br>v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni. |
| **31 Awst 2020** | **Gweithredu'r cynnig:** Ysgol Llanaelhaearn yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet. |

## 8. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad yn disgrifio y camau a ddilynwyd yn y broses ac yn benodol gweithredu y cyfnod gwrthwynebu statudol. Fe nodir yn yr adroddiad na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig yn dilyn y cyhoeddiad. Mae hyn yn sgil cyhoeddi y rhybudd ar y safle a'r wefan ynghyd a chysylltu yn uniongyrchol a'r rhan ddeiliaid a restrir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion sydd yn cynrychioli ystod eang gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr a chyrff statudol lleol a chenedlaethol. Rwy'n fodlon felly gyda priodoldeb yr argymhelliad.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sydd yn rhan 3.4 (d) a (dd) a rhan 4.3.3 o'r adroddiad, ynghyd â'r ffigyrau ariannol sy'n y rhan 'Adnoddau Ariannol' o Atodiad 1, unai yn wir gostau cywir, neu yn amcangyfrifon teg (lle'n briodol) wedi ystyried cost cludiant.
Mae rhesymau amlwg yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, gan gynnwys rhesymau ariannol fel arbediad blynyddol rhwng £92,213 a £105,813 mewn costau refeniw, a chost gyfredol Ysgol Llanaelhaearn yn £17,051 fesul disgybl, o'i gymharu â chyfartaledd sirol £4,198. Felly, rwy'n cefnogi'r argymhelliad.

**Yr Aelod Lleol:**

Nid oedd yr Aelod Lleol yn dymuno cynnig sylwadau.

**Atodiadau:**

**Atodiad 1:** Crynodeb o effaith y cynnig ar ffactorau y Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*'

**Atodiad 2:** Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Atodiad 3:** Copi o'r Rhybudd Statudol

**Atodiad 4:** Dogfen Ymgynghori

**Atodiad 5:** Adroddiad Cabinet 18 Chwefror 2020

**Atodiad 6:** Adroddiad Cabinet 5 Tachwedd 2019


**Atodiad 7:** Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'*

## Atodiad 1:

### Ysgol Llanaelhaearn

| Cymhariaeth y sefyllfa bresennol, a sefyllfa pe gwireddir y cynnig gyda ffactorau'r Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*' | | |
|---|---|---|
| | **Y sefyllfa bresennol** | **Y sefyllfa wedi gwireddu'r cynnig** |
| **Maint dosbarthiadau** | Un dosbarth o 3 disgybl ac un dosbarth o 5 disgybl. | Maint dosbarthiadau'r ysgol amgen yn 25 disgybl ar gyfartaledd. |
| **Niferoedd disgyblion** | 8 disgybl.<br><br>Dengys rhagamcanion y bydd 5 disgybl erbyn 2022. | Niferoedd presennol yr ysgol amgen yn 68 disgybl (a 6 Meithrin).<br><br>Dengys rhagamcanion 65 disgybl (+ 9 Meithrin) erbyn 2022. |
| **Arweinyddiaeth a staffio** | Rhannu Pennaeth gyda dwy ysgol arall. Y Pennaeth yn treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.<br><br>Athro llawn amser a chymhorthydd llawn amser. | Yn ogystal â phennaeth llawn amser, mae gan yr ysgol amgen dri athro a phedwar cymhorthydd. |
| **Y Gymuned** | Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgol sydd yn ganolbwynt i weithgareddau cymunedol gan gyfoethogi profiadau a chyfleoedd i'r disgyblion. | Disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol sydd yn ganolbwynt i weithgareddau cymunedol gan gyfoethogi profiadau a chyfleoedd i'r disgyblion, fel y sefyllfa bresennol |
| **Adnoddau Ariannol** | Costau o £17,051 y disgybl yn bresennol yn Ysgol Llanaelhaearn. Y cyfartaledd sirol ar gyfer yr un cyfnod yw £4,198 y disgybl. | Costau o £4,296 y disgybl yn Ysgol Bro Plenydd ac felly yn rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion a fyddai'n lleihau'r amrediad mewn cost y disgybl i holl blant Gwynedd.<br><br>Arbedion net arfaethedig rhwng £92,213 a £105,813, yn ddarostyngedig ar y niferoedd a fyddai'n derbyn cludiant am ddim i'w hysgol newydd. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg | Disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel y sefyllfa bresennol, ac mewn ysgol ble mae defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn gryf |
| **Ffactorau Daearyddol** | Disgyblion yn derbyn eu haddysg mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi. | Byddai'r disgyblion yn parhau i dderbyn eu haddysg mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi ac yn derbyn cludiant yn unol â pholisi'r Cyngor.<br><br>Byddai dalgylch Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys dalgylch Ysgol Llanaelhaearn ar gyfer y dyfodol. |

*Ffynonellau:* *Cyfrifiad Ysgolion Medi 2019*
*Dyraniad Cyllideb Ysgolion Gwynedd 2020/21*




# Adroddiad Asesiad Llesiant
# Ysgol Llanaelhaearn

- Mai 2020

## Cynnwys


1. **CYFLWYNIAD**
2. **SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?**
3. **A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?**
4. **EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY**
5. **CASGLIAD**

## 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.
Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:** | **Llewyrchus** | **Cydnerth** | **Iachach** | **Cyfartal** | **Cymunedau Cydlynus** | **Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu** | **Yn gyfrifol ar lefel byd-eang** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | | | | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | | | | | | |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | | | | | | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | | | | | | | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | | | | | | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | | | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | | | | | | | |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r dyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Cyd-destun Ysgol Llanaelhaearn

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Llanaelhaearn, a budd-ddeiliaid perthnasol eraill, er mwyn trafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 8 disgybl rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn. Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu'r ysgol yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth gyda 3 yn y cyfnod sylfaen a 5 yng nghyfnod allweddol 2.

Rhwng Mehefin a Medi 2019, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble bu i nifer o opsiynau gael eu cynnig a'u gwerthuso ar gyfer y dyfodol.

Wedi ystyried a gwerthuso'r 8 opsiwn, bu i'r Adran Addysg ystyried dau opsiwn yn fanylach, a fyddai'n cynnig manteision o gymharu â sefyllfa bresennol yr ysgol, sef ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu gau'r ysgol a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen. Mae'r opsiynau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a fyddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser ac uwch-gymhorthydd.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio model ffederal ffurfiol, gyfreithiol gydag ysgol neu ysgolion eraill cyfagos. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried byddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llangybi, Bro Plenydd, Chwilog, neu Pentreuchaf.

Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Byddai cyllidebau'r ysgolion yn parhau fel y maen nhw.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleon y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r opsiynau hynny, cyflwynwyd argymhelliad i Gabinet Cyngor Gwynedd a bu iddynt gytuno i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol a gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, o'r 1af Medi 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 16 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2020, a derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad. Bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ystyried yr adroddiad ymgynghori yn ei gyfarfod ar y 18 Chwefror 2020 gan benderfynu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig. Cyhoeddwyd y rhybudd statudol ar y 5 Mawrth 2020 gan gynnal cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig.

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Ystyriwyd amcanion llesiant Cyngor Gwynedd wrth werthuso'r opsiynau.

| Gwneud dim – parhau gyda'r sefyllfa bresennol. | |
|---|---|
| **Amcanion** | Manylion: |
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

| Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill | |
|---|---|
| **Amcanion** | Manylion: |
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith. Proses o ffurfioli'r drefn bresennol o gydweithio byddai ffederaleiddio, ac er bydd man newidiadau megis un Corff Llywodraethu ar ffederasiwn, a lleihau'r baich gweinyddol ar y Pennaeth, rhagdybir y byddai'r ysgol yn parhau gyda'r trefniant o gydweithio gydag Ysgolion Chwilog a Garndolbenmaen, neu ysgol arall pe byddant yn ffederaleiddio a nhw. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

| Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen | |
|---|---|
| **Amcanion** | Manylion: |
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Gall cyflwyno'r opsiwn yma arwain at staff i golli eu swyddi.<br>Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig.<br>Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion. |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Bydd sicrhau fod y disgyblion yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon, fan lleiaf, yn yr ysgol amgen. |

| | |
|---|---|
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy’n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Cynhaliwyd asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn byw mewn cymdeithas Gymraeg ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel Ysgol Bro Plenydd. Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol fod sefyllfa'r ysgol amgen yn gryf iawn, gyda 83% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg. O’i gymharu, mae 54% o ddisgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn dod o gartrefi Cymraeg. |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Golyga gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ac addysgu'r plant yn Ysgol Bro Plenydd fod y disgyblion yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu a phlant eraill ac yn derbyn addysg o ansawdd gan ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus.<br><br>Gall cyflwyno'r opsiwn yma arwain at staff yn colli eu swyddi. | Ymgynghorir yn benodol a staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd a'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Addysg a phrofiadau disgyblion y dalgylch sydd yn flaenllaw i'r cynnig. Ein bwriad yw sicrhau fod disgyblion yn cyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir. | Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb a deuir i gasgliad na fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar gydraddoldeb, a bod cyfle cyfartal i holl ddisgyblion a theuluoedd gwaeth beth fo'u cefndir nau amgylchiad cymdeithasol-economaidd. Mae'r ysgol amgen yn gweithredu polisi cydraddoldeb a gwrth-fwlio cadarn. |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Mae cymuned Llanaelhaearn yn gryf a gweithgar a chydnabyddir y byddai cau'r ysgol yn cael peth effaith negyddol ar y gymuned. | Cynhaliwyd asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned ble nodir er bod peth effaith negyddol ar y gymuned, ond fod 7 o ddisgyblion sydd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn yn mynychu Ysgol Bro Plenydd yn barod, ac felly mae cyswllt eisoes rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach. Nodir yr asesiad yn ogystal y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys cymuned Llanaelhaearn. |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Bydd gwireddu'r cynnig yn golygu y bydd disgyblion Ysgol Llanaelhaearn yn parhau i gael eu haddysgu mewn Ysgol cyfrwng Cymraeg. | Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol na fyddai newid i'r nod hwn drwy wireddu'r cynnig o ganlyniad i |

| | | |
|---|---|---|
| Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | | Gymreictod ardal Llanaelhaearn a'r ardaloedd eraill cyfagos. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod yma. | Dim effaith. |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY


| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Hirdymor** Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. | Mae'r patrwm niferoedd yn lleihau wedi bod yn digwydd ers 2012, gyda rhagamcanion yn dangos y bydd niferoedd yn lleihau ymhellach, ac felly dengys y bydd y sefyllfa o' heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor a bod angen adolygu'r sefyllfa cyn gynted â phosib. |
| **Atal** Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. | Anghenion y disgyblion fydd yn cael ei flaenoriaethu yn ystod pob cam o'r broses. |
| **Integreiddio** Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Mae sefyllfa argyfyngus o niferoedd isel yn ysgol Llanaelhaearn wedi arwain at adolygiad o sefyllfa'r ysgol ar gyfer y dyfodol. |
| **Cydweithio** Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. | Mae nifer o adrannau eraill wedi cael mewnbwn yn ystod y broses wrth werthuso'r opsiynau posibl. Yn ogystal, bu i ran-ddeiliaid perthnasol i'r ysgol fod a mewnbwn drwy gydol y broses hyd yma. |
| **Cynnwys** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu. | Mae'r cynnig wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ac ymgynghoriad i blant.<br>Mae'r broses hyd yma wedi cynnwys cyfarfodydd adolygu lleol er mwyn ymgysylltu a budd-ddeiliaid perthnasol yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynnwys y Corff Llywodraethu, staff, a rhieni Ysgol Llanaelhaearn. |

## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

Cydnabyddir fod y cynnig hwn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Llanaelhaearn, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgol amgen, ac felly mae cyswllt rhwng Ysgol Bro Plenydd a chymuned Llanaelhaearn eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Bro Plenydd yn cynnwys cymuned Llanaelhaearn, ble'n briodol.

Bydd y cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.




# Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb Ysgol Llanaelhaearn

- Mai 2020

## Cynnwys

1. **CYFLWYNIAD**

2. **OPSIYNAU**

3. **EFFAITH UNRHYW NEWID**

4. **DADANSODDI'R CANLYNIADAU**

5. **CASGLIAD**

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Cyd-destun Ysgol Llanaelhaearn

Ar y 4ydd o Fehefin 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Llanaelhaearn, a budd-ddeiliaid perthnasol eraill, er mwyn trafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr ysgol gapasiti Meithrin i flwyddyn 6 o 53, gyda 8 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Medi 2019). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn. Mae'r 8 disgybl sydd bellach yn mynychu'r ysgol yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth gyda 3 yn y cyfnod sylfaen a 5 yng nghyfnod allweddol 2.

Rhwng Mehefin a Medi 2019, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chorff Llywodraethu a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i adolygu sefyllfa'r ysgol, ble cynigwyd nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Ar y 5ed o Dachwedd 2019, cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gychwyn cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffor, ar y 1af Medi 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 16 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2020, a derbyniwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad. Bu i Gabinet Cyngor Gwynedd ystyried yr adroddiad ymgynghori yn ei gyfarfod ar y 18 Chwefror 2020 gan benderfynu rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig. Cyhoeddwyd y rhybudd statudol ar y 5 Mawrth 2020 gan gynnal cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig.

# 2. OPSIYNAU

## 2.1 Opsiynau

Yn ystod y trafodaethau lleol, bu i nifer o opsiynau gael eu cynnig a'u gwerthuso ar gyfer dyfodol yr ysgol.

Yn dilyn asesiad manwl o 8 opsiwn, deuir i'r casgliad fod dau opsiwn a oedd yn gynnig manteision o gymharu a sefyllfa bresennol yr ysgol.

Mae'r opsiynau hynny, yn ychwanegol i wneud dim a pharhau gyda'r sefyllfa bresennol, wedi eu manylu isod:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Llanaelhaearn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio. Byddai Pennaeth Strategol ar Ysgol Llanaelhaearn, Garndolbenmaen a Chwilog a fyddai'n treulio 1 diwrnod yr wythnos yn arwain Ysgol Llanaelhaearn.

Byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu gan athro llawn amser a chymhorthydd.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol / Ysgolion eraill*

Byddai Ysgol Llanaelhaearn yn ffurfio Ffederasiwn ffurfiol, cyfreithiol gydag un neu fwy o' Ysgolion cyfagos. Golyga hyn fod yr ysgolion yn parhau ar wahân ond fod y Cyrff Llywodraethu yn cael eu diddymu, a bod un Corff Llywodraethol yn cael ei ethol ar gyfer y Ffederasiwn. Yn ddaearyddol, yr ysgolion a fyddai'n rhesymol i'w hystyried fyddai un neu fwy o'r ysgolion canlynol; Yr Eifl, Llangybi, Bro Plenydd, Chwilog a Pentreuchaf. Byddai cyllidebau yr ysgolion yn parhau ar

wahân. Byddai ffederaleiddio yn gallu arwain at gyfleon i gydweithio yn agosach ac ysgol neu ysgolion eraill gan gryfhau arweinyddiaeth a chynllunio ar draws y ffederasiwn.

Drwy gyflwyno model ffederal gyda ysgol arall i Ysgol Llanaelhaearn, ni ragwelir y byddai'r newid yn cael effaith ar nodweddion cydraddoldeb, yn bennaf gan y byddai'r ysgol yn parhau yn Llanaelhaearn, gan weithredu yr un polisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio.

- *Cau Ysgol Llanaelhaearn a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golyga hyn fod Ysgol Llanaelhaearn yn cau, a'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd (yr ysgol amgen).

Daethpwyd i gasgliad yn dilyn asesiad manylach o'r opsiynau hyn, mae'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Bro Plenydd oedd yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion a dosbarthiadau bychain.

## 2.2 Ymgynghoriad Statudol

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniwyd 8 ymateb gan gynnwys sylwadau Estyn i'r ymgynghoriad. Yn eu hymateb, nodwyd:

*"Mae'r cynigiwr yn nodi bod gan adeilad Ysgol Bro Plenydd gyfleusterau cyfystyr ac Ysgol Llanaelhaearn i gynnig darpariaeth arbenigol sy'n addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n ddigon clir yr effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ac nid yw'r cynnig yn ystyried trefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ag anabledd."*

*"Ar y cyfan mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith a chost y cynigion ar drefniadau teithio disgyblion ond nid ar hygyrchedd y ddarpariaeth deithio ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig"*

Nodir yr Awdurdod fel ymateb i'r sylwad am ddiffyg ystyriaeth i drefniadau hygyrchedd i ddisgyblion ac anabledd, yn yr un modd a'r hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd, fe fyddai gofyn i Ysgol Bro Plenydd adolygu Cynlluniau'r disgyblion gydag ADY ac yna mapio'r anghenion ar ddarpariaeth yr ysgol. Byddai'r Panel Cymedroli yn ystyried darpariaeth ar gyfer disgyblion gyda Datganiad neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) i sicrhau darpariaeth addas yn yr ysgol newydd. Byddai'r fforwm yn trafod CDU plant sydd yn derbyn mewnbwn y Tîm Integredig ADY a Chynhwysiad, gan sicrhau parhad gwasanaeth

Mewn perthnasedd i ystyriaethau hygyrchedd, mae'r ddwy safle wedi eu hasesu yn yr un categori. Pe byddai unigolyn ac anableddau yn gwneud cais mynediad neu drosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd yn y dyfodol, y byddai'r Awdurdod yn ymdrin a'r cais fel y byddai i unrhyw ysgol arall yng Ngwynedd.

Mewn ymateb i'r sylwad am ystyriaeth i ddarpariaeth deithio ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig, nodir yr Awdurdod pe byddai disgybl yn methu a defnyddio cludiant arferol, y byddai unrhyw gludiant ychwanegol yn cael ei drafod gan y Panel Cymedroli ar sail sefyllfaoedd unigol.

Wrth ystyried effaith y cynnig ar gydraddoldeb, nodir Estyn:

*"Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad o effaith y cynnig ar gydraddoldeb ac yn honni'n rhesymol na ddylai'r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol. Fodd bynnag, nid cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i aflonyddwch posibl ar ddisgyblion presennol."*

Fel ymateb i'r sylwad uchod, mae'r Adran Addysg yn cefnogi cais am gludiant i drosglwyddo i Ysgol Chwilog, a fyddai'n lleihau'r aflonyddwch posibl ar ddisgyblion presennol Ysgol Llanaelhaearn.

## 3. EFFAITH UNRHYW NEWID

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn?

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Ni fyddai gweithredu y cynnig yn effeithio ar bobl ar sail hil. Bydd gweithredu unrhyw gynnig yn golygu fod pawb o unrhyw hil yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi eu bod yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim | Addysgir plant Ysgol Llanaelhaearn drwy gyfrwng y Gymraeg, ac nid yw'r cynnig yn awgrymu newid hynny. Cynhaliwyd asesiad ardrawiad ieithyddol ar y cynnig yn ogystal. |
| **Anabledd** | Dim | Ni ragwelir fod newid ar gyfer pobl anabl.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Bro Plenydd yn cael ei gymeradwyo, bydd angen monitro y nifer o ddisgyblion anabl sydd yn mynychu'r ysgolion. Yn ddibynnol ar yr amhariad bydd yn rhaid i'r ysgolion addasu eu cynlluniau ar gyfer rhoi mynediad i ddisgyblion gydag anableddau penodol. Yn sgil hyn bydd yn rhaid i'r awdurdod hefyd sicrhau bod adrannau perthnasol yn ymwybodol o newidiadau a sicrhau'r mewnbwn angenrheidiol. Byddai asesiad o hygyrchedd y safle arfaethedig yn cael ei gynnal yn unol â sefyllfaoedd penodol.<br><br>Mae'r ddau safle yn yr un categori o ran hygyrchedd, ond pe byddai unigolyn ac anableddau yn gwneud cais mynediad neu drosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd yn y dyfodol, y byddai'r Awdurdod yn ymdrin â'r cais fel y byddai i unrhyw ysgol arall yng Ngwynedd. |
| **Rhyw** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail rhyw. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Oedran** | Unrhyw effaith yn gymharol fychan (positif neu negatif) | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail oedran. Bydd gweithredu'r cynnig yn golygu fod pobl o unrhyw oedran yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br><br>Er y gallai golli ysgol leol gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol, bydd angen lliniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol amgen a chymuned leol Llanaelhaearn. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Bydd gweithredu'r cynnig yn golygu fod pawb o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Crefydd neu Gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail crefydd neu gred. Bydd gweithredu unrhyw un o'r opsiynau yn golygu fod pawb o unrhyw grefydd neu gred yn cael eu trin yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br><br>Ysgol gymunedol yw Ysgol Llanaelhaearn a'r holl ysgolion cyfagos (Yr Eifl, Llangybi, Pentreuchaf, Bro Plenydd, Chwilog), ac nid oes bwriad i newid hyn. |
| **Ailbennu Rhywedd** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Bydd gweithredu y cynnig yn sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn deg. Mae Ysgol Llanaelhaearn, a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br><br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un beichiog, boed yn staff neu yn riant, gan fod y ddwy ysgol yn gweithredu yr un polisïau. |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Dim | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un priod neu mewn partneriaeth sifil, gan fod y ddwy ysgol yn gweithredu yr un polisïau. |

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth.

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Gweithredu polisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio yr ysgol amgen er mwyn cael gwared a chamwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu.<br>Mae polisïau safonol yr Adran Addysg yn cael eu gweithredu gan y ddwy ysgol. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen i barhau i ddilyn polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen i barhau i ddilyn polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb.<br><br>Gan fod rhai o blant sydd yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn yn mynychu Ysgol Bro Plenydd eisoes, mae cysylltiad rhwng yr ysgol a chymuned Llanaelhaearn yn bodoli yn barod. Er hynny, hyrwyddir cyfleon i'r ysgol adeiladu ar gysylltiadau gyda chymuned Llanaelhaearn. |

## 4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU

4.1 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol. Mae gan yr ysgol amgen bolisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio, fel sydd gan Ysgol Llanaelhaearn yn bresennol.

4.2 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol. Mae gan yr ysgol amgen bolisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio, fel sydd gan Ysgol Llanaelhaearn yn bresennol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

**Dewiswch un o'r canlynol:**

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau â'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

4.4 Os yn parhau gyda'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Er y gallai golli ysgol leol gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol, bydd angen lliniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol amgen a chymuned leol Llanaelhaearn. |

4.5 Monitro - pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei bolisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitor arferol, yn sicrhau cydymffurfiaeth. |

## 5. CASGLIAD

Deuir i gasgliad na fyddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Bro Plenydd yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd gyffredinol. Gweithredir polisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio cadarn gan yr ysgol amgen a fyddai'n ymestyn i gynnwys disgyblion a rhieni Llanaelhaearn. Pe byddai rhai yn cael eu hamlygu yn y dyfodol, yna bydd y Cyngor yn ystyried y camau gweithredu angenrheidiol.

Eitem 7

**ADRODDIAD I'R CABINET**
19 MAI 2020

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Effaith COVID19 ar Gyllideb 2020/21

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid
Dafydd L. Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1 Y penderfyniad a geisir


Gofynnir i'r Cabinet nodi'r bwlch posibl yng nghyllideb 2020/21 a chefnogi ymdrechion yr Arweinydd a'r swyddogion i sicrhau opsiynau ariannu addas gan Lywodraeth Cymru.

## 2 Pwrpas yr Adroddiad

I hysbysu'r Cabinet o effaith ariannol COVID19 ar gyllideb 2020/21 y Cyngor, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholled sylweddol mewn incwm.

## 3 Cefndir

Yn y Cyngor llawn ar y 5 Mawrth 2020 cymeradwywyd cyllideb net o £262 miliwn ar gyfer 2020/21, gyda'r gyllideb gros am y flwyddyn yn £431 miliwn. Dengys y diagram isod fod 14% o incwm y Cyngor yn dod o werthiannau, ffioedd, cyfraniadau ayyb.



## 4 Effaith COVID19 ar Wariant ac Incwm hyd at ddiwedd Mehefin

Rhagwelir cynnydd net o £1.2 miliwn yng ngwariant y Cyngor am y chwarter hyd at ddiwedd Mehefin o ganlyniad i effaith y COVID19, gyda gwariant ychwanegol o £1.8 miliwn am y cyfnod hyd at ddiwedd Mehefin, ond fod £640k o leihad mewn gwariant dros yr un cyfnod.

Ceir effaith mwy syfrdanol ar incwm y Cyngor, gyda cholledion incwm o £6.8 miliwn yn cael ei ragweld ar gyfer yr un cyfnod, a'r effaith mwyaf ar gwmni Byw'n Iach o £1.1 miliwn, Prydau Ysgol £1 miliwn, Parcio £600k, Cytundebau Priffyrdd £600k ac Ymgynghoriaeth Gwynedd £500k.

Y disgwyliad yw y byddwn yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r gwariant ychwanegol, ond nid oes yna unrhyw addewid o ran cyllido'r golled incwm.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi cyflwyno gwybodaeth i'r Is-grŵp Cyllid 30/04/2020, er mwyn dylanwadu ar Lywodraeth Cymru. Mae hyn dan ystyriaeth gan y Gweinidogion fydd yn dod nôl at CLILC yn fuan.

## 5 Effaith ar y cyfnod tu hwnt i ddiwedd Mehefin

Yn ôl ein rhagolygon diweddaraf, os yw'r cyfnod caeth ('lockdown') i'w ymestyn ymhellach, amcangyfrifir gallasai ein colledion incwm fod fel a ganlyn:

| | **Tybiaethau Cyfredol 2020/21 - 100% o golled incwm am:-** | | |
|---|---|---|---|
| | **3 mis** | **6 mis** | **12 mis** |
| | **£ miliynau** | **£ miliynau** | **£ miliynau** |
| **Cyngor Gwynedd** | 4 | 8 | 12 |
| **Byw'n Iach** | 1 | 2 | 4 |
| **Cyfanswm** | **5** | **10** | **16** |

Manylir ar y golled incwm fesul adran yn **Atodiad A**.

**6 Bwlch Ariannu**

Nid oes sicrwydd ar hyn o bryd os bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu tuag at y golled incwm ac felly bydd yn rhaid i ni ystyried sut i ddygymod gyda bwlch cyllidebol Cyngor Gwynedd. Rhagwelir y bydd y golled incwm rhwng ystod o £5 miliwn - £16 miliwn, fydd yn ddibynnol ar hyd yr argyfwng. Gwerth cyfredol ein balansau cyffredinol yw £7.5 miliwn. Mae angen i'r Llywodraeth ddigolledu awdurdodau am yr incwm a gollwyd yn amlwg felly, yn enwedig gan nad yw lefelau incwm yn debygol o adfer eu hunain am rai blynyddoedd efallai.

**7 Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cabinet ystyried y rhagolygon gwariant ac incwm i Wynedd, gan nodi'r bwlch cyllidebol gall ddeillio o'r argyfwng yn 2020/21, a chefnogi ymdrechion yr Arweinydd a'r swyddogion i sicrhau opsiynau ariannu addas gan Lywodraeth Cymru

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'n briodol fod y Cabinet yn derbyn diweddariad ynglyn ag ardrawiadau yr argyfwng ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Er yn anorfod mai amcangyfrifon yw'r ffigyrau, mae graddfa y sefyllfa yn cael ei gyfleu ynghyd a'r achos am gefnogaeth gan y Llwydoraeth

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**ATODIADAU**

ATODIAD A - Dadansoddiad Effaith Covid19 ar y Gyllidebau Incwm Adrannol 2020/21

**ATODIAD A**

## Dadansoddiad Effaith Covid19 ar y Gyllidebau Incwm Adrannol 2020/21

| | Tybiaethau Cyfredol 2020/21 - 100% o golled incwm am:- | | |
|---|---|---|---|
| | 3 mis | 6 mis | 12 mis |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adrannau** | | | |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 258 | 713 | 1,622 |
| Plant a Theuluoedd | 39 | 65 | 65 |
| Addysg | 1,008 | 1,261 | 1,261 |
| Economi a Chymuned | 775 | 1,565 | 2,787 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 704 | 1,311 | 2,408 |
| Amgylchedd | 1,078 | 2,010 | 2,583 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 450 | 900 | 1,800 |
| Tai ac Eiddo | 141 | 250 | 500 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 16 | 21 | 100 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 117 | 177 | 329 |
| Cyllid a Chorfforaethol | 40 | 80 | 160 |
| **Cyfanswm (Eithrio Byw'n Iach)** | **4,368** | **7,640** | **11,993** |
| Byw'n Iach | 1,173 | 1,982 | 4,006 |
| **Cyfanswm (Cynnwys Byw'n Iach)** | **5,541** | **9,622** | **15,999** |

** Amcangyfrifon yw'r uchod yn seiliedig ar fewnbwn a barn Rheolwyr / Penaethiaid, maent yn amcangyfrifon teg o ran y wybodaeth sydd i law ond yn llai dibynadwy nac amcangyfrifon arferol yr Adran Gyllid.*

*** Byw'n Iach – Cynllunio efo Byw'n Iach ar ôl cael gwell dealltwriaeth o effaith Furlough ar eu gwariant.*

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 MAI 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Griffith** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Gareth Jones, Pennaeth Cynorthwyol , Adran Amgylchedd** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **34092** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau, Drafft Ail Adolygiad** |

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1. Ì cymeradwyo Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

1.2 Yn ddarostyngedig i 1.1 uchod, i awdurdodi'r Pennaeth Adran Cynorthwyol i gyflwyno cadarnhad o gymeradwyaeth y Cabinet i Lywodraeth Cymru.

**2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau MTAN 1 (Agregau), yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi Datganiadau Technegol Rhanbarthol (DTRh) ar gyfer rhanbarthau Gogledd a De Cymru er mwyn darparu strategaeth ar gyfer cyflenwad agregau adeiladu ar gyfer y dyfodol.

2.2. Cymeradwywyd y dogfennau DTRh gwreiddiol ar gyfer y ddau ranbarth gan Llywodraeth Cymru yn 2008 ac mae angen iddynt gael eu hadolygu bob pum mlynedd yn unol ag anghenion MTAN 1. Cynhaliwyd a chymeradwywyd yr Adolygiad Cyntaf yn 2013/2014 a chychwynnodd yr Ail Adolygiad yma yn 2018. Mae'r ail adolygiad o'r DTRh yn gofyn am gymeradwyaeth gan bob un o'r Cynghorau priodol sy'n rhan o ranbarth Gogledd Cymru er mwyn caniatáu iddo gael ei gyhoeddi a'i ddefnyddio ar gyfer paratoi polisi agregau mwynau o fewn cynlluniau datblygu lleol ac adolygiadau neu baratoi canllawiau cynllunio atodol fel sy'n briodol.

2.3 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn) yng Ngorffennaf 2017, gydag adolygiad cyntaf y DTRh yn bwydo i mewn i bolisïau agregau a mwynau'r cynllun.

## 3 CYFLWYNIAD

3.1 Defnyddir agregau mewn cyfeintiau mawr ac maent yn hanfodol i'r diwydiant adeiladu ar gyfer prosiectau seilwaith fel ffyrdd, ysgolion, tai ac adeiladau eraill. Maent yn cynnwys tywod a graean, cerrig mâl, llechi a deunyddiau eraill wedi'u hailgylchu. Mae daeareg amrywiol Gogledd Cymru yn golygu bod adnoddau sylweddol o ddeunyddiau agregau wedi'u chwarela ers canrifoedd ond ar ben hynny, mae marchnad yn datblygu ar gyfer agregau eilaidd a gynhyrchir o waith dymchwel, cynhyrchu llechi to a gweithio tomenni gwastraff llechi.

3.2 Mae'r DTRh yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ynglŷn â chydbwysedd y cyflenwad a'r galw i sicrhau y gellir cynnal cyflenwad digonol a chyson o agregau ledled Cymru (*a thu hwnt, yn achos deunyddiau sy'n cael eu hallforio*) yn unol ag amcanion allweddol cyflenwad cynaliadwy a amlinellir yn MTAN 1. Mae'r DTRh yn darparu argymhellion penodol i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ynglŷn â'r swm o agregau sydd angen eu cyflenwi o bob ardal (dosraniadau) a natur a maint unrhyw ddyraniadau y gallai fod angen eu gwneud mewn unrhyw Gynllun Datblygu Lleol (CDLl ) i sicrhau fod darpariaeth ddigonol yn cael ei gynnal trwy gydol cyfnod perthnasol y Cynllun. Mae hyn er mwyn cynnal cyflenwad digonol o fwynau sy'n angenrheidiol ar gyfer y diwydiant adeiladu sydd yn ei dro, yn rhoi fwy o sicrwydd y gellir cyflawni galwadau yn y dyfodol am dai, cyflogaeth a datblygu seilwaith i hyrwyddo twf economaidd.

3.3 Tra bod MTAN1 yn datblygu'r polisi cenedlaethol a nodwyd yn wreiddiol ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (sydd bellach yn rhan o Bolisi Cynllunio Cymru - PPW 10), mae'r DTRh yn darparu'r manylion ategol sy'n caniatáu i hyn gael ei weithredu.

3.4 Mae prif ddogfen Ail Adolygiad yr DTRh yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn wedi ei gynorthwyo gan Atodiad manwl 'A' sy'n darparu esboniad ychwanegol, yn benodol i Ardal Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (RAWP), sy'n ymwneud ag ystyried patrymau cyflenwad presennol, dadansoddiad manwl o ddosraniadau isranbarthol a gofynion ar gyfer dyraniadau newydd. Mae'r Atodiad hwn yn ymgorffori'r wybodaeth honno mewn argymhellion a chanllawiau penodol ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) unigol.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Mae gan Ogledd Cymru amrywiaeth helaeth o ddyddodion ddefnyddiau sy'n addas ar gyfer agregau, yn enwedig craig igneaidd a chalchfaen. Maent i'w cael yn y rhan fwyaf o ardaloedd y rhanbarth. Mae dyddodion tywod a graean yn fwy cyfyngedig ac maent wedi'u lleoli'n bennaf mewn rhannau o Wynedd, Sir y Fflint ac yn benodol, Wrecsam.

4.2 Mae'n hanfodol cynnal cyflenwad digonol o fwynau o'r fath i sicrhau bod y deunyddiau hyn yn cael eu ffynhonellu mewn modd cynaliadwy. Lle bo angen, rhaid i'r system gynllunio wneud darpariaeth i sicrhau cyflenwad ar ffurf dyraniadau, a all fod yn ddyraniadau safle-benodol, ardaloedd a ffafrir, neu feysydd chwilio, o fewn cynlluniau datblygu lleol i alluogi ceisiadau am gronfeydd wrth gefn newydd o agregau ddod ymlaen i fodloni'r galw. Mae adolygiad pob 5 mlynedd yn galluogi dadansoddi'r cronfeydd wrth gefn a'r tueddiadau ac yn nodi rhagamcanion ar gyfer galw yn y dyfodol.

4.3 Mae'n ofynnol, lle bo hynny'n bosibl, i gynlluniau datblygu lleol wneud darpariaeth i sicrhau isafswm banc tir o 7 mlynedd o dywod a graean a 10 mlynedd o agregau cerrig mâl drwy gydol cyfnod y cynllun. Mae hyn yn golygu, ar ddyddiad olaf unrhyw gynllun datblygu lleol penodol, y bydd y gofyniad sylfaenol hwn yn aros a phan ei ychwanegir at hyd cynllun datblygu lleol o 15 mlynedd, dylai fod darpariaeth ar gyfer 22 mlynedd o dywod a graean a 25 myned o agregau creigiau mâl. Yng nghyd-destun ardal Cynllunio Lleol Gwynedd, mae Cynllun Lleol Gwynedd a Môn ar y Cyd yn cynnwys y cyfnod o 2011 i 2026.

4.4 Mewn dogfennau DTRh blaenorol, mae'r rhagfynegiadau ar gyfer y galw am agregau yn y dyfodol wedi'u seilio ar gyfartaledd o'r tunelledd gwerthiant 3 a 10 mlynedd blaenorol ac mae'r dosraniadau sy'n deillio o hynny yn deillio o fanciau tir a gyfrifwyd trwy rannu'r cronfeydd wrth gefn a ganiateir (cronfeydd mwynau sy'n bodoli gyda chaniatâd Cynllunio) gyda'r tunelledd gwerthu cyfartalog . Fodd bynnag, nid yw methodoleg o'r fath bob amser yn ddibynadwy, gan fod amodau economaidd, arferion adeiladu, twf tai, a phrosiectau seilwaith yn destun newid.

4.5 Mae dull newydd yn cael ei ddefnyddio i ragfynegi'r galw yn y dyfodol yn Ail Adolygiad o'r DTRh, sy'n seiliedig ar dwf a chwblhad tai o fewn cynlluniau datblygu. Mae cydberthynas agos iawn rhwng cwblhau tai a'r galw am agregau adeiladu, a gellir defnyddio hwn fel procsi i nodi cyfanswm y galw am agregau. Derbynnir nad yw'r galw am agregau adeiladu wedi'i gyfyngu i dai, sy'n gymedrol ar oddeutu 30% o gyfanswm y defnydd o agregau, ond y galw ehangach am seilwaith a nodwyd gan dwf tai, (*ffyrdd newydd, datblygu masnachol a busnes, ysgolion, ysbytai, gweithfeydd pŵer, gwaith cynnal a chadw*) sy'n rhoi cyfrif am gyfanswm y galw am agregau.

4.6 Y rhesymeg felly yw y dylai unrhyw Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer agregau i alluogi'r diwydiant adeiladu gael sicrwydd cyflenwad a mynediad at ddeunyddiau crai i gyflawni'r amcanion twf tai hyn, a thrwy procsi, y twf ehangach sy'n creu'r galw am agregau.

4.7 Ers cyhoeddi'r Adolygiad cyntaf o'r DTRh, mae lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn o agregau a ganiateir yng Ngogledd Cymru wedi lleihau. Yng Ngwynedd, rhoddwyd caniatâd cynllunio i oddeutu 600,000 tunnell o dywod a graean yn Llecheiddior Uchaf, Bryncir, 380,000 tunnell o dywod a graean i estyniad yng Nghefn Graianog, Llanllyfni a rhyddhawyd 320,000 tunnell o dywod a graean trwy bennu amodau newydd ar gyfer safle Adolygiad Caniatad Mwynau ROMP Cae Efa Lwyd ym Mhenygroes.

4.8 Yn sgil Ail Adolygiad o'r DTRh, 23.867 miliwn o dunelli yw'r dosraniad a gyfrifwyd ar gyfer agregau cerrig mâl yng Ngwynedd a'r dosraniad tywod a graean yw 3,834 miliwn tunnel yng nghyd destun Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Mae'r cronfeydd wrth gefn a ganiateir o agregau cerrig mâl o 28.54 miliwn tunnell yn ddigonol, fel nad oes angen dyraniad newydd. Fodd bynnag, mae'r cronfeydd tywod a graean ar hyn o bryd yn 1.175 miliwn tunnell ac nid ydynt yn ddigonol i ddarparu'r banc tir 7 mlynedd llawn ar ddiwedd cyfnod y cynllun. Y dyraniad lleiaf sy'n ofynnol i gyflawni'r diffyg hwn yw 2.659 miliwn tunnell i gwrdd â'r dosraniad blynyddol tywod a graean 0.174 miliwn y flwyddyn.

4.9 O ran gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl), mae Polisi MWYN 2 yn dynodi ardaloedd a ffefrir ar gyfer tywod a graean yng Ngwynedd, sef ar yr adnoddau fwyaf hyfyw economaidd sydd wedi'u hadnabod mewn Astudiaeth comisiynwyd gan Llywodraeth Cymru, '*The Sand and Gravel Resources of North Wales*' a luniwyd gan Brifysgol Lerpwl ac Enviros yn 2003. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd a ffefrir a nodwyd yn y (CDLl) dros 21 miliwn tunnell AC yn darparu'r potensial ar gyfer rhyddhau cronfeydd wrth gefn newydd sy'n llawer mwy na'r dyraniad lleiaf argymelledig o 2.659 miliwn tunnell yn yr Ail Adolygiad o'r DTRh er mwyn caniatáu ar gyfer elfennau ansicr, i ddarparu dewis i'r diwydiant mwynau ac i annog cyflenwadau lleol a lleihau pellteroedd cludo.

4.10 Felly mae'n ymddangos nad oes angen brys o ran newid i ofynion y cynllun datblygu lleol yn syth mewn perthynas â nodi dyraniadau tywod a graean, gan ystyried y cronfeydd ddichonol a ellir ei ddarparu o'r ardaloedd a ffefrir sydd wedi'u hadnabod yn y CDLl. Fodd bynnag, er bod yr ardaloedd a ffefrir a nodwyd yn y CDLl yn cynnal darpariaeth ddigonol ar gyfer cyflenwadau o dywod a graean yn y dyfodol, bydd yr DTRh diwygiedig yn ystyriaeth faterol yn yr adolygiad cyntaf o'r CDLl yn ystod 2021, pe bai'r awdurdod yn penderfynu cynnwys dyraniadau mwynau mewn ymgynghoriad statudol ar gyfer 'y galw am safleoedd'.

4.11 Yn ogystal, mae'r DTRh wedi nodi isranbarthau yn seiliedig ar asesiad eang o ardal y farchnad, dosbarthiad a mathau o fwynau gyda Pharc Cenedlaethol Eryri, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel isranbarth Gogledd Orllewin Cymru. Os na all Cyngor Gwynedd ddarparu dyraniad newydd ar gyfer tywod a graean, byddai'n edrych i awdurdodau cyfagos yn yr isranbarth i gynorthwyo i wneud darpariaeth o'r fath. Fodd bynnag, nid oes gan 'run o'r awdurdodau eraill adnoddau tywod a graean sylweddol sy'n economaidd hyfyw neu'n rhydd o gyfyngiadau cynllunio.

4.12 Gall y sefyllfa fod yn wahanol ar gyfer agregau cerrig mâl, ac er fod cronfeydd digonol wrth gefn o gerrig mâl yng Ngwynedd, mae cwestiwn yn codi am ansawdd y deunyddiau sydd ar gael ac felly eu hôl-ddefnydd. Mae cyfran sylweddol o'r cronfeydd wrth gefn a ganiateir yng Ngwynedd yn ddeunyddiau "gwastraff" llechi eilaidd sy'n cael eu cloddio neu'u tynnu o bentyrrau "gwastraff" llechi gweithredol a'u trin fel agreg primaidd at ddibenion y DTRh, gan eu bod yn gallu amnewid fel agregau cerrig mâl. O ran llechi fel ffynhonnell agregau, mae'r adolygiad o'r DTRh yn datgan; "*Yng Ngogledd Cymru, mae llechi mâl, sy'n deillio naill ai o wastraff llechi (fel sgil-gynnyrch cynhyrchu deunydd toi) neu a chwarelwyd yn benodol i'w ddefnyddio fel agreg sylfaenol, yn nodwedd sylweddol ym mhatrwm cyffredinol y cyflenwad, yn enwedig yng Ngwynedd*". Wrth ystyried gofynion rhanbarthol, mae'r DTRh yn cadarnhau; "*Defnyddir y mwyafrif o agregau llechi yn lleol yng ngogledd orllewin Cymru ac nid oes llawer i awgrymu fod angen i'r patrwm cyflenwad presennol naill ai newid neu ei fod yn gallu gwneud hynny*" …… .. ". Gyda chyflwyniad yr ardoll agregau yn 2002, bu mwy o ddefnydd o wastraff llechi i amnewid cronfeydd wrth gefn cerrig mâl primaidd.

4.13 Fodd bynnag, nid yw llechi mâl yn addas ar gyfer pob categori o ddefnydd agregau, lle mae angen nodweddion o ansawdd corfforol trwm, megis concrit safon uchel neu ddeunyddiau gwrthsefyll sgid ar gyfer gwynebu ffyrdd. Mae'n bosibl, os yw'r galw am gerrig mâl ag ansawdd uwch yn fwy na'r galw a ragwelir, y bydd angen sicrhau cronfeydd wrth gefn o gerrig mâl newydd yn yr isranbarth, ac mae'n bosibl byddai angen Datganiad Tir Cyffredin neu Ddatganiad o Gydweithrediad Isranbarthol o rhwng awdurdodau CDLl Gwynedd ac Ynys Môn mewn cydweithrediad â Chonwy pe bai senario o'r fath yn codi. Gellir dim ond gweithio mwynau lle maent yn codi a serch hynny, gall Gwynedd ystyried ceisiadau newydd am agregau cerrig mâl yng nghyd-destun marchnad isranbarthol neu ranbarthol ehangach a dylent asesu fod angen caniatáu cronfeydd wrth gefn newydd yn unol â pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf lle mae diffyg cronfeydd cerrig mâl o ansawdd uwch.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gymeradwyo'r DTRh cyn iddo gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a phryd hynny fydd pwysau materol i'r DTRh, a dylid ymgorffori ei argymhellion mewn cynlluniau datblygu lleol.

5.2 Rhagwelir y bydd yr DTRh yn cael ei gymeradwyo gan bob un o Awdurdodau Cymru yn ogystal â derbyn cymeradwyaeth y Gweinidog erbyn haf 2020.

5.3 Yn achos Gwynedd, mabwysiadwyd y CDLl ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn) yng Ngorffennaf 2017 ac mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf, sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2019, wedi'i gyhoeddi. Mae'r amserlen ar gyfer yr DTRh a'r CDLl ar y Cyd yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd argymhellion yr DTRh yn cael eu hymgorffori'n llawn nes bydd yr adolygiad cyntaf o'r CDLl ar y Cyd yn digwydd yn 2021.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 Dosbarthwyd yr DTRh i randdeiliaid allweddol gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol, y Diwydiant Agregau a Sefydliadau Amgylcheddol fel Adnoddau Naturiol Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori wyth wythnos a ddechreuodd ym mis Hydref 2019 ac a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2019. Mae Gwynedd yn ymgynghorydd i broses y DTRh ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau mewn ymateb i gyhoeddusrwydd ar dudalen we'r awdurdod na'r digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd yng Nghyffordd Llandudno ar y 15fed o Dachwedd.

6.2 Mae Cuesta Consultants wedi cynhyrchu adroddiad ymgynghori ar ran Llywodraeth Cymru a'r Gweithgorau Agregau Rhanbarthol (Atodiad 2) sydd yn crynhoi'r sylwadau i gwestiynau penodol ar y brif ddogfen a'r atodiadau technegol priodol ar gyfer rhanbarthau Gogledd a De Cymru yn 2il adolygiad o'r DTRh RTS gan gynnwys; pwrpas y DTRh, egwyddorion a dulliau allweddol, methodoleg ar gyfer yr 2il adolygiad, dadansoddiad o'r patrwm cyflenwi presennol, asesu dosraniadau a dyraniadau, y broses ymgynghori ac unrhyw bwyntiau sy'n codi o'r atodiadau priodol ar gyfer Gogledd a De Cymru. Derbyniwyd cyfanswm o 23 ymateb i ymgynghoriad a chrynhoir y materion allweddol a godwyd fel a ganlyn;

**Ffigurau Tai**

6.3 Er gwaethaf amheuon gan rai Awdurdodau Lleol ynglŷn â defnyddio ffigurau tai yn y DTRh, daeth y grŵp llywio i'r casgliad bod defnyddio'r ffigurau hyn yn darparu'r ffynhonnell ddata gorau sydd ar gael i ddrafftio methodoleg gadarn a chyson i lywio dosraniadau agregau yn y dyfodol ac nid yw'r defnydd o hynny'n gyfystyr â chyflwyno polisïau tai y tu hwnt i unrhyw ddyddiad gorffen CDLl priodol (gweler paragraff 4.5 o'r adroddiad hwn).

6.4 Mewn Adolygiadau o'r DTRh yn y dyfodol, mae'n ddigon posibl y bydd rhywfaint o resymeg wrth gysylltu darpariaeth agregau yn y dyfodol â gofynion tai yn y fersiwn fabwysiedig o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mewn perthynas â dosraniad isranbarthol yng Ngham 3 y DTRh, dylid diwygio'r fethodoleg i ystyried y cwbl o dai a gwblhawyd (dros y cyfnod sylfaenol) yn ogystal â gofynion y dyfodol i adlewyrchu patrwm cyfnewidiol y cyflenwad.

**Diffiniad o Is-ranbarthau**

6.5 Tra fod materion o bosib yn ymwneud â'r diffiniad o isranbarthau yn Ne Ddwyrain Cymru i hyrwyddo patrwm cyflenwi tecach a mwy cynaliadwy, mae'r sefyllfa ar gyfer Gwynedd ac isranbarth Gogledd Orllewin Cymru heb newid i raddau helaeth ac eithrio cynnwys Conwy i fynd i'r afael â dosraniad isranbarthol ac unrhyw ofyniad yn y dyfodol i ddrafftio datganiad o gydweithredu isranbarthol (gweler paragraff 4.11 o'r adroddiad hwn).

**Dosraniadau i ACLl neu isranbarthau**

6.6 Hyd nes y bydd y gofynion a nodir yn MTAN 1 yn cael eu newid, rhaid darparu dosraniad ar gyfer pob ACLl unigol. Fodd bynnag, lle na ellir cwrdd â'r dosraniadau a argymhellir ar gyfer ACLl unigol, gellid defnyddio Datganiadau Cydweithio Isranbarthol, fel yr awgrymir yn yr adroddiad hwn, i ddatblygu ffyrdd amgen (mwy cyraeddadwy a mwy cynaliadwy) o gyflawni'r ffigwr dosrannu cyffredinol ar gyfer yr isranbarth hwnnw.

**Datganiadau o Gydweithrediad Isranbarthol (DGI) / Datganiadau o Dir Cyffredin**

6.7 Mae Datganiadau o Dir Cyffredin neu Datganiadau o Gydweithrediad Isranbarthol, (DGI), wedi'u cyfeirio ym mharagraff 4.13 o'r adroddiad hwn er mwyn datblygu ffyrdd amgen (mwy cyraeddadwy a mwy cynaliadwy) o gyflawni'r ffigwr dosrannu cyffredinol

ar gyfer yr isranbarth hwnnw. Mae'n ymddangos bod DGIu wedi'u derbyn yn ffafriol, heb unrhyw wrthwynebiadau heblaw'r angen am esboniad cliriach ynglŷn â mecanweithiau dan sylw (gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag amserlenni cyfnodol CDLlau cydrannol).

6.8 Y sefyllfa bresennol yn ymwneud â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer DGI yw oni bai y gellir dod i gytundeb lawn gyda'r diwydiant ynglŷn â rhai manylion o'r broses DGI, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r canllawiau ar y broses honno ar wahân, yn hytrach na'u cynnwys yn y DTRh ei hun.

**Data Gwerthiannau**

6.9 Mae'r DTRh yn defnyddio'r cyfartaleddau gwerthu 3 blynedd a 10 mlynedd uchaf, hyd at 2016. Mewn ymateb i bryderon ynghylch gor-ddarparu a defnyddio data fwy diweddar 2018, cadarnhaodd y Grŵp Llywio nad yw gor-ddarparu yn gyffredinol rhywbeth i boeni amdano (nid yw'n arwain at orgyflenwi, ond mae'n gwarchod rhag y risg lawer mwy difrifol o dan-ddarparu). Yn ail, er fod posib defnyddio data gwerthiant fwy diweddar, byddai hyn yn gofyn am ail-weithio'r holl ffigurau a'r testun cyfatebol yn llwyr, gan ofyn am waith ychwanegol sylweddol ac oedi cyhoeddi'r DTRh. Cytunwyd felly y dylai'r data gwerthiant aros yn ddigyfnewid.

**Materion Eraill**

6.10 Nid yw'r sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd ar y broses adolygu, gofynion deddfwriaeth / canllawiau cynllunio cyfoes neu faterion sy'n benodol i ranbarthau Gogledd a De Cymru yn codi unrhyw faterion arwyddocaol ar y broses o fabwysiadu RTS.

**Materion sy'n codi o'r Broses Ymgynghori RTS**

6.11 Cyn belled ag y mae Gwynedd yn y cwestiwn, nid oes fawr yn codi o ymgynghoriad adolygu'r y DTRh sy'n newid y sefyllfa cyflenwad agregau yn lleol na chwaith yn yr isranbarth. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau na sylwadau o bwys mewn ymateb i ymgynghoriad a'r prif fater sy'n codi o'r ail adolygiad DTRh yw'r safbwynt ynglŷn â gofynion dosrannu lleol ac isranbarthol ar gyfer awdurdodau De Cymru. Bydd angen cytuno ar ddatganiadau o gydweithredu isranbarthol gydag awdurdodau cyfansoddol isranbarth y Gogledd Orllewin yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ond nid yw'r sefyllfa o ran cyflenwi agregau yn Ail Adolygiad DTRh yn nodi unrhyw newidiadau sylweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.

---

**<u>Atodiadau</u>**

Atodiad 1: Ail Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau
Atodiad 2: Adroddiad Ymgynghori ar y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau

---

**<u>Barn y Swyddogion Statudol</u>**

**<u>Prif Swyddog Cyllid:</u>**

Mae'r awdur wedi cadarnhau nad yw'n debygol y bydd unrhyw ymhlygiadau ariannol ychwanegol i'r Cyngor o gymeradwyo'r ddogfen hon. Hynny yw, dim ymhlygiadau tu hwnt i gostau fydd yn gysylltiedig â chynnal adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2021 (sy'n ofyn statudol). Deallaf bydd raid i'r adolygiad o'r Cynllun edrych ar y rhannau sy'n berthnasol i agregau, ac ymgorffori elfennau o'r datganiad sy'n berthnasol i Wynedd.


**Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth cynhwysfawr ynglŷn â 'r broses sydd wedi ei ddilyn i gyrraedd y pwynt yma. Darperir gwybodaeth fanwl am y broses ymgynghori a'r modd yr ymdriniwyd â'r ymatebion sydd yn caniatáu i'r Cabinet ddod i gasgliad priodol. Dim sylwadau pellach i'w hychwanegu ynglŷn â phriodoldeb.

# Datganiad Technegol Rhanbarthol

## (2il Adolygiad)

## Atodiad A (Gogledd Cymru)



*Drafft ymgynghori - Medi 2019.*

Gweithgor
Agregau
Rhanbarthol
Gogledd Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CYNNWYS

**Cyflwyniad .......... 1**

**Patrymau cyflenwi presennol yng ngogledd Cymru - trosolwg rhanbarthol .......... 1**

**Dadansoddiad is-ranbarthol .......... 6**

**Crynodeb o Ffynonellau Cyflenwi Presennol yng Ngogledd Cymru .......... 14**

**Dosraniadau, Dyraniadau a Chanllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol yng ngogledd Cymru 16**

YNYS MÔN .......... 19

CONWY A PHARC CENEDLAETHOL ERYRI .......... 21

SIR DDINBYCH .......... 23

SIR Y FFLINT .......... 25

GWYNEDD .......... 27

WRECSAM .......... 29

Paratowyd ar ran Llywodraeth Cymru a Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru

*gan:* **Cuesta Consulting Limited.**

(01460) 929 905 / ffôn symudol 07952 170 180

alan.thompson@cuesta-consulting.com

# Atodiad A: Rhanbarth Gogledd Cymru - Dadansoddiad Manwl ac Argymhellion

## *Cyflwyniad*

A1. Bwriad yr atodiad hwn yw ategu prif ddogfen yr Ail Adolygiad o'r DTRh, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen honno. Mae'n darparu esboniad ychwanegol, sy'n benodol i Ranbarth Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (RAWP), sy'n ymwneud ag ystyried patrymau cyflenwi presennol, dadansoddiad manwl o ddosraniadau is-ranbarthol a gofynion ar gyfer dyraniadau newydd. Yn rhan olaf yr Atodiad, o baragraff A52 ymlaen, mae'r wybodaeth honno wedi'i hymgorffori mewn argymhellion a chanllawiau penodol ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol.

## *Patrymau cyflenwi presennol yng ngogledd Cymru - trosolwg rhanbarthol*

A2. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 3 y brif ddogfen, defnyddiwyd ffigurau gwerthu hanesyddol yn yr adolygiad hwn fel man cychwyn ar gyfer cyfrifo'r gofyniad Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer cynhyrchu agregau sylfaenol o'r tir yng Nghymru, dros y cyfnod a gwmpesir gan y Datganiad Technegol Rhanbarthol diwygiedig (h.y. 2020-2045). Ar ôl cymhwyso codiad o 30% i adlewyrchu'r cynnydd arfaethedig mewn adeiladu tai, dosrannwyd y cyfanswm uwch hwn rhwng gogledd Cymru a de Cymru ar sail eu cyfran hanesyddol ddiweddar o werthiannau. Yna pennir dosraniad is-ranbarthol y ffigurau rhanbarthol hynny drwy edrych yn ofalus ar y patrymau cyflenwi ym mhob un o'r saith is-ranbarth, a grëwyd yn benodol at y diben hwn. Amlinellir yr archwiliad hwnnw yn fyr yn y prif adroddiad ac fe'i disgrifir yn llawnach yma.

A3. Mae Ffigur A1 yn dangos sut mae ardal RAWP gogledd Cymru wedi ei rhannu'n ddau is-ranbarth. Crëwyd yr is-ranbarthau, yn ôl awgrym Llywodraeth Cymru, at y diben penodol o hwyluso cynllunio mwynau strategol a dulliau cydweithredol rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol. Maent i gyd yn cynrychioli 'ardaloedd marchnad' nodedig lle nad oes llawer o symud agregau rhyngddynt, ac eithrio allforion i Loegr, ac y gellir rhoi ystyriaeth strategol fanwl iddynt o fewn y patrymau cyflenwi mwyaf priodol. Mae edrych yn ofalus ar gydbwysedd y cyflenwad rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol ym mhob is-ranbarth yn agwedd bwysig ar hyn. Dylid nodi bod Conwy, er bod y sir yn arfer bod yn rhan o grŵp Awdurdodau Cynllunio Lleol gogledd-ddwyrain Cymru yn adroddiadau RAWP gogledd Cymru, bellach wedi ei chynnwys yn is-ranbarth gogledd-orllewin Cymru y DTRh. Gwnaed y penderfyniad i wneud y newid hwn yn dilyn trafodaeth helaeth ymhlith Grŵp Llywio DTRh a chytunwyd arno gan yr RAWP.

A4. Ar gyfer rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol, lle mae'n ymddangos bod y patrwm cyflenwi presennol eisoes yn darparu cydbwysedd synhwyrol rhwng dosraniadau gofodol y galw, argaeledd adnoddau a ffactorau eraill, mae'r dosraniadau newydd yn adlewyrchu patrwm y gwerthiannau hanesyddol yn unig (h.y. mae'r ffigurau rhanbarthol wedi eu rhannu rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gymesur â'u cyfran o werthiannau hanesyddol diweddar). Mewn ardaloedd eraill, mae'r dosraniadau newydd wedi eu haddasu - yn bennaf i ystyried dosbarthiad y gweithgarwch codi tai a gynlluniwyd, fel y dangosir yn y ffigurau gofynion tai mewn Cynlluniau Datblygu Lleol mabwysiedig - fel eu bod yn adlewyrchu cydbwysedd gofodol gwell (mwy teg, mwy cynaliadwy) rhwng y cyflenwad a'r galw. Ym mhob achos, rhoddwyd ystyriaeth hefyd, yn ansoddol o leiaf, i ffactorau fel gallu amgylcheddol, agosrwydd a rhwydweithiau trafnidiaeth. Mae adrannau diweddarach y ddogfen hon yn darparu arsylwadau manylach ynghylch yr amrywiol ffactorau hyn ym mhob un o is-ranbarthau gogledd Cymru.

A5. Dylid nodi bod y ffigurau gwerthiant hanesyddol a'r dosraniadau yn ymwneud ag agregau sylfaenol a geir o'r tir yn unig. Mae angen y deunyddiau hyn i fodloni lefelau gweddilliol y galw, unwaith y rhoddir lwfans ar gyfer cyfran 'brigdorri' y cyflenwad a geir o ffynonellau eilaidd ac wedi eu hailgylchu ac o agregau a garthwyd ar y môr. Cyfrannodd y deunyddiau hyn at y farchnad gyffredinol drwy gydol y cyfnod sylfaenol, a byddant yn parhau i wneud hynny, gan adael dim ond y galw gweddilliol i'w gyflenwi o ffynonellau sylfaenol a gafwyd o'r tir.

**Ffigur A1: v Ardaloedd Is-ranbarthol a'u Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfansoddol yng ngogledd Cymru**




A6. Nid oes unrhyw ddata monitro dibynadwy ar gynhyrchu agregau eilaidd ac wedi eu hailgylchu ar gael ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig. Mae'r Daflen Ffeithiau Cynllunio Mwynau a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar agregau, a luniwyd gan Arolwg Daearegol Prydain (BGS, 2019)[1] yn amcangyfrif bod y deunyddiau hyn bellach yn cyfateb i oddeutu 30% o'r cyflenwad cyffredinol (yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau), a bod y rhan fwyaf o'r deunydd sy'n yn addas ar gyfer defnyddio agregau (gwastraff adeiladu, dymchwel a chloddio yn bennaf - CD&EW) eisoes yn cael ei adfer a'i ddefnyddio. Mae hyn wedi bod yn wir ers tua 2005[2] a chredir bod y gyfran yn annhebygol o newid yn y dyfodol rhagweladwy. Gan ddibynnu'n agos ar gyfradd y gweithgaredd adeiladu, gellir disgwyl felly i'r tunelledd gwirioneddol godi a chwympo yn unol ag amrywiadau yng nghyfraddau cyffredinol y twf economaidd, a bydd yn cael effaith niwtral ar y galw am agregau sylfaenol, o'i gymharu â'r hyn a welwyd yn ystod y cyfnod sylfaenol (2007 i 2016). At hynny, yn achos agregau wedi eu hailgylchu, gan fod cysylltiad agos iawn rhwng codiadau CD&EW â gwaith adeiladu newydd, mae'n annhebygol y bydd eu hargaeledd yn cael unrhyw ddylanwad sylweddol ar batrymau gofodol y galw.

A7. Mae'n bosibl nad yw hynny'n wir am agregau eilaidd, sydd â dosbarthiad gofodol mwy amrywiol, gyda gwahanol fathau a meintiau gwahanol ar gael ym mhob Awdurdod Cynllunio Lleol. Unwaith eto, nid oes ffynonellau data cyfoes i ddarparu manylion pellach, ond mae arwyddion y gallai rhai o'r ffynonellau hyn fod yn dirywio o ran argaeledd, a fyddai o bosibl yn cynyddu'r galw am agregau sylfaenol yn yr ardaloedd hynny. Nodir arsylwadau pellach ar hyn, lle bo hynny'n briodol, yn yr adrannau diweddarach ar ardaloedd is-ranbarthol unigol.

## Cynhyrchu Agregau Sylfaenol a gafwyd o'r tir

A8. Dangosir y ffigurau gwerthiant hanesyddol ar gyfer yr holl agregau sylfaenol a enillwyd ar y tir ym mhob Awdurdod Cynllunio Lleol yng ngogledd Cymru (gan gynnwys cerrig mâl a thywod a

[1] https://www.bgs.ac.uk/downloads/start.cfm?id=1355

[2] https://mineralproducts.org/documents/Contribution_of_Recycled_and_Secondary_Materials_to_Total_Aggs_Supply_in_GB.pdf

gro naturiol) yn Nhabl A1, isod. Dangosir y gyfran a gyflenwir o ffynonellau cerrig mâl (ar gyfartaledd dros 10 mlynedd) yn y golofn ar y dde - mae'r balans yn dod o safleoedd tywod a gro a geir o'r tir. Mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi eu grwpio yn ôl yr is-ranbarthau a ddangosir yn Ffigur A1. Mae esboniad llawn o darddiad y data ym Mhennod 3 o'r brif ddogfen.

**Tabl A1: Cyfartaleddau Gwerthu Agregau Sylfaenol a geir o'r tir dros 10 mlynedd a 3 blynedd (hyd at 2016) ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng ngogledd Cymru.**

| **Awdurdod Cynllunio Lleol** | **Gwerthiannau Agregau Cyfartalog 10 mlynedd (cyfanswm)** (mtpa) | **Gwerthiannau Agregau Cyfartalog 3 blynedd (cyfanswm)** (mtpa) | **Gwerthiannau uchaf o'r cyfartaleddau 3 blynedd a 10 mlynedd ym mhob Awdurdod Cynllunio Lleol** (mtpa) | **Cyfran o ffynonellau creigiau mâl** |
|---|---|---|---|---|
| Sir Ddinbych | 0.329 | 0.043 | 0.329 | 100% |
| Sir y Fflint | 2.663 | 3.204 | 3.204 | 93.77% |
| Wrecsam | 0.435 | 0.514 | 0.514 | 0% |
| Conwy + Parc Cenedlaethol Eryri | 0.955 | 0.813 | 0.955 | 100% |
| Gwynedd | 0.868 | 0.898 | 0.898 | 84.56% |
| Ynys Môn | 0.236 | 0.255 | 0.255 | 100% |
| **CYFANSWM, gogledd Cymru** | | | **6.155** | **86.6%** |

FFYNHONNELL: Casglwyd gan ysgrifennydd RAWP gogledd Cymru o ddata cyfrinachol y diwydiant.

A9. Mae'r ffigurau'n dangos bod y cyflenwadau mwyaf o dywod a gro a dynnwyd o'r tir wedi bod yn Wrecsam a Sir y Fflint, a bod hyn, ar y cyfan, yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn agos a bod ganddynt fynediad da i ardaloedd y marchnadoedd mwyaf yng ngogledd-ddwyrain Cymru a rhannau cyfagos o Ogledd-orllewin Lloegr. Maent hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod adnoddau sylweddol o dywod a gro rhewlifol-afonol yn yr ardaloedd hynny - yn enwedig i'r dwyrain o Wrecsam. Er bod dyddodion tebyg yng ngogledd-orllewin Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd, mae eu lleoliad yn llai manteisiol i wasanaethu'r prif farchnadoedd ac felly mae'r cynhyrchu yn y fan honno'n fwy cyfyngedig.

A10. Yn achos agregau cerrig mâl, mae'r galw hanesyddol mwyaf hefyd wedi bod yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ac am yr un rhesymau, ond bod y rhan fwyaf o lawer o'r deunyddiau wedi'u cyflenwi o Sir y Fflint. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod adnoddau helaeth o Galchfaen Carbonifferaidd uchel eu hansawdd mewn ardaloedd cymharol ddi-gyfyngiad tua'r dwyrain o AHNE Bryniau Clwyd, yn wahanol i'r sefyllfa yn Wrecsam lle y mae'r rhan helaethaf o ddilyniant yr adnoddau hyn oddi mewn i'r AHNE. Mae meintiau sylweddol o galchfaen, gan gynnwys calchfaen pur iawn at ddibenion diwydiannol, yn cael eu hallforio o Sir y Fflint i Loegr, a defnyddir rhai ohonynt i gynhyrchu sment yn Padeswood ger yr Wyddgrug. Fodd bynnag, mae calchfaen a gynhyrchir at ddefnydd nad yw'n agregau wedi ei eithrio o'r ystadegau a roddir yn yr adroddiad hwn. Mae agregau calchfaen yn cael eu cynhyrchu mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru, yn ogystal ag agregau carreg igneaidd a llechi, yn enwedig yng Ngwynedd. Yn achos Conwy, mae'r ffigurau am gynhyrchu'n cynnwys gwerthiant o un chwarel carreg igneaidd fach sydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, er mwyn cadw cyfrinachedd.

A11. Mae mwy o sylwadau am y berthynas rhwng cynhyrchu, adnoddau, marchnadoedd a chapasiti amgylcheddol ym mhob is-ranbarth ym mharagraffau A26 *et seq.* isod.

## Agregau a Garthwyd o'r Môr

A12. Yng Ngogledd Cymru, ychydig iawn o dywod a gro a garthwyd o'r môr sy'n cael ei ddefnyddio. Mae'r ffigurau ar gyfer agregau morol wedi eu cyfuno, yn adroddiadau blynyddol RAWP, â'r rhai ar gyfer tywod a gro a geir o'r tir, ond dangosir yn adroddiad diweddaraf Arolwg AM (ar gyfer 2014) eu bod tua 30,000 tunnell y flwyddyn (ffigur sydd wedi gostwng yn raddol o 48,000 tunnell

y flwyddyn ym 1997). Mae trwyddedau carthu ar gyfer dyfroedd arfordir Gogledd Cymru yn cael eu defnyddio'n bennaf i gyflenwi Glannau Mersi, ac mae meintiau sylweddol yn cael eu glanio yn Lerpwl. Mae hyn, yn ei dro, yn gwrthbwyso'r galw am allforion i ogledd-orllewin Lloegr o adnoddau ar dir yng ngogledd Cymru.

A13. Am y tro, mae'n ymddangos ei bod yn rhesymol cymryd y bydd agregau a garthwyd o'r môr yn parhau'n gyfran fach iawn o'r cyflenwad sy'n ateb y galw cyffredinol, fel y maent wedi bod dros yr ugain mlynedd diwethaf o leiaf, felly nid yw'n debygol y bydd effaith ar y galw am agregau a dynnir o'r tir yn ardaloedd unrhyw un o'r ACMau yng Ngogledd Cymru.

## Cynhyrchu Agregau Eilaidd

A14. Agregau eilaidd yw'r sgil-gynhyrchion o wahanol brosesau diwydiannol, gan gynnwys slagiau metelegol a sgil-gynhyrchion o orsafoedd pŵer, yn ogystal â'r sgil-gynhyrchion o fathau penodol o gloddio am fwynau nad ydynt yn agregau, fel rwbel o lofeydd a gwastraff llechi, ac o ailgylchu gwydr, cerameg, plaeniadau asffalt a balast rheilffyrdd[3].

A15. Nid yw unrhyw agregau yn cael eu cynhyrchu bellach yng Ngogledd Cymru o slagiau metelegol nac o sgil-gynhyrchion o orsafoedd pŵer. Bydd meintiau bach o fwynau agregau (tywodfaen ac weithiau tywod) yn codi ar hap wrth ailweithio tomenni rwbel o hen lofeydd neu wrth gloddio am lo brig. Yng Ngogledd Cymru, mae bron y cyfan o domenni gwastraff yr hen lofeydd (yn Sir y Fflint/Wrecsam yn bennaf) wedi'u tirweddu o dan gynlluniau adfer tir neu wedi'u defnyddio fel deunydd llenwi sylfeini. Nid yw'r meintiau sydd ar gael wedi'u hasesu'n ddiweddar ond credir eu bod yn fach neu'n ansylweddol.

A16. Yng Ngogledd Cymru, mae cerrig mâl, a gafwyd o wastraff llechi (yn sgil-gynnyrch wrth gynhyrchu deunydd toi) neu drwy eu cloddio'n unswydd i'w defnyddio'n agregau crai, yn elfen bwysig yn y patrwm cyflenwi cyffredinol, yn enwedig yng Ngwynedd. Yn dibynnu ar ansawdd a nodweddion y deunydd dan sylw, fe'i defnyddir nid yn unig mewn cymwysiadau swmp-lenwi, ond hefyd fel carreg ffyrdd heb ei gorchuddio ac, yn gynyddol, fel agreg wrth gynhyrchu blociau adeiladu concrit.

A17. Mae gwastraff llechi a llechi chwareli wedi eu cynnwys yn y ffigurau cyffredinol ar gyfer cynhyrchu cerrig mâl yn adroddiadau RAWP gogledd Cymru er 2008, a thros y cyfnod llinell sylfaen 10 mlynedd (hyd at 2016), maent wedi cyfrif am 9.7% o gyfanswm cyfartalog gwerthiannau cerrig mâl. Gostyngodd y gyfran yn sydyn ar ôl 2009, o uchafbwynt o fwy nag 16% yn 2007. Er bod nifer y gwerthiannau wedi gostwng yn sydyn, i lai na hanner y lefelau a welwyd yn 2007, roedd y gostyngiad mewn cyfran gyfrannol yn llai dramatig, ac roedd hyn wedi gwella i fwy nag 11% erbyn 2016. Fodd bynnag, gan fod y ffigurau am gynhyrchu llechi wedi'u cynnwys eisoes yn yr ystadegau ar gyfer cerrig mâl, nid oes unrhyw oblygiadau yn y duedd hon ar gyfer lefel gyffredinol y galw yn y dyfodol, dim ond ar gyfer y cydbwysedd rhwng llechi a mathau eraill o gerrig mâl.

A18. Ym mis Awst 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd gynllun rheoli drafft ar gyfer ardaloedd llechi gogledd orllewin Cymru, yn ymwneud â'u nodi fel ymgeisydd yn y Deyrnas Unedig ar gyfer statws Treftadaeth y Byd UNESCO. Mae'r cynigion yn cynnwys gwaharddiadau ar chwarela mewn rhai ardaloedd ochr yn ochr â dirymu'r holl ganiatadau gwaith mwyngloddio sy'n bodoli. Yn dibynnu ar fanylion, pe bai'n cael ei weithredu, gallai hyn gael effaith sylweddol ar y galw yn y dyfodol am ffynonellau eraill o agregau creigiau mâl sylfaenol yn y rhanbarth.

A19. Mae'r gwahanol ffynonellau o agregau eilaidd a nodwyd uchod, ynghyd ag agregau eildro, a drafodir isod, wedi'u heithrio ar hyn o bryd rhag yr Ardoll Agregau, er mwyn lleihau'r defnydd o agregau crai. Pan ysgrifennwyd y ddogfen hon, roedd yr Ardoll Agregau ei hunan wrthi'n cael ei hadolygu'n gynhwysfawr gan CThEM (… update to be added in due course…)

## Agregau Eildro

A20. Mae agregau sydd wedi eu cynhyrchu drwy wastraff adeiladu, dymchwel a chloddio (GADaCh) yn bwysig o ran eu cyfraniad at ddefnydd cyffredinol o agregau adeiladu. Yn y DTRhau a gyhoeddwyd yn 2008, pennwyd mai cyfanswm y cynnyrch yng Nghymru gyfan oedd 3.97mt, ar sail data o arolygon 2005, ac awgrymwyd bod rhaniad o tua 3 i 1 rhwng De Cymru a Gogledd

[3] Gellid ystyried ei bod yn fwy rhesymegol cynnwys y sylweddau â deunydd eildro eraill sydd wedi eu cynhyrchu o wastraff adeiladu, dymchwel a chloddio (GADaCh). Fodd bynnag, mae cwmpas y diffiniad o GADaCh wedi'i bennu'n fanwl eisoes ar gyfer ffurflenni arolwg, felly mae'r eitemau hynny wedi'u cynnwys yma fel agregau eilaidd.

Cymru, ar sail arolygon cynharach a chymarebau poblogaeth. Nodwyd hefyd, er nad oedd manylion am feintiau ar gael, ei bod yn anorfod y bydd y meintiau a'r defnydd mwyaf o sgil-gynhyrchion GADaCh mewn ardaloedd trefol. Er hynny, pwysleisiwyd yn nogfennau'r DTRhau fod angen bod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio'r holl ystadegau am y sector hwn, oherwydd y gyfradd ymateb isel i'r arolygon.

A21. Nid yw'r sefyllfa o ran y data sydd ar gael wedi gwella ers cyhoeddi'r DTRhau gwreiddiol. Nid yw unrhyw ddata newydd ar gael o arolygon, felly mae unrhyw sylwadau am dueddiadau diweddar a rhai yn y dyfodol yn rhai bras yn unig. Os rhywbeth, mae'n debygol bod yr ailgylchu ar ddeunyddiau'n fwy effeithlon, ac mae'n bosibl bod cyflwyno 'Protocol Ansawdd' (2005) Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau ar gyfer cynhyrchu agregau o wastraff anadweithiol wedi cynyddu'r gyfran a'r defnydd o gynhyrchion o werth uwch a gafwyd o'r gwahanol ffynonellau o ddeunyddiau eildro. Fodd bynnag, nid yw gwelliannau o'r fath ond yn ychwanegiad bach at y cynnydd a gafwyd cyn hynny - yn bennaf o ganlyniad i'r manteision o ran pris yn sgil y dreth tirlenwi ac, i lai o raddau, yr ardoll agregau. Barn y Gymdeithas Cynhyrchion Mwyngloddio o hyd, nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn anghytuno ag ef, yw nad oes fawr o gyfle i gael cynnydd sylweddol pellach yng nghyfran yr agregau adeiladu sy'n debygol o ddeillio o'r sector hwn. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'n debygol bod cysylltiad anorfod rhwng maint yr agregau eildro a fydd ar gael yn y dyfodol a chyfraddau cyffredinol y gweithgarwch adeiladu a thwf economaidd, felly y rhagdybiaeth fwyaf dibynadwy yw y bydd yn cynyddu ac yn lleihau mewn modd tebyg iawn i'r galw cyffredinol, ac felly y bydd yn cael effaith niwtral ar y galw am agregau crai, o'i gymharu â'r cyfnod sylfaen (2007 i 2016).

## Mewnforio ac allforio

A22. Mae Cymru bob amser wedi allforio mwy o agregau a dynnwyd o'r tir nag y mae wedi'i fewnforio. Mae data am fewnforion ac allforion yn cael eu cofnodi yn yr Arolygon Mwynau Agregau (MA) a gynhelir yn achlysurol, ac mae crynodeb o'r data am allforion o'r pedwar arolwg diwethaf yn Nhabl A2 isod.

**Tabl A2: Crynodeb o'r prif ystadegau am allforion o Ogledd Cymru o arolygon MA diweddar**

| *Sylwer: nid yw gwerthiant at ddefnydd heblaw agregau wedi'i gynnwys mewn unrhyw ffigurau* | **MA2001** (mt) | **MA2005** (mt) | **MA2009** (mt) | **AM2014** (mt) |
|---|---|---|---|---|
| (data o Dabl 4k yn yr adroddiadau AM) | | | | |
| Gwerthiant Tywod a Gro a dynnwyd o'r tir | 1.342 | 1.192 | 0.589 | 0.897 |
| Allforion Tywod a Gro* | 0.544 | 0.508 | 0.128 | 0.158 |
| **Y ganran o gyfanswm Tywod a Gro sy'n allforion** | **41%** | **43%** | **22%** | **18%** |
| Gwerthiant Calchfaen | 6.062 | 4.641 | 2.636 | 3.508 |
| Allforion Calchfaen* | 3.344 | 2.973 | 1.116 | 2.226 |
| **Y ganran o gyfanswm Calchfaen sy'n allforion** | **55%** | **64%** | **42%** | **64%** |
| Gwerthiant Carreg Igneaidd | 1.136 | 1.022 | 0.610 | 0.660 |
| Allforion Carreg Igneaidd* | 0.091 | 0.277 | 0.064 | 0.054 |
| **Y ganran o gyfanswm Carreg Igneaidd sy'n allforion** | **8%** | **27%** | **10%** | **8%** |
| Gwerthiant Tywodfaen | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Allforion Tywodfaen* | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Y ganran o gyfanswm Tywodfaen sy'n allforion** | **0%** | **0%** | **0%** | **0%** |
| Cyfanswm y Gwerthiant o Gerrig Mâl** | 7.198 | 5.663 | 3.245 | 4.168 |
| Cyfanswm yr Allforion o Gerrig Mâl* | 3.436 | 3.251 | 1.178 | 2.280 |
| **Allforion cerrig mâl gogledd Cymru fel canran o gyfanswm cerrig mâl** | **48%** | **57%** | **36%** | **55%** |

* Mae 'allforion' i Loegr yn bennaf ond maent yn cynnwys rhywfaint o symud rhwng de Cymru a gogledd Cymru.
** Yn wahanol i'r ffigurau a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r Adolygiad hwn, **nid** yw gwerthiannau creigiau mâl yn yr adroddiadau AM yn cynnwys **llechi**

A23. Yng ngogledd Cymru, y prif allforion o agregau, o bell ffordd, yw Calchfaen Garbonifferaidd a gyflenwyd i ogledd-orllewin Lloegr yn bennaf. Daw'r rhan fwyaf o'r allforion hyn o is-ranbarth

gogledd-ddwyrain Cymru (o Sir y Fflint gan mwyaf) a meintiau llai o ogledd-orllewin Cymru (Conwy yn enwedig). Mae ffigurau'r Arolwg AM yn gyffredinol yn dangos, wrth i werthiannau calchfaen (ac yn gyffredinol) ostwng yn ystod y dirwasgiad diweddar, gostyngodd cyfran (yn ogystal â chyfansymiau) allforion hefyd, ond bod y ddau wedi gwella'n sylweddol ers hynny. Mae hyn yn awgrymu, yn achos agregau calchfaen at ddibenion cyffredinol, fod rhanbarthau sy'n mewnforio yn llai dibynnol, yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad, ar gyflenwadau o ffynonellau pell, fel y byddid yn disgwyl. Ond mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd: wrth i'r economi ymadfer ar ôl y dirwasgiad, mae'r galw am allforion o ogledd Cymru wedi dechrau cynyddu eto, a hynny'n gyflymach na chyfradd gyffredinol y twf economaidd. Fodd bynnag, ni ellir bod yn sicr a fydd yn cyrraedd neu'n rhagori ar lefelau'r galw cyn y dirwasgiad yn y pen draw: bydd hyn yn dibynnu, i raddau helaeth, ar lefel y twf economaidd a'r gweithgarwch adeiladu yng ngogledd-orllewin Lloegr yn y dyfodol.

A24. Mae mewnforion o agregau a dynnwyd o'r tir yn fach iawn o'u cymharu ag allforion. Yng ngogledd Cymru yn 2014 (ar sail Tabl 5k adroddiad arolwg AM 2014), y mewnforion o agregau a dynnwyd o'r tir oedd 0.023mt o dywod a gro (o ogledd-orllewin Lloegr yn bennaf) a 0.128mt o gerrig mâl, sef craig igneaidd o dde Cymru yn bennaf. Mae'r rhain yn cymharu â mewnforion o 0.03mt o dywod a gro a dynnir o'r tir a 0.653mt o gerrig mâl yn yr arolwg blaenorol (AM 2009). Mae'r gostyngiad mewn mewnforion cerrig mâl o dde Cymru wedi bod yn eithaf sylweddol.

A25. Ni fydd mewnforion ac allforion o dywod a gro morol rhwng Cymru a Lloegr yn berthnasol i'r ymarfer dosrannu yn y DTRh oni bai eu bod yn effeithio ar barhad y cyflenwad o'r deunyddiau hyn i Gymru ac felly'n creu mwy o alw am adnoddau ar dir. Mae hyn o bosibl yn broblem yn ne ddwyrain Cymru (gweler Atodiad B) ond nid yng ngogledd Cymru, lle mae'r meintiau dan sylw yn gymharol fach. Ym Mae Lerpwl, yr unig ardal drwydded yn nyfroedd Cymru sy'n parhau i fod yn allforiwr net i farchnadoedd gogledd-orllewin Lloegr.

## *Dadansoddiad is-ranbarthol*

A26. Yn yr Adolygiad cyntaf, cynhaliwyd y dadansoddiad o batrymau cyflenwad a galw ar gyfer gogledd Cymru ar gyfer y rhanbarth cyfan. Yn yr adolygiad hwn, fel yr eglurwyd yn gynharach ac fel y dangosir yn Ffigur A1, uchod, mae'n seiliedig ar ddau is-ranbarth ar wahân, a bwriedir i bob un amcangyfrif ardal farchnad gymharol 'hunangynhwysol' ar gyfer cynhyrchu a gwerthu agregau, heb fawr o symud agregau rhwng ardaloedd cyfagos, ac eithrio allforion i Loegr.

A27. Mae mapiau ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn yn Ffigurau A2 i A5, isod. Mae tri map ar gyfer pob is-ranbarth. Mae'r un cyntaf yn dangos dosbarthiad adnoddau cyfanredol a chwareli presennol. Mae'r ail fap, ar raddfa lai, yn delio â materion 'agosrwydd' (h.y. y berthynas rhwng adnoddau, lleoliadau chwareli, prifffyrdd a dosbarthiad y gofyniad tai a gynlluniwyd ym mhob Awdurdod Cynllunio Lleol ac ardaloedd trefol presennol). Defnyddir gofynion tai wedi eu cynllunio yn hytrach na'r mapiau dwysedd poblogaeth a ddefnyddiwyd yn yr Adolygiad Cyntaf, er bod y ddau ddosbarthiad i'w dangos, er cymhariaeth, yn Ffigurau 4.7 a 4.8 y brif ddogfen. Yna mae'r trydydd map ar gyfer pob is-ranbarth yn delio â materion capasiti amgylcheddol, gan ddefnyddio allbwn o ddadansoddiad cynharach IMAECA (Enviros, 2005). Cyflwynir y mapiau ar raddfeydd ychydig yn wahanol (fel y nodir ym mhob achos gan y bar graddfa 30km).

A28. Rhaid pwysleisio bod y mapiau hyn yn dangos adnoddau yn unig ac nid cronfeydd wrth gefn â chaniatâd. **Adnoddau** yw deunyddiau daearegol, gan gynnwys cerrig a thywod a gro sy'n digwydd yn naturiol, y gellir eu defnyddio at ddiben penodol (yn agregau adeiladu, yn yr achos hwn). **Cronfeydd a ganiateir** yw'r rhannau hynny o'r adnoddau yr ydym yn gwybod eu bod yn addas at y diben hwn (o ganlyniad fel arfer i ymchwiliadau manwl ar dir a phrofion mewn labordai) ac y cafwyd caniatâd cynllunio dilys ar eu cyfer i dynnu a chloddio'r deunyddiau dan sylw. Ni ddangosir amlinelliadau o'r cronfeydd wrth gefn â chaniatâd ar y mapiau.

A29. Dangosir yr adnoddau mewn sawl prif gategori. Gall **adnoddau tywod a gro** naturiol, fel y'u mapiwyd gan Arolwg Daearegol Prydain (BGS) fod yn gysylltiedig â phum math gwahanol o ddyddodion 'arwynebol', fel y dangosir ar yr allwedd i bob map, er bod maint y mwynau ymarferol yn y dyddodion hyn yn amrywiol iawn. Mae'r mapiau ar gyfer gogledd-orllewin Cymru yn dangos categori ychwanegol o flociau adnoddau tywod a gro (a ddangosir mewn lliw coch dwfn) a nodwyd mewn astudiaeth fanylach ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol gan Brifysgol Lerpwl ac Enviros (2003).

A30. Mae **adnoddau cerrig mâl** yn yr ardal yn cynnwys Calchfeini Carbonifferaidd (sydd wedi eu hisrannu, ar y mapiau mwy, yn burdeb uchel (> 97% $CaCO_3$) a chalchfeini eraill); creigiau igneaidd (gan gynnwys doleritau HSA, sy'n cael eu gwahaniaethu ar y mapiau mwy); a llechi. Dangosir nifer o frigiadau bach o Dywodfaen HSA hefyd, er na weithiwyd yr un o'r rhain yn ystod y degawdau diwethaf.

A31. Mae'r chwareli a ddangosir ar y mapiau yn cael eu categoreiddio yn yr un modd â'r adnoddau. Maent yn cynnwys unedau gweithredol ac anweithredol (yn 2018), gyda'r olaf o'r rhain yn cynnwys nifer fach o safleoedd segur. Rhoddir rhestrau ar wahân o'r holl safleoedd gweithredol, anactif a segur yng ngogledd Cymru yn Nhablau A3, A4 ac A5, yn y drefn honno.

### Is-ranbarth gogledd ddwyrain Cymru

A32. Mae Ffigur A2, isod, yn dangos dosbarthiad chwareli ac adnoddau cyfanredol ar y tir yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gan ymgorffori Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r adnoddau cerrig mâl yma'n cynnwys:

- **Calchfaen Carbonifferaidd**, a weithir ar hyn o bryd yn chwareli Aberdo, Helygain, Pant, Hendre a Chefn Mawr yn Sir y Fflint, ac yn Chwarel Dinbych yn Sir Ddinbych;
- **Llechi Silwraidd**, a weithir ar hyn o bryd, ar raddfa fach, yn Chwarel Llechi Berwyn ac o domenni gwastraff llechi yn Chwarel Moel-y-Faen - y ddau yn Sir Ddinbych;
- **Creigiau igneaidd Ordofigaidd**, sef twffiau folcanig yn bennaf yn ne Sir Ddinbych a rhannau cyfagos o Wrecsam. Nid yw'r un o'r rhain yn cael ei weithio ar hyn o bryd;

A33. Yn ogystal, mae dyddodion tywod a gro afonol-rewlifol helaeth, yn bennaf yn Wrecsam (lle maent yn cael eu gweithio yn chwarel Borras ac, yn ysbeidiol, yn chwarel Ballswood) ond hefyd yn Sir y Fflint (lle maent yn cael eu gweithio ar hyn o bryd, ar raddfa lai, ym mhyllau gro Maes Mynan a Fron Haul) ac mewn rhannau o Sir Ddinbych. Mae yna hefyd ddyddodion mapio eithaf helaeth o **dywod a gro Is-lifwaddodol a Theras yr Afon**, er nad yw'r rhain yn cael eu hecsbloetio'n fasnachol.

A34. Mae Ffigur A3 yn dangos perthynas y chwareli a'r adnoddau hyn â materion sy'n ymwneud â phatrwm y galw tebygol (fel y dangosir gan agosrwydd at ardaloedd trefol presennol, gofynion tai wedi eu cynllunio a'r rhwydwaith ffyrdd sylfaenol); a materion yn ymwneud â chynhwysedd amgylcheddol.


A35. Calchfaen Carbonifferaidd yw prif ffynhonnell cynhyrchu cerrig mâl yn yr is-ranbarth o bell ffordd. Mae'r adnoddau'n eang ond fe'u gweithir yn Sir y Fflint yn bennaf oherwydd, yn yr ardal hon, maent mewn sefyllfa dda o ran agosrwydd at y prif ganolfannau galw, gan gynnwys allforion i Gaer, Glannau Mersi a rhannau eraill o ogledd-orllewin Lloegr. Yn hyn o beth, mae agosrwydd at ffordd A55 arfordir gogledd Cymru yn ffactor o bwys. Nodweddir adnoddau heb eu gweithio yn agos at y chwareli hyn gan gapasiti amgylcheddol isel ar y cyfan, ond mae rhai o'r adnoddau ymhellach i'r gogledd, yn Sir y Fflint, ac mewn rhannau o Sir Ddinbych, mewn sefyllfa well yn hynny o beth. Er bod yr ardaloedd hynny yn llai delfrydol o ran agosrwydd at farchnadoedd mawr a llwybrau trafnidiaeth, gallent chwarae rôl bwysig wrth ategu cyflenwadau yn y dyfodol o'r prif ardaloedd chwarela, yn ogystal â chyflenwi ardaloedd trefol a phrosiectau seilwaith ar hyd arfordir gogledd Cymru. Mae rhan ddeheuol y brigiad Calchfaen Carbonifferaidd yn Sir y Fflint, a bron pob un o'r brigiadau yn Wrecsam, wedi eu cyfyngu'n fawr gan eu lleoliad yn AHNE Bryniau Clwyd.

A36. Mae'r unig ddau waith llechi gweithredol yn yr is-ranbarth hefyd wedi eu lleoli yn rhan ddeheuol yr ardal honno, ond deellir mai dim ond ychydig o ddeunydd cyfanredol (neu ddim deunydd o gwbl) maent yn ei gynhyrchu heblaw am naddion addurniadol.


A37. At ei gilydd, prin yw'r cyfiawnhad dros newid y patrwm cyflenwi presennol o gerrig mâl yn yr is-ranbarth, ac eithrio annog cynnydd yn y gyfran a gyflenwir o Sir Ddinbych. Mae hyn yn cydnabod gwarged y cronfeydd wrth gefn â chaniatâd presennol yn y sir honno, y gellir eu defnyddio i wneud iawn am rywfaint o'r diffyg mawr iawn o gronfeydd wrth gefn a ragamcanir yn Sir y Fflint gyfagos. Cyflawnwyd hyn drwy addasu'r dosraniadau a roddwyd i bob Awdurdod Cynllunio Lleol fel yr eglurir yn Nhabl 5.2 y prif adroddiad. Hyd yn oed gyda'r addasiad hwnnw, mae Sir y Fflint yn wynebu'r angen i wneud dyraniadau newydd ar gyfer cynhyrchu Calchfaen Carbonifferaidd, sy'n gyfanswm o 35.928 miliwn o dunelli o leiaf (Tabl 5.6 yn y brif ddogfen).

A38. Yn yr adolygiad blaenorol (Cyntaf) o'r DTRh, roedd y dosraniad cerrig mâl ar gyfer Sir y Fflint wedi cynyddu, gyda gostyngiad cyfatebol yn y rhai ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn, er mwyn annog newid tua'r dwyrain mewn cynhyrchu cerrig mâl yn y dyfodol. Bwriad hyn oedd adlewyrchu dosbarthiad disgwyliedig y galw yn well. Yn ymarferol, er bod lefel y cynhyrchu yn Ynys Môn yn y blynyddoedd dilynol wedi bod yn agos at (yn llai na) y dosraniad blaenorol, mae gwerthiannau yng Ngwynedd wedi bod yn llawer uwch, gan awgrymu bod galw cyfatebol yng ngogledd-orllewin Cymru, y mae angen i gyflenwadau gael eu cynnal er mwyn ateb y galw. Felly daethpwyd â'r syniad o symud cynhyrchu o Wynedd i Sir y Fflint i ben.

**Ffigur A2: v Adnoddau Agregau a Chwareli yn Is-ranbarth gogledd-ddwyrain Cymru**



**Ffigur A3: v Adnoddau Agregau, Chwareli, Gofynion Tai wedi eu Cynllunio a Chynhwysedd Amgylcheddol yn Is-ranbarth gogledd-ddwyrain Cymru**



A39. Y brif elfen yn y patrwm cyflenwi presennol ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir yw un safle yn Wrecsam, er bod tri phwll arall gweithredol (neu weithredol yn rhannol) yn cyfrannu meintiau llai: un arall yn Wrecsam, a dau yn Sir y Fflint. Er bod y safleoedd yn Wrecsam mewn lleoliad delfrydol mewn perthynas â'r marchnadoedd yn Sir y Fflint, Wrecsam a rhannau cyfagos o ogledd-orllewin Lloegr, maent yn llawer pellach oddi wrth y marchnadoedd lleol pwysig, ond llai, ar hyd arfordir gogledd Cymru (yn Sir Ddinbych a Chonwy gerllaw). Felly, o ran egwyddor agosrwydd, mae angen cynnal cyflenwadau digonol i'r ardaloedd hynny o'r safleoedd, ac adnoddau yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Er bod rhai adnoddau wedi eu mapio yn bodoli yng Nghonwy, mae'r pyllau gro gweithredol eraill agosaf yn llawer pellach i'r gorllewin yng Ngwynedd. Fel y dangosir yn Nhabl 5.4 y brif ddogfen, mae diffyg sylweddol o gronfeydd wrth gefn â chaniatâd o dywod a gro yn Sir y Fflint, a banc tir (ar ddiwedd 2016) o ddim ond 6.1 mlynedd. Mae hyn yn is na'r isafswm o 7 mlynedd o ofyniad a nodir yn MTAN 1 ac mae'n tynnu sylw at angen brys i ryddhau rhagor o gronfeydd wrth gefn â chaniatâd. Mae diffyg hefyd yn Wrecsam, ond yn yr achos hwnnw roedd y banc tir (yn 2016) yn 19.6 blynedd. Serch hynny, mae angen dyraniad pellach yn yr ardal honno, er mwyn cwrdd â gofynion y DTRh.

## Is-ranbarth gogledd orllewin Cymru


A40. Mae Ffigur A4 yn dangos dosbarthiad chwareli ac adnoddau agregu ar y tir yn is-ranbarth gogledd-orllewin Cymru, gan ymgorffori Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri. Yn yr ardaloedd hyn, mae'r adnoddau cerrig mâl yn cynnwys:

- **Calchfaen Carbonifferaidd**, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gweithio mewn dwy chwarel yng ngogledd Conwy (Raynes ac Abergele), a thair uned ar Ynys Môn (Aber, Nant Newydd a Rhuddlan Bach);
- Amrywiaeth eang o **adnoddau creigiau igneaidd**, gan gynnwys Gwenithfaen Cyn-Gambriaidd Coedana Ynys Môn (a weithiwyd yn chwareli Gwalchmai, Gwyndy a Gaerwen); Gwenithfaen o oedran anhysbys (yn cael ei gweithio yn Chwarel Trefor ar arfordir gogleddol Penrhyn Llŷn ar hyn o bryd); Diorit Ordofigaidd (sy'n cael ei gweithio yn chwarel Penmaenmawr ar arfordir Conwy); Dolerit HSA Ordofigaidd (sy'n cael ei gweithio ym Minffordd yng Ngwynedd); a chreigiau igneaidd Ordofigaidd eraill yn Chwarel Nanhoron ar Benrhyn Llŷn; a
- Llechi Cambriaidd ac Ordofigaidd, sy'n cael eu gweithio ar hyn o bryd naill ai fel agregau naturiol neu o wastraff llechi a daflwyd yn flaenorol mewn nifer o safleoedd yng Ngwynedd ac mewn dau safle ym Mharc Cenedlaethol Eryri.


A41. Yn ogystal, mae **dyddodion tywod a graean rhewlifol-afonol** yn bennaf yng ngogledd Gwynedd ac, yn arbennig, ar draws Penrhyn Llŷn. Yn ychwanegol at y dyddodion a fapiwyd gan BGS, mae'r rhain yn cynnwys nifer o flociau adnoddau posibl a nodwyd yn fanylach gan Brifysgol Lerpwl ac Enviros (2003) mewn astudiaeth ar gyfer Cynulliad Cymru. Ar hyn o bryd, dim ond ar ddau safle yng Ngwynedd (Penygroes a Fferm Cefn Graianog) y gweithir tywod a gro, tra bod tywod (yn unig) yn cael ei weithio yn Chwarel Bryncir. Mae dyddodion tywod a gro ychwanegol, ond cymharol fach, yn cael eu mapio gan BGS fel dyddodion rhewlifol, is-lifwaddodol, teras afon a thywod wedi ei chwythu, er nad yw'r un o'r rhain yn cael eu gweithio ar hyn o bryd.

A42. Mae Ffigur A5 yn dangos perthynas yr amrywiol adnoddau a chwareli â materion sy'n ymwneud â phatrwm y galw tebygol (fel y dangosir gan agosrwydd at ardaloedd trefol presennol, gofynion tai wedi eu cynllunio a'r rhwydwaith ffyrdd sylfaenol); a materion yn ymwneud â chynhwysedd amgylcheddol. Trafodir pob un o'r ffactorau hyn isod mewn perthynas â phob math o adnodd.

**Ffigur A4: v Adnoddau Agregau a Chwareli yn Is-ranbarth gogledd-orllewin Cymru**



**Ffigur A5: v Adnoddau Agregau, Chwareli, Gofynion Tai wedi eu Cynllunio a Chynhwysedd Amgylcheddol yn Is-ranbarth gogledd-orllewin Cymru**



A43. Mae adnoddau Calchfaen Carbonifferaidd yng ngogledd-orllewin Cymru wedi eu cyfyngu i ran ogleddol Conwy, Ynys Môn ac un ardal (nad yw'n cael ei gweithio ar hyn o bryd) ar ochr Gwynedd o’r Fenai, i'r de-orllewin o Fangor. Er bod rhai o'r brigiadau hyn yn cyd-daro ag ardaloedd â chynhwysedd amgylcheddol cymharol isel, neu wedi eu cyfyngu gan Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae eraill (gan gynnwys y rhai o amgylch Chwarel Abergele ac ardaloedd llai yn Ynys Môn) yn cynnwys capasiti amgylcheddol cymharol uchel ac felly gallant gynnig cyfle ar gyfer datblygu adnoddau yn y dyfodol. Mae'r ddwy chwarel yng Nghonwy yn cael eu gweithredu gan gynhyrchwyr agregau mawr ac yn gwasanaethu ardaloedd marchnad eang ar hyd arfordir gogledd Cymru. O ran agosrwydd at ardaloedd trefol a chysylltiadau trafnidiaeth, maent ill dau mewn sefyllfa dda, er eu bod yn agos at derfynau hyfywedd allforion ar hyd y ffyrdd i Loegr. Mae Chwarel Raynes hefyd yn allforio llawer iawn o galchfaen i ogledd-orllewin Lloegr, ac mewn mannau eraill, drwy lanfa bwrpasol. Mewn cymhariaeth, mae'r tair chwarel galchfaen yn Ynys Môn yn cael eu gweithredu gan gwmnïau bach lleol a rhagdybir eu bod yn gwasanaethu marchnadoedd lleol yn unig.

A44. Mae gan yr adnoddau ‘creigiau igneaidd’, fel y dangosir ar fapiau BGS, sy’n cwmpasu mathau o greigiau igneaidd a metamorffig, oll addasrwydd tebyg i’w defnyddio fel agregau creigiau caled at ddbenion cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cael eu defnyddio yn lle calchfaen yn y mwyafrif o gymwysiadau adeiladu. Fodd bynnag, ym mhob rhan o'r is-ranbarth, bron, mae'r adnoddau creigiau igneaidd naill ai'n destun cyfyngiadau tirwedd Cenedlaethol (Parc Cenedlaethol neu AHNE) neu'n dod o fewn ardaloedd â chynhwysedd amgylcheddol cymharol isel. Y prif eithriadau yw llawer o frigiad Gwenithfaen Coedana yng nghanol Ynys Môn a rhai o'r brigiadau igneaidd yn ochr ddwyreiniol Penrhyn Llŷn. Mewn rhai ardaloedd (sydd wedi’u dangos â’r geiriad ‘HSA Dolerite’ ar y mapiau), mae’r cerrig o bosibl yn addas i’w defnyddio fel Agregau Manyleb Uchel ar gyfer deunyddiau wyneb ffyrdd (sydd wedi eu diffinio ym Mhennod 4 o’r brif ddogfen) ac maent yn cael eu cloddio at ddefnydd o’r fath yn chwarel Minffordd ger Porthmadog yng Ngwynedd. Ar hyn o bryd, hon yw’r unig uned yn y grŵp hwn sy’n allforio agregau i Loegr. Cyn hyn, roedd chwarel dïorit Penmaen-mawr ar arfordir gogleddol Conwy yn allforio balast rheilffyrdd i Loegr, ar reilffyrdd, ond mae llai o lawer o falast yn cael ei gynhyrchu yno er 2008, pan gollwyd contract ar gyfer cyflenwi Network Rail. Mae'r ddwy uned hon y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ond maent o fewn ardaloedd â chynhwysedd amgylcheddol isel. Mae’r holl chwareli igneaidd eraill yn yr is-ranbarth hwn yn tueddu i gyflenwi marchnadoedd lleol, er bod y rhain wedi cynnwys contractau mawr yn y cyfnod diweddar, er enghraifft, ar gyfer uwchraddio ffordd Arfordir Gogledd Cymru yr A55 a ffordd yr A5 ar draws Ynys Môn.

A45. Mae adnoddau llechi, gan gynnwys deunydd crai a chwarelwyd yn benodol at y diben, a deunydd sy'n deillio o brosesu gwastraff llechi a daflwyd yn y gorffennol, yn ffynhonnell bwysig o agregau adeiladu yng ngogledd-orllewin Cymru. Er bod deunyddiau o wastraff llechi yn cael eu dosbarthu'n dechnegol fel agregau eilaidd, ac er bod pob math o lechi wedi eu heithrio o'r Ardoll Agregau ar hyn o bryd, yn draddodiadol mae llechi a ddefnyddir fel agregau adeiladu wedi cael eu cyfrif fel agregau sylfaenol yn adroddiadau RAWP gogledd Cymru. Mae bron yr holl adnoddau llechi yn yr is-ranbarth wedi eu lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, er mai dim ond dau safle gweithredol - sy'n hen domenni gwastraff gweithredol - sydd yn y Parc. Daw mwyafrif y cynhyrchiad agregau llechi parhaus o safleoedd sydd yn union y tu allan i ffiniau'r Parc Cenedlaethol, er bod y mwyafrif (ond nid pob un) o'r rhain o fewn ardaloedd sydd wedi eu mapio fel rhai sydd â chynhwysedd amgylcheddol cymharol isel.

A46. Gan fod y rhan fwyaf o’r agregau llechi’n cael ei defnyddio’n lleol yng ngogledd-orllewin Cymru, a bod y rhan fwyaf o’r adnoddau wedi’i chyfyngu gan y Parc Cenedlaethol, nid oes fawr ddim sy’n awgrymu bod angen newid y patrwm cyflenwi presennol na’i bod yn bosibl gwneud hynny. Mae cyfle i gynyddu’r cynnyrch o safleoedd sefydledig yng Ngwynedd, mewn ymateb i unrhyw gynnydd a geir yn y galw yn y dyfodol yn is-ranbarth Gogledd-orllewin Cymru, ond nid yw’n debygol y bydd y cynnyrch hwn yn disodli agregau calchfaen sy’n cael eu gwerthu i’r prif farchnadoedd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr. Gallai hynny ddigwydd i ryw raddau, pe byddai cynnydd mawr yn yr Ardoll Agregau, gan roi mantais ychwanegol o ran pris i agregau llechi, ond gallai’r gwrthwyneb ddigwydd pe byddai’r Ardoll Agregau yn cael ei diddymu, yn unol â’r her gyfreithiol ddiweddar gan Gymdeithas Agregau Prydain. Yn ogystal â hyn, byddai angen cydbwyso unrhyw fanteision posibl o ran cynaliadwyedd o ddefnyddio mwy o wastraff llechi yn erbyn y pellteroedd cludo mwy o safleoedd yng Ngwynedd, a fyddai’n groes i egwyddor agosrwydd. Fodd bynnag, ni fyddai llechi yn gallu cymryd lle pob math arall o agregau cerrig mâl, yn enwedig deunyddiau wyneb y ffyrdd, a chymwysiadau lle mae angen cryfder mâl uchel.

A47. Ar y cyfan, ymddengys nad oes llawer o gyfleoedd ac ychydig, os o gwbl, o gyfiawnhad dros newid patrwm gofodol cynhyrchu cerrig mâl yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r marchnadoedd a'r adnoddau sydd ar gael wedi eu gwasgaru'n eang ac, ar hyn o bryd, mae digon o gronfeydd wrth gefn â chaniatâd i ddarparu ar gyfer gofynion DTRh dros y 25 mlynedd nesaf.

A48. Yn achos echdynnu tywod a gro o'r tir, mae'r patrwm cyflenwi cyfredol wedi ei gyfyngu i ddim ond tri safle yng Ngwynedd (dau safle tywod a gro gweithredol ac un yn cyflenwi tywod yn unig). Fel y dangosir yn Nhabl 5.4 y brif ddogfen, mae Gwynedd (ac gogledd-orllewin Cymru gyfan yn sgil hynny) bellach yn wynebu diffyg cronfeydd wrth gefn â chaniatâd, o'i gymharu â gofynion Ail Adolygiad DTRh, gyda banc tir presennol (2016) o 6.7 mlynedd yn unig. Mae hyn yn is na'r lefel isaf sy'n ofynnol gan MTAN 1 ac mae'n tynnu sylw at ofyniad brys i roi caniatâd cynllunio pellach. Fel y nodwyd yn gynharach, mae ardaloedd helaeth o adnoddau tywod a gro posibl yng Ngwynedd, i'r dwyrain ac i'r de o Gaernarfon, ac i'r gorllewin o Bwllheli, o fewn blociau adnoddau a nodwyd gan astudiaeth Prifysgol Lerpwl (2003). Un gofyniad pwysig, fodd bynnag, yw sicrhau bod yr adnoddau'n darparu cydbwysedd priodol rhwng agregau mân (tywod) ac agregau bras (gro).

## *Crynodeb o Ffynonellau Cyflenwi Presennol yng Ngogledd Cymru*

A49. Yn Nhablau A3 i A5 isod, mae rhestrau o'r chwareli agregau presennol sy'n weithredol, yn anweithredol ac yn segur (fel bo'n briodol) ym mhob un o is-ranbarthau gogledd Cymru, wedi eu diweddaru hyd fis Awst 2018. Nid yw'r rhestrau'n cynnwys chwareli sydd wedi'u neilltuo at gynhyrchu sment, cerrig adeiladu, tywod silica, siâl neu gynhyrchion eraill nad ydynt yn agregau.

**Tabl A3: Chwareli Agregau Gweithredol yng Ngogledd Cymru (2018)**

| Enw'r Chwarel | Gweithredwr | Nwyddau | Dwyreiniad | Gogleddiad |
|---|---|---|---|---|
| **SIR DDINBYCH** | | | | |
| Berwyn | Berwyn Slate Quarry Cyf | Llechi | 318500 | 346300 |
| Denbigh | Breedon Southern | Calchfaen | 305090 | 367050 |
| Moel y Faen | Jones Bros Rhuthun | Llechi | 318700 | 348100 |
| **SIR Y FFLINT** | | | | |
| Aberdo | CCP Building Products Ltd | Calchfaen | 318700 | 373300 |
| Fron Haul | Breedon Southern | Tywod a Gro | 315700 | 370600 |
| Halkyn | CEMEX UK | Calchfaen | 319000 | 372000 |
| Hendre | Tarmac | Calchfaen | 319400 | 368000 |
| Maes Mynan | Breedon Southern | Tywod a Gro | 311500 | 372100 |
| Pant | Tarmac | Calchfaen | 319800 | 370200 |
| **WRECSAM** | | | | |
| Ballswood | DP Williams Cyf | Tywod a Gro | 335200 | 356600 |
| Borras | Breedon Group | Tywod a Gro | 336300 | 352500 |
| **CONWY** | | | | |
| Abergele | Hanson Aggregates | Calchfaen | 296700 | 375800 |
| Penmaenmawr | Hanson Aggregates | Carreg Igneaidd | 270135 | 375515 |
| Raynes | CEMEX UK | Calchfaen | 289000 | 378190 |
| **ERYRI** | | | | |
| Braich Ddu | John Roberts | Gwastraff Llechi | 271985 | 338460 |
| Craig y Tan | G E Williams | Carreg Igneaidd | 271349 | 336224 |
| Ty'n-y-Coed | R. Meredith, Arthog Slate Co | Gwastraff Llechi | 265030 | 315275 |
| **GWYNEDD** | | | | |
| Tomen lechi Aberllefenni | R. Meredith, Arthog Slate Co | Gwastraff Llechi | 276920 | 310290 |
| Alexandra | Caernarfon Crown Slate | Llechi + Gwastraff Llechi | 251800 | 356105 |
| Bryn-Fferam | Wynne's Transport Cyf | Gwastraff Llechi | 251810 | 355495 |
| Cefn Graianog | Tudor Griffiths Group | Tywod a Gro | 246000 | 349500 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Chwarel Bryncir | JC Evans Ltd | Tywod | 248100 | 344855 |
| Tomen fferm Cymerau | ? | Gwastraff Llechi | 277572 | 310485 |
| Ffestiniog | Llechi Cymru (Breedon Group) | Llechi + Gwastraff Llechi | 269206 | 347186 |
| Chwarel a thomen Gloddfa Ganol | Llechi Cymru (Breedon Group) | Gwastraff Llechi | 269325 | 347590 |
| Hafod-Y-Wern | Gwilym Elias Owen | Gwastraff Llechi | 253135 | 357215 |
| Chwarel lechi Llechwedd | Northern Welsh Quarries Ltd | Llechi | 270200 | 346800 |
| Tomen Llechwedd | Northern Welsh Quarries Ltd | Gwastraff Llechi | 270000 | 346680 |
| Manod | Llechi Cymru (Breedon Group) | Llechi | 273100 | 345400 |
| Minffordd (AMU) | Breedon Group | Carreg Igneaidd | 259400 | 339100 |
| Nanhoron | E Thomas, Chwarel Nanhoron | Carreg Igneaidd | 228650 | 332980 |
| Chwarel lechi a thomen y Penrhyn | Llechi Cymru (Breedon Group) | Llechi + Gwastraff Llechi | 261375 | 364000 |
| Penygroes | Tudor Griffiths | Tywod a Gro | 246370 | 352985 |
| Trefor | R T Davies | Carreg Igneaidd | 236100 | 345900 |
| Chwarel a thomen orllewinol Tŷ Mawr | Ellis Jones | Llechi + Gwastraff Llechi | 249650 | 352450 |
| Tyn-y-Weirglodd | Llechi Cymru (Breedon Group) | Gwastraff Llechi | 249450 | 352195 |
| **YNYS MÔN** | | | | |
| Aber | Anglesey Masonry Cyf | Calchfaen | 250300 | 386650 |
| Gaerwen | Anglesey Aggregates Ltd | Carreg Igneaidd | 248000 | 372830 |
| Gwalchmai | Hogan Aggregates | Carreg Igneaidd | 238175 | 376990 |
| Gwyndy | Hogan Aggregates | Carreg Igneaidd | 239955 | 379665 |
| Nant Newydd | Clive Hurt Plant Hire (Ynys Môn) | Calchfaen | 248100 | 381100 |
| Rhuddlan Bach | Clive Hurt Plant Hire (Ynys Môn) | Calchfaen | 248600 | 380700 |

**Tabl A4: Chwareli Agregau Anweithredol yng Ngogledd Cymru (2018)**

| Enw'r Chwarel | Gweithredwr | Nwyddau | Dwyreiniad | Gogleddiad |
|---|---|---|---|---|
| **SIR DDINBYCH** | | | | |
| Burley Hill | Tarmac | Calchfaen | 320280 | 360075 |
| Graig | Tarmac | Calchfaen | 320500 | 356500 |
| **SIR Y FFLINT** | | | | |
| Ddol Uchaf | Breedon Southern | Tywod a Gro | 313800 | 371500 |
| Pen-yr-Henblas | Grosvenor Estate | Calchfaen | 319100 | 372900 |
| **WRECSAM** | | | | |
| Hafod | Cory Environmental Cyf | Tywod a Gro | 330800 | 345600 |
| **CONWY** | | | | |
| Llanddulas | Waste Recycling Group | Calchfaen | 290300 | 377460 |
| Plas Gwilym | Plas Gwilym Environmental | Calchfaen | 287850 | 378100 |
| **GWYNEDD** | | | | |
| Aberllefenni Mine | Wincillate Cyf | Llechi | 276920 | 310290 |
| Crown New | Caernarfon Crown Slate | Gwastraff Llechi | 251205 | 355465 |
| Greenarfon | Mulcair Cyf | Gwastraff Llechi | 246950 | 350840 |
| Twll Llwyd | W Humphries | Llechi | 249000 | 351800 |
| **YNYS MÔN** | | | | |
| Dinmoor | Ystâd Buckley, Biwmares | Calchfaen | 263405 | 381173 |
| Hengae | Hogan Aggregates | Carreg Igneaidd | 244000 | 368600 |
| Penmon | Jones Bros Rhuthun | Calchfaen | 263555 | 381290 |

**Tabl A5: Chwareli Agregau Segur yng Ngogledd Cymru (2018)**

| Enw'r Chwarel | Gweithredwr | Nwyddau | Dwyreiniad | Gogleddiad |
|---|---|---|---|---|
| **SIR Y FFLINT** | | | | |
| Grange | Mr. D. Priestley ? neu Tarmac ? | Calchfaen | 316660 | 375935 |
| **PARC CENEDLAETHOL ERYRI** | | | | |
| Tonfannau | Spencer Industrial (Gogledd Cymru) | Carreg Igneaidd | 257105 | 303345 |
| **GWYNEDD** | | | | |
| Marchlyn | First Hydro | Llechi | 260200 | 362675 |
| Tan y Bryn Farm | G & G L Bowness | Tywod a Gro | 246640 | 352350 |
| Twll Coed | Llechi Cymru (Breedon Group) | Llechi | 249165 | 351945 |

A50. Er ei bod yn bosibl y bydd unrhyw un o'r safleoedd a restrwyd yn y tablau hyn yn gallu cyfrannu at y cyflenwad yn y dyfodol (ar yr amod bod y safleoedd sy'n segur yn cael caniatâd datblygu newydd drwy broses yr Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau[4]), dim ond y safleoedd gweithredol a'r safleoedd anweithredol sy'n weddill sydd wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer cronfeydd yn Nhabl 5.4 a 5.6 yn y brif ddogfen. Mae cronfeydd mewn safleoedd segur wedi eu nodi ar wahân yn y tablau hynny. Roedd y safleoedd gweithredol a rhai o'r safleoedd sy'n anweithredol ar hyn o bryd, ynghyd â nifer bach o safleoedd eraill sydd wedi cau ers hynny, wedi cyfrannu at y gwerthiant hanesyddol yn y cyfnod sylfaen (2007 i 2016).

A51. Mae rhestrau llawn o safleoedd gweithredol, anweithredol a segur ar gyfer blynyddoedd unigol cyn 2018 wedi'u cynnwys yn adroddiadau blynyddol perthnasol y Gweithgor Agregau Rhanbarthol.

## *Dosraniadau, Dyraniadau a Chanllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol yng ngogledd Cymru*

A52. Mae tablau A6 ac A7, isod, yn crynhoi'r dosraniadau, y cronfeydd wrth gefn â chaniatâd a'r dyraniadau ar gyfer tywod a dynnir o'r tir ac ar gyfer cerrig mâl (yn y drefn honno) sydd wedi eu neilltuo i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng ngogledd Cymru.

A53. Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn nodi'n fanylach yr argymhellion a'r arweiniad ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol unigol yn y Rhanbarth, gan ddefnyddio'r ffigurau a nodir yn y tablau hyn. Ymdrinnir â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn nhrefn yr wyddor. Ym mhob achos, mae cyfeiriad at 'gyfnod y Cynllun' yn golygu'r cyfnod hyd ddyddiad terfyn y Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i fabwysiadu neu sy'n cael ei baratoi (pa un bynnag yw'r hwyraf) ar gyfer yr awdurdod cynllunio hwnnw.

A54. Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y brif ddogfen, mae'r ffigurau ar gyfer pob awdurdod yn seiliedig ar y rhagdybiaethau y bydd gofynion agregau yn y dyfodol yn cynyddu yn y blynyddoedd a ddaw i adlewyrchu'r gofynion cynyddol a gynlluniwyd ar gyfer adeiladu tai, ac y bydd cyflenwadau agregau amgen, o ffynonellau morol, eilaidd ac wedi eu hailgylchu yn parhau i gael eu cynnal mewn cyfrannau sy'n debyg i'r rhai a brofwyd yn ystod y cyfnod sylfaen (2007 i 2016).

A55. Bydd angen i'r awdurdodau cynllunio barhau i fonitro cywirdeb y rhagdybiaethau hyn, gan ddefnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau data ac arolygon newydd (e.e. gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwyngloddio) a defnyddir y data hynny wrth ddiwygio'r gofynion am ddosraniadau, os bydd angen, yn ystod yr adolygiad nesaf o'r DTRh.

A56. Rhaid pwysleisio mai unig bwrpas y ffigurau dosraniadau yw rhoi canllaw ar gyfer cyfrifo cyfanswm y dosraniadau y bydd eu hangen dros gyfnod y CDLl. Mewn gwirionedd, bydd y gwerthiant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac nid yw'n ofynnol bod awdurdod cynllunio lleol yn cynnal neu'n cyfyngu'r gwerthiannau rheiny yn unol â'r dosraniadau blynyddol.

[4] Ystyr ROMP yw 'Review of Old Mineral Permissions', o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae mwy o fanylion yn yr Eirfa ar ddiwedd y prif adroddiad.

**Tabl A6: Dosraniadau, Cronfeydd Wrth Gefn a Dyraniadau ar gyfer Tywod a Gro yng ngogledd Cymru**

| Awdurdod Cynllunio Lleol | Dosraniad Blynyddol newydd ar gyfer tywod a gro (mt) | Cyfanswm y Dosraniad sydd ei angen dros 22 flynedd | Cronfeydd wrth gefn â chaniatâd presennol ar ddiwedd 2016 mewn mt | Lleiafswm y Dyraniad sydd ei angen i fodloni'r Ddarpariaeth Angenrheidiol (mt) | Cronfeydd wrth gefn ychwanego l mewn safleoedd Segur, 2016 (mt) |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Ddinbych | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0 |
| Sir y Fflint | 0.223 | 4.912 | 1.369 | 3.543 | 0.5 |
| Wrecsam | 0.646 | 14.217 | 12.652 | 1.565 | 0 |
| Conwy + Parc Cenedlaethol Eryri | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0 |
| Gwynedd | 0.174 | 3.834 | 1.175 | 2.659 | 0 |
| Ynys Môn | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0 |
| **Is-gyfansymiau, Gogledd Cymru** | **1.044** | **22.963** | **15.196** | **7.767** | **0.5** |
| **CYFANSYMIAU Cymru** | **1.352** | **29.750** | **18.406** | **11.618** | **0.85** |

FFYNHONNELL: Tabl 5.4 yn y brif ddogfen

Lle y mae'r gofynion am ddyrannu wedi'u nodi, y rhain yw'r meintiau lleiaf sydd eu hangen i gwrdd â gofynion y DTRh. Mewn nifer o achosion, bydd un cais am ganiatâd newydd yn cynnwys mwy na'r meintiau hyn, er mwyn sicrhau hyfywedd economaidd. Ni ddylid gwrthod ceisiadau o'r fath dim ond am eu bod ar gyfer meintiau mwy na'r gofynion lleiaf sydd wedi'u nodi yma. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd y dyraniadau a awgrymwyd wedi'u cyflawni'n llwyr neu'n rhannol, drwy ganiatâd newydd a roddwyd er 2016, neu drwy ddyraniadau sydd wedi'u pennu'n barod mewn CDLlau. Gweler y testun a ganlyn am fanylion

**Tabl A7: Dosraniadau, Cronfeydd Wrth Gefn a Dyraniadau ar gyfer Cerrig Mâl yng ngogledd Cymru**

| Awdurdod Cynllunio Lleol | Dosraniad Blynyddol newydd ar gyfer cerrig mâl (mt) | Cyfanswm y Dosraniad Angenrheidiol dros 25 mlynedd (30 mlynedd yng Nghaerdydd) | Cronfeydd wrth gefn â chaniatâd presennol ar ddiwedd 2016 mewn mt | Lleiafswm y Dyraniad sydd ei angen i fodloni'r Ddarpariaeth Angenrheidiol (mt) | Cronfeydd wrth gefn ychwanego l mewn safleoedd Segur, 2016 (mt) |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Ddinbych | 0.860 | 21.500 | 21.710 | 0.000 | 0 |
| Sir y Fflint | 3.359 | 83.968 | 48.040 | 35.928 | 1.41 |
| Wrecsam | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0 |
| Conwy + Parc Cenedlaethol Eryri | 1.201 | 30.016 | 62.500 | 0.000 | 0.25 |
| Gwynedd | 0.955 | 23.867 | 28.540 | 0.000 | 0 |
| Ynys Môn | 0.321 | 8.015 | 14.400 | 0.000 | 0 |
| **Is-gyfansymiau, Gogledd Cymru** | **6.695** | **167.366** | **175.19** | **35.928** | **1.66** |
| **CYFANSYMIAU Cymru** | **18.872** | **479.816** | **670.850** | **94.101** | **34.20** |

FFYNHONNELL: Tabl 5.6 yn y brif ddogfen

Lle y mae'r gofynion am ddyrannu wedi'u nodi, y rhain yw'r meintiau lleiaf sydd eu hangen i gwrdd â gofynion y DTRh. Mewn nifer o achosion, bydd un cais am ganiatâd newydd yn cynnwys mwy na'r meintiau hyn, er mwyn sicrhau hyfywedd economaidd. Ni ddylid gwrthod ceisiadau o'r fath dim ond am eu bod ar gyfer meintiau mwy na'r gofynion lleiaf sydd wedi'u nodi yma. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd y dyraniadau a awgrymwyd wedi'u cyflawni'n llwyr neu'n rhannol, drwy ganiatâd newydd a roddwyd er 2016, neu drwy ddyraniadau sydd wedi'u pennu'n barod mewn CDLlau. Gweler y testun a ganlyn am fanylion.

A57. Mae'r angen am wneud darpariaeth ar ôl cyfnod y Cynllun wedi'i seilio ar y gofyniad yn MTAN1 am gynnal banciau tir o 7 mlynedd ar gyfer tywod a gro a 10 mlynedd ar gyfer cerrig mâl, drwy gydol cyfnod y CDLl. Ar yr amod bod y gofyniad hwn yn cael ei fodloni, bydd y ddarpariaeth gyffredinol ar unrhyw adeg benodol yn gallu cynnwys banciau tir o gronfeydd sydd â chaniatâd yn ogystal â dyraniadau o safleoedd i'w gweithio yn y dyfodol, os bydd eu hangen.

A58. Ym mhob achos, mae'r argymhellion wedi'u seilio ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am gronfeydd, cynnyrch, agosrwydd a chapasiti amgylcheddol. Fel y nodwyd yn 'Blwch 1' yn y dogfennau DTRh gwreiddiol, mae'n bosibl nad yw'r argymhellion ar gyfer dosraniadau a dyraniadau'n ystyried yr holl ffactorau a all fod yn berthnasol wrth sicrhau bod cyflenwad digonol o agregau ar gael o ffynonellau sydd mewn lleoliad priodol. Rhai o'r ffactorau posibl yw:

- Y gallu technegol i gyfnewid un math o agregau am un arall;
- Y gost gymharol i'r amgylchedd o gyfnewid un math o agregau am un arall;
- Yr effeithiau cymharol ar yr amgylchedd o newid patrymau cyflenwi;
- A ellir cynnal digon o allu cynhyrchu i ateb y galw am gyflenwadau.

A59. Am resymau o'r fath, ac fel y nodwyd yn barod ym Mhennod 1 y brif ddogfen, os bydd tystiolaeth newydd (e.e. tystiolaeth fwy diweddar, fwy manwl neu fwy cywir) yn cyfiawnhau hynny, gall Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol wyro oddi wrth y ffigurau ar gyfer dosrannu a dyrannu sydd wedi'u hargymell yn y DTRh wrth baratoi eu polisïau ar gyfer y CDLl. Fodd bynnag, wrth wneud hynny byddai'n rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos na fydd y gwyriad arfaethedig yn tanseilio strategaeth gyffredinol y DTRh (e.e. drwy gydweithio ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn yr un is-ranbarth i sicrhau eu bod yn parhau i gyflawni cyfansymiau is-ranbarthol a rhanbarthol). Er mwyn atgyfnerthu'r cysyniad hwnnw, mae'r Adolygiad hwn o'r DTRh yn cyflwyno gofyniad newydd i bob Awdurdod Cynllunio Lleol ym mhob is-ranbarth gytuno ar Ddatganiad Cydweithio Is-ranbarthol, ac i hyn gael ei gymeradwyo gan yr RAWP, cyn Archwilio unrhyw Gynllun Datblygu Lleol unigol yn yr ardal honno.

A60. Fel y nodwyd yn MTAN 1, paragraff A3: Os na fydd yr awdurdodau lleol yn gallu dod i gytundeb, neu os na fydd awdurdodau lleol penodol yn derbyn y Datganiad Technegol Rhanbarthol, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ôl dilyn pob llwybr posibl arall, yn ystyried defnyddio ei phwerau diofyn i ymyrryd yn y broses gynllunio.

## YNYS MÔN

### Dosrannu ar gyfer darparu agregau crai a dynnir o'r tir yn y dyfodol

Mae'n ofynnol bod yr awdurdod cynllunio yn gwneud darpariaeth at y dyfodol yn ei Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer agregau crai a dynnir o'r tir ar sail y dosraniadau blynyddol sy'n dilyn:

- Darpariaeth ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir: **Dim**
- Darpariaeth ar gyfer agregau cerrig mâl: **0.321 miliwn tunnell y flwyddyn** tan ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 10 mlynedd ar ôl hynny.

### Cymharu â'r banciau tir presennol

Cyfanswm y dosraniadau ar gyfer Ynys Môn, fel y'u cyfrifwyd yn Nhablau 5.4 a 5.6 yn y brif ddogfen, dros y cyfnod 22 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer tywod a gro a'r cyfnod 25 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer cerrig mâl, yw dim ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir a 8.015 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â'r banciau tir presennol o ddim ar gyfer tywod a gro a 14.4 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl (ar 31 Rhagfyr 2016).

### Dyraniadau i'w pennu yn y Cynllun Datblygu Lleol

Gan nad oes angen gwneud dosraniad ar gyfer tywod a gro yn Ynys Môn (a hynny'n adlewyrchu'r ffaith bod yr adnoddau dichonol sydd ar gael yn Ynys Môn yn gyfyngedig iawn o'u cymharu â'r rheini sydd ar gael yn ardal gyfagos Gwynedd), nid oes gofyniad penodol am bennu dyraniadau ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir yn y CDLl. Mae hyn yn golygu nad oes gwahaniaeth mewn cymhariaeth ag Adolygiad Cyntaf y DTRh, on mae'n wahanol i'r argymhellion yn y DTRh gwreiddiol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol, ar sail dosraniadau rhanbarthol cyfartalog o gyfanswm y defnydd yn unig, fod Ynys Môn yn gwneud dyraniadau ar gyfer 1.5 miliwn tunnell o dywod a gro yn ei CDLl.

O ystyried bod y cronfeydd wrth gefn â chaniatâd presennol o gerrig mâl ar Ynys Môn bellach yn sylweddol fwy na'r gofyniad DTRh, gyda banc tir o bron i 45 mlynedd, nid oes rheidrwydd i wneud unrhyw ddyraniad cerrig mâl pellach o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, dylid ystyried a oes ffactorau sydd wedi'u nodi ym mharagraff A58 uchod sy'n arwain at unrhyw anghenion eraill am ddyrannu adnoddau newydd. Os gwneir unrhyw addasiad, byddai angen eu cadarnhau mewn Datganiad Cydweithio Is-ranbarthol, a chytuno arnynt â RAWP Gogledd Cymru, cyn i unrhyw un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol yng ngogledd-orllewin Cymru gael eu cyflwyno i'w harchwilio.

Hyd y gellir, dylai unrhyw ddyraniad sydd ei angen gael eu dynodi'n Safleoedd Penodol neu, yn niffyg hynny, yn Ardaloedd Dethol. Os gwelir, yn y pen draw, mai dim ond Ardaloedd Chwilio bras y gellir eu pennu, rhaid iddynt fod yn ddigon mawr i gynnwys cronfeydd dichonol mwy o lawer, er mwyn darparu ar gyfer yr elfen o ansicrwydd sydd ynglŷn â hyn.

Yn unol â MTAN 1 (paragraff 49), ni ddylid pennu dyraniadau yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, oni bai nad oes safleoedd eraill sy'n dderbyniol o safbwynt amgylcheddol.

### Defnyddio agregau eraill

Credir nad oes dim neu bron dim agregau a garthwyd o'r môr yn cael eu defnyddio yn Ynys Môn. Fel y nodwyd yn y DTRh gwreiddiol, yr unig ddefnydd o agregau eilaidd yw prosesu achlysurol ar ludw o locomotifau yn Nhywyn Trewan, ac mae gwydr eildro yn cael ei gymysgu â cherrig i wneud asffalt mewn un chwarel. Mae'n bosibl y bydd rhai cyfleoedd ychwanegol i ailgylchu gwastraff adeiladu, dymchwel a chloddio i wneud agregau os bydd tir y Weinyddiaeth Amddiffyn neu dir diwydiannol yn cael ei ryddhau i'w ailddatblygu ond, fel arall, mae'r ffynhonnell hon o agregau eraill hefyd yn debygol o fod yn gyfyngedig iawn.

Er hynny, wrth bennu'r gofynion gweddilliol am agregau crai a dynnir o'r tir, cymerir y bydd pob un o'r deunyddiau eraill hyn yn parhau i gael ei ddefnyddio ar lefel debyg i hynny mewn blynyddoedd blaenorol, a dylai'r awdurdod barhau i hyrwyddo hynny.

**Diogelu adnoddau agregau crai**

Mae adnoddau perthnasol o agregau cerrig mâl a thywod a gro ar dir wedi'u diogelu yn y CDLl, yn unol â chyngor manwl sydd wedi'i seilio ar y defnydd o fapiau Arolwg Daearegol Prydain, cyn cyhoeddi mapiau diogelu Arolwg Daearegol Prydain.

**Diogelu glanfeydd a therfynfeydd rheilffyrdd**

Dylid pennu yn y CDLl fod yr holl derfynfeydd rheilffyrdd presennol a newydd dichonol i'w diogelu, er mwyn cynnig dewis llawn o opsiynau ar gyfer cludiant cynaliadwy (pa un a ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu beidio).

## CONWY A PHARC CENEDLAETHOL ERYRI

**Dosrannu ar gyfer darparu agregau crai a dynnir o'r tir yn y dyfodol**

Mae'n ofynnol bod yr awdurdod cynllunio yn gwneud darpariaeth at y dyfodol yn ei Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer agregau crai a dynnir o'r tir ar sail y dosraniadau blynyddol sy'n dilyn:

- Darpariaeth ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir: **Dim**
- Darpariaeth ar gyfer agregau cerrig mâl: **1.201 miliwn tunnell y flwyddyn** tan ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 10 mlynedd ar ôl hynny.

Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf os nad y cyfan o'r ddarpariaeth hon yn cael ei chyflenwi o Gonwy.

**Cymharu â'r banciau tir presennol**

Cyfanswm y dosraniadau ar gyfer Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri (ar y cyd), sydd wedi'u cyfrifo yn Nhabl 5.6 yn y brif ddogfen, dros gyfnod 22 mlynedd yr Adolygiad Cyntaf o'r DTRh yw dim ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir a 30.016 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â'r banciau tir presennol (cyfun) o ddim ar gyfer tywod a gro a 62.5 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl (ar 31 Rhagfyr 2016).

**Dyraniadau i'w pennu yn y Cynllun Datblygu Lleol**

Gan fod gwarged yn y cronfeydd presennol o gerrig mâl sydd â chaniatâd, nid oes angen pennu dyraniadau ychwanegol ar gyfer gweithio cerrig mâl yn yr un o'r ddau CDLl. Fodd bynnag, dylid ystyried a oes ffactorau sydd wedi'u nodi ym mharagraff A58 uchod sy'n arwain at unrhyw anghenion pellach am ddyrannu adnoddau yng Nghonwy. Os gwneir unrhyw addasiad, byddai angen eu cadarnhau mewn Datganiad Cydweithio Is-ranbarthol, a chytuno arnynt â RAWP Gogledd Cymru, cyn i unrhyw un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol yng ngogledd-orllewin Cymru gael eu cyflwyno i'w harchwilio.

Hyd y gellir, dylai unrhyw ddyraniadau gael eu dynodi'n Safleoedd Penodol neu, yn niffyg hynny, yn Ardaloedd Dethol. Os gwelir, yn y pen draw, mai dim ond Ardaloedd Chwilio bras y gellir eu pennu, rhaid iddynt fod yn ddigon mawr i gynnwys cronfeydd dichonol mwy o lawer, er mwyn darparu ar gyfer yr elfen o ansicrwydd sydd ynglŷn â hyn.

Ym mharagraff 49 o MTAN 1, nodir nad yw'n ofynnol cynnal banciau tir mewn Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Oherwydd hyn, ni ddylid pennu unrhyw ddyraniadau yn y Parc Cenedlaethol, oni bai nad oes unrhyw safleoedd eraill sy'n dderbyniol o safbwynt amgylcheddol, a dylid parhau i ymdrechu i drosglwyddo'r ychydig o gynhyrchu sy'n digwydd o fewn y Parc Cenedlaethol yn raddol i ardal Conwy a/neu i awdurdodau cyfagos eraill.

**Sut i ddelio â safleoedd segur**

Mae un caniatâd ar gyfer chwarel segur (Tonfannau) yn dal i fodoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Dylai'r awdurdod cynllunio asesu pa mor debygol yw hi y bydd y chwarel hon yn cael ei gweithio yn ystod cyfnod y Cynllun, yn amodol ar gwblhau adolygiad cychwynnol o amodau cynllunio a chyflwyno Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Os yw'n debygol y bydd cloddio'n ailddechrau yn y chwarel, ac os yw'r awdurdod yn credu bod y chwarel yn ateb y diffiniad o 'Safleoedd Penodol' ym mharagraff 14 o Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, gellir gwrthbwyso'r cronfeydd wrth gefn a ganiateir sydd ar gael yn erbyn unrhyw ofynion y gellir eu nodi fel arall am ddyraniadau o safleoedd i'w gweithio yn y dyfodol.

**Defnyddio agregau eraill**

Mae meintiau bach o dywod morol yn cael eu glanio ym Mhorth Penrhyn yn ardal gyfagos Gwynedd, ac mae'n bosibl bod rhywfaint ohono'n cael ei ddefnyddio yn y trefi ar arfordir gogledd-ddwyreiniol Conwy.

Fel y nodwyd yn y DTRh gwreiddiol, ni phennwyd unrhyw ffynonellau sylweddol o agregau eilaidd neu eildro yng Nghonwy, heblaw o bosibl am domenni gwastraff llechi cymharol fach. Mae dwy domen gwastraff llechi yn cael eu gweithio hefyd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae hefyd yn debygol y bydd agregau eildro yn cael eu cynhyrchu o hyd, ar lefel weddol isel, o wastraff adeiladu, dymchwel a chloddio, o fewn y trefi ar arfordir Conwy yn bennaf.

Er hynny, wrth bennu'r gofynion gweddilliol am agregau crai a dynnir o'r tir, cymerir y bydd pob un o'r deunyddiau eraill hyn yn parhau i gael ei ddefnyddio ar lefel debyg i hynny mewn blynyddoedd blaenorol, a dylai'r awdurdod barhau i hyrwyddo hynny.

**Diogelu adnoddau agregau crai**

Mae adnoddau perthnasol o agregau cerrig mâl a thywod a gro ar dir wedi'u diogelu yn y CDLl, yn unol â chyngor manwl sydd wedi'i seilio ar y defnydd o fapiau Arolwg Daearegol Prydain, cyn cyhoeddi mapiau diogelu Arolwg Daearegol Prydain.

**Diogelu glanfeydd a therfynfeydd rheilffyrdd**

Dylid pennu bod yr holl lanfeydd a therfynfeydd rheilffyrdd presennol a newydd dichonol o fewn Conwy i'w diogelu, er mwyn cynnig dewis llawn o opsiynau ar gyfer cludiant cynaliadwy (pa un a ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu beidio). Bydd hyn yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer trosglwyddo gwastraff llechi o ardaloedd cyfagos, drwy ardal Conwy.

## SIR DDINBYCH

**Dosrannu ar gyfer darparu agregau crai a dynnir o'r tir yn y dyfodol**

Mae'n ofynnol bod yr awdurdod cynllunio yn gwneud darpariaeth at y dyfodol yn ei Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer agregau crai a dynnir o'r tir ar sail y dosraniadau blynyddol sy'n dilyn:

- Darpariaeth ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir: **Dim**
- Darpariaeth ar gyfer agregau cerrig mâl: **0.860 miliwn tunnell y flwyddyn** tan ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 10 mlynedd ar ôl hynny.

**Cymharu â'r banciau tir presennol**

Cyfanswm y dosraniadau ar gyfer Sir Ddinbych, fel y'u cyfrifwyd yn Nhablau 5.4 a 5.6 yn y brif ddogfen, dros y cyfnod 22 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer tywod a gro a'r cyfnod 25 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer cerrig mâl, yw dim ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir a 21.5 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl. Mae hyn yn cymharu â'r banciau tir presennol o ddim ar gyfer tywod a gro a 21.71 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl (ar 31 Rhagfyr 2016).

**Dyraniadau i'w pennu yn y Cynllun Datblygu Lleol**

Er bod gan Sir Ddinbych ddosraniad sero ar gyfer tywod a gro naturiol, a dim cronfeydd wrth gefn â chaniatâd, mae ganddi adnoddau posibl - yn enwedig yn Nyffryn Clwyd, rhwng Dinbych a Rhuthun. Mae rhai o'r rhain yn dod o fewn AHNE Bryniau Clwyd, ond nid pob un. Efallai y bydd yn bosibl i'r ardaloedd hyn gael eu gweithio, yn y dyfodol, fel dewisiadau amgen i'r dyddodion mewn rhannau cyfagos o Sir y Fflint, pe bai hynny'n angenrheidiol. Felly byddai'n ddefnyddiol i'r ddau awdurdod weithio ar y cyd ar hyn ac, os oes angen, i'r gofynion dyrannu ar gyfer Sir y Fflint gael eu rhannu.

Gan fod gwarged yn y cronfeydd presennol o gerrig mâl sydd â chaniatâd yn Sir Ddinbych, nid oes angen pennu dyraniadau ychwanegol yn y CDLl ar gyfer gweithio cerrig mâl yn y dyfodol. Yn y tymor hwy, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen i Sir Ddinbych gymryd cyfran fwy o'r baich cynhyrchu creigiau mâl yn yr isranbarth nag sy'n wir ar hyn o bryd ac, unwaith eto, byddai rhinweddau mewn cydweithredu ar hyn rhwng y tri Awdurdod Cynllunio Lleol yn is-ranbarth gogledd Cymru.

Dylid ystyried hefyd a oes ffactorau sydd ym mharagraff A58 uchod sy'n arwain at unrhyw anghenion ychwanegol am ddyrannu adnoddau yn yr ardal.

Os gwneir unrhyw addasiad i'r dosraniadau a'r dyraniadau a awgrymir, byddai angen eu cadarnhau mewn Datganiad Cydweithio Is-ranbarthol, a chytuno arnynt â RAWP Gogledd Cymru, cyn i unrhyw un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol yng ngogledd-ddwyrain Cymru gael eu cyflwyno i'w harchwilio.

Hyd y gellir, dylai unrhyw ddyraniad a wneir gael ei ddynodi'n Safleoedd Penodol neu, yn niffyg hynny, yn Ardaloedd Dethol. Os gwelir, yn y pen draw, mai dim ond Ardaloedd Chwilio bras y gellir eu pennu, rhaid iddynt fod yn ddigon mawr i gynnwys cronfeydd dichonol mwy o lawer, er mwyn darparu ar gyfer yr elfen o ansicrwydd sydd ynglŷn â hyn.

Ym mharagraff 49 o MTAN 1, nodir nad yw'n ofynnol cynnal banciau tir mewn Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Oherwydd hyn, ni ddylid pennu unrhyw ddyraniadau yn AHNE Bryniau Clwyd, oni bai nad oes unrhyw safleoedd eraill sy'n dderbyniol o safbwynt amgylcheddol.

**Defnyddio agregau eraill**

Credir nad oes dim neu bron dim agregau a garthwyd o'r môr yn cael eu defnyddio yn Sir Ddinbych.

Mae gwastraff llechi yn cael ei brosesu mewn un safle gweithredol yn rhan ddeheuol AHNE Bryniau Clwyd, ond credir mai'r unig ddefnydd ohonynt yw hynny ar gyfer cerrig mân addurniadol a deunydd llenwi isradd. Heblaw hwn, nid oes gwybodaeth am unrhyw ffynhonnell arall o agregau eilaidd yn y sir.

Mae'n debygol bod rhywfaint o agregau eildro yn cael ei gynhyrchu o wastraff adeiladu, dymchwel a chloddio, ym mhrif drefi'r arfordir gan mwyaf, a hefyd mewn rhai o'r chwareli.

Er mai dim ond ychydig o ddeunyddiau eraill sydd ar gael yn Sir Ddinbych, wrth bennu'r gofynion gweddilliol am agregau crai a dynnir o'r tir, cymerir y bydd y deunyddiau hyn yn parhau'n rhan o'r patrwm cyflenwi cyffredinol a dylai'r awdurdod barhau i hyrwyddo hynny.

**Diogelu adnoddau agregau crai**

Mae adnoddau perthnasol o agregau cerrig mâl a thywod a gro ar dir wedi'u diogelu yn y CDLl, yn unol â chyngor manwl sydd wedi'i seilio ar y defnydd o fapiau Arolwg Daearegol Prydain, cyn cyhoeddi mapiau diogelu Arolwg Daearegol Prydain.

**Diogelu glanfeydd a therfynfeydd rheilffyrdd**

Dylid pennu yn y CDLl fod yr holl derfynfeydd rheilffyrdd presennol a newydd dichonol i'w diogelu, er mwyn cynnig dewis llawn o opsiynau ar gyfer cludiant cynaliadwy (pa un a ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu beidio).

## SIR Y FFLINT

**Dosrannu ar gyfer darparu agregau crai a dynnir o'r tir yn y dyfodol**

Mae'n ofynnol bod yr awdurdod cynllunio yn gwneud darpariaeth at y dyfodol yn ei Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer agregau crai a dynnir o'r tir ar sail y dosraniadau blynyddol sy'n dilyn:

- Darpariaeth ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir: **0.223 miliwn tunnell y flwyddyn** tan ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 7 mlynedd ar ôl hynny.
- Darpariaeth ar gyfer agregau cerrig mâl: **3.359 miliwn tunnell y flwyddyn** tan ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 10 mlynedd ar ôl hynny.

**Cymharu â'r banciau tir presennol**

Cyfanswm y dosraniadau ar gyfer Sir y Fflint, fel y'u cyfrifwyd yn Nhablau 5.4 a 5.6 yn y brif ddogfen, dros y cyfnod 22 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer tywod a gro a'r cyfnod 25 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer cerrig mâl, yw 4.912 miliwn tunnell ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir a 83.968 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â'r banciau tir presennol o 1.369 miliwn tunnell ar gyfer tywod a gro a 48.04 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl (ar 31 Rhagfyr 2016). Nid yw'r ffigurau yn cynnwys cronfeydd calchfaen sydd wedi'u dyrannu at fathau o ddefnydd heblaw rhai ar gyfer agregau.

**Dyraniadau i'w pennu yn y Cynllun Datblygu Lleol**

Er mwyn delio â'r diffygion sy'n codi o ganlyniad i hyn, bydd angen pennu dyraniadau newydd yn y CDLl sy'n dod i gyfanswm o 3.543 miliwn tunnell o leiaf ar gyfer tywod a gro ac o leiaf 35.928 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl. Mae'r rhain yn godiadau sylweddol o'u cymharu â'r gofynion a nodwyd yn yr Adolygiad Cyntaf ac, ymhlith pethau eraill, maent yn adlewyrchu pwysigrwydd o'r newydd Sir y Fflint o ran allforio agregau calchfaen i ogledd-orllewin Lloegr. Dangosir hyn yn glir yn y data yn Nhabl A2, uchod. Mae cyfanswm y dyraniadau sy'n ofynnol ar gyfer Sir y Fflint wedi eu lleihau drwy gynyddu'r cyfraniadau is-ranbarthol o Sir Ddinbych gyfagos, er mwyn defnyddio'r cronfeydd wrth gefn â chaniatâd presennol yn yr ardal honno (gweler Tabl 5.2 a'r sylwebaeth gysylltiedig yn y brif ddogfen). Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o gydweithio, gyda Sir Ddinbych a gyda Wrecsam, i ddarparu'r atebion gorau posibl.

Byddai angen i unrhyw drefniant ar y cyd gynnig manteision, o ran yr egwyddor agosrwydd, capasiti amgylcheddol a meini prawf cynaliadwyedd eraill, o gymharu â'r dewis o ddatblygu cronfeydd wrth gefn newydd yn Sir y Fflint ei hun. Byddai angen iddynt hefyd gael eu hadlewyrchu mewn Datganiad Cydweithio Is-ranbarthol, a chytuno arnynt â RAWP Gogledd Cymru, cyn i unrhyw un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol yn is-ranbarth gogledd-ddwyrain Cymru gael eu cyflwyno i'w harchwilio.

Dylid ystyried hefyd a oes ffactorau sydd ym mharagraff A58 uchod sy'n arwain at unrhyw anghenion ychwanegol am ddyrannu adnoddau.

Hyd y gellir, dylai unrhyw ddyraniad gael ei ddynodi'n Safleoedd Penodol neu, yn niffyg hynny, yn Ardaloedd Dethol. Os gwelir, yn y pen draw, mai dim ond Ardaloedd Chwilio bras y gellir eu pennu, rhaid iddynt fod yn ddigon mawr i gynnwys cronfeydd dichonol mwy o lawer, er mwyn darparu ar gyfer yr elfen o ansicrwydd sydd ynglŷn â hyn.

Ym mharagraff 49 o MTAN 1, nodir nad yw'n ofynnol cynnal banciau tir mewn Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Oherwydd hyn, ni ddylid pennu unrhyw ddyraniadau yn AHNE Bryniau Clwyd, oni bai nad oes unrhyw safleoedd eraill sy'n dderbyniol o safbwynt amgylcheddol.

**Sut i ddelio â safleoedd segur**

Mae chwarel galchfaen segur (Grange) yn dal i fodoli yn Sir y Fflint. Dylai'r awdurdod cynllunio asesu pa mor debygol yw hi y bydd y chwarel hon yn cael ei gweithio yn ystod cyfnod y Cynllun, yn amodol ar gwblhau adolygiad cychwynnol o amodau cynllunio a chyflwyno Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Os yw'n debygol y bydd cloddio'n ailddechrau yn y chwarel, ac os yw'r awdurdod yn credu bod y chwarel yn ateb y diffiniad o 'Safleoedd Penodol' ym mharagraff 14 o Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, gellir ei gwrthbwyso yn erbyn unrhyw ofynion y gellir eu nodi fel arall fel dyraniadau o safleoedd i'w gweithio yn y dyfodol. Yn amodol ar y canlyniad i asesiad o'r fath, gallai fodloni rhan o'r gofyniad am ddyraniadau newydd ar gyfer agregau cerrig mâl sydd wedi'i nodi uchod.

**Defnyddio agregau eraill**

Mae meintiau anhysbys o ddeunydd a garthwyd o Aber Afon Dyfrdwy i hwyluso mordwyo yn cael eu glanio yn Noc Mostyn. Deellir bod rhywfaint ohono wedi'i ddefnyddio ar ffurf deunydd llenwi isradd. Heblaw hyn, credir nad oes unrhyw agregau eraill a garthwyd o'r môr yn cael eu defnyddio yn Sir y Fflint.

Byddai rwbel glofeydd wedi bod ar gael gynt i'w ddefnyddio ar gyfer agregau eilaidd yn ardal y maes glo ond mae'r rhan fwyaf o'r ardal hon wedi'i hailddatblygu ar gyfer diwydiannau newydd, uwch-dechnolegol, fel nad oes fawr o gyfle bellach i gynhyrchu agregau eilaidd yn gyson.

Mae lefelau'r datblygu ac ailddatblygu diwydiannol a masnachol, sy'n uwch nag yn y rhan fwyaf o Ogledd Cymru, yn cynhyrchu meintiau sylweddol o wastraff adeiladu, dymchwel a chloddio sy'n cael eu defnyddio i wneud agregau eildro, er nad ydym yn gwybod eu maint ar hyn o bryd. Er bod nifer o ardaloedd wedi'u hailddatblygu'n barod, mae'n bosibl y bydd rhai cyfleoedd pellach yn rhan ddeheuol y sir.

Wrth bennu'r gofynion gweddilliol am agregau crai a dynnir o'r tir, cymerir y bydd gwahanol feintiau o'r deunyddiau eraill hyn yn parhau'n rhan o'r patrwm cyflenwi cyffredinol, a dylai'r awdurdod barhau i hyrwyddo hynny.

**Diogelu adnoddau agregau crai**

Mae adnoddau perthnasol o agregau cerrig mâl a thywod a gro ar dir wedi'u diogelu yn y CDLl, yn unol â chyngor manwl sydd wedi'i seilio ar y defnydd o fapiau Arolwg Daearegol Prydain, cyn cyhoeddi mapiau diogelu Arolwg Daearegol Prydain.

**Diogelu glanfeydd a therfynfeydd rheilffyrdd**

Dylid pennu yn y CDLl fod yr holl derfynfeydd rheilffyrdd presennol a newydd dichonol i'w diogelu, er mwyn cynnig dewis llawn o opsiynau ar gyfer cludiant cynaliadwy (pa un a ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu beidio).

## GWYNEDD

**Dosrannu ar gyfer darparu agregau crai a dynnir o'r tir yn y dyfodol**

I ddibenion cynllunio, nid yw Gwynedd yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n Awdurdod Cynllunio Mwynau ar wahân (ac yn cael ei drafod ar y cyd ag awdurdod cyfagos Conwy, uchod). Mae'n ofynnol bod Gwynedd yn gwneud darpariaeth at y dyfodol yn ei Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer agregau crai a dynnir o'r tir ar sail y dosraniadau blynyddol sy'n dilyn:

- Darpariaeth ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir: **0.174 miliwn tunnell y flwyddyn** tan ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 7 mlynedd ar ôl hynny.
- Darpariaeth ar gyfer agregau cerrig mâl: **0.995 miliwn tunnell y flwyddyn** tan ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 10 mlynedd ar ôl hynny.

**Cymharu â'r banciau tir presennol**

Cyfanswm y dosraniadau ar gyfer Gwynedd, fel y'u cyfrifwyd yn Nhablau 5.4 a 5.6 yn y brif ddogfen, dros y cyfnod 22 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer tywod a gro a'r cyfnod 25 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer cerrig mâl, yw 3.834 miliwn tunnell ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir a 23.867 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â'r banciau tir presennol o 1.175 miliwn tunnell ar gyfer tywod a gro a 28.54 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl (ar 31 Rhagfyr 2016).

**Dyraniadau i'w pennu yn y Cynllun Datblygu Lleol**

Er mwyn delio â'r diffyg sy'n codi o ganlyniad i hyn yn y ddarpariaeth ar gyfer tywod a gro, bydd angen pennu dyraniadau newydd yn y CDLl sy'n dod i gyfanswm o 2.659 miliwn tunnell o leiaf ar gyfer tywod a gro. Gan fod gwarged bach yn y cronfeydd presennol ar gyfer cerrig mâl, nid oes gofyniad penodol am ddyraniadau ar gyfer cerrig mâl. Fodd bynnag, dylid ystyried a oes ffactorau sydd wedi'u nodi ym mharagraff A58 uchod sy'n arwain at unrhyw anghenion eraill am ddyrannu adnoddau.

Yn benodol, mae rhan helaeth o'r banc tir presennol ar gyfer cerrig mâl yng Ngwynedd yn gronfeydd sydd â chaniatâd mewn chwareli llechi a thomenni gwastraff llechi ac, er bod modd defnyddio llechi yn lle mathau eraill o gerrig mewn nifer o sefyllfaoedd, nid ydynt yn addas at bob math o ddefnydd. Felly mae'n bosibl y bydd angen pennu dyraniadau ychwanegol ar gyfer mathau eraill o gerrig mâl a bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio gadw golwg manwl ar y sefyllfa. Yn benodol, bydd angen dal sylw ar y sefyllfa o ran yr eithriad ar gyfer llechi rhag yr Ardoll Agregau i weld a fydd yn parhau neu beidio (gweler paragraff A19 uchod). Os caiff yr eithriad ei ddiddymu, mae'n ddigon posibl y bydd mwy o alw am fathau eraill o agregau cerrig mâl.

Fel y nodwyd yn y DTRh gwreiddiol, wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd i gloddio agregau cerrig mâl yng Ngwynedd yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd y penderfyniad wedi'i seilio'n benodol ar y ffaith bod deunydd o ansawdd penodol ar gael at ddefnydd penodol (e.e. balast rheilffyrdd neu agregau wynebu ffyrdd) na ellir defnyddio gwastraff llechi a broseswyd ar ei gyfer.

Hyd y gellir, dylai unrhyw ddyraniadau gael eu dynodi'n Safleoedd Penodol neu, yn niffyg hynny, yn Ardaloedd Dethol. Os gwelir, yn y pen draw, mai dim ond Ardaloedd Chwilio bras y gellir eu pennu, rhaid iddynt fod yn ddigon mawr i gynnwys cronfeydd dichonol mwy o lawer, er mwyn darparu ar gyfer yr elfen o ansicrwydd sydd ynglŷn â hyn.

Ym mharagraff 49 o MTAN 1, nodir nad yw'n ofynnol cynnal banciau tir mewn Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Oherwydd hyn, ni ddylid pennu unrhyw ddyraniadau yn AHNE Penrhyn Llŷn, oni bai nad oes unrhyw safleoedd eraill sy'n dderbyniol o safbwynt amgylcheddol.

Os gwneir unrhyw addasiad i’r dosraniadau a'r dyraniadau a awgrymir, byddai angen eu cadarnhau mewn Datganiad Cydweithio Is-ranbarthol, a chytuno arnynt â RAWP Gogledd Cymru, cyn i unrhyw un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol yng ngogledd-orllewin Cymru gael eu cyflwyno i'w harchwilio.

**Sut i ddelio â safleoedd segur**

Mae cyfanswm o dair trwydded chwarel segur yn parhau yng Ngwynedd, sydd wedi eu nodi yn Nhabl A5 uchod. Mae dwy o’r rhain yn chwareli llechi ac un yn safle tywod a gro. Dylai’r awdurdod cynllunio asesu pob un o’r chwareli hyn i weld pa mor debygol yw hi y bydd yn cael ei gweithio yn ystod cyfnod y Cynllun, yn amodol ar gwblhau adolygiad cychwynnol o amodau cynllunio a chyflwyno Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol. Os yw’n debygol y bydd cloddio’n ailddechrau mewn safle, ac os yw’r awdurdod yn credu bod y safle(oedd) dan sylw yn ateb y diffiniad o ‘Safleoedd Penodol’ ym mharagraff 14 o Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, gellir eu gwrthbwyso yn erbyn unrhyw ofynion y gellir eu nodi fel arall am ddyraniadau o safleoedd i’w gweithio yn y dyfodol. Yn ôl y canlyniad i asesiad o’r fath, mae’n bosibl y bydd yr uned segur ar gyfer tywod a gro yn gallu bodloni rhan o’r gofyniad am ddyraniadau newydd sydd wedi’i nodi uchod.

**Defnyddio agregau eraill**

Mae symiau bach o dywod morol yn cael eu tynnu i'r lan ym Mhorth Penrhyn ger Bangor. Mae'n debyg bod y rhain yn cael eu defnyddio o fewn radiws o 20 i 30 milltir yng ngogledd Gwynedd ac (o bosibl) yng Nghonwy gyfagos.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr Atodiad hwn, mae cerrig mâl, a gafwyd o wastraff llechi neu y cloddiwyd amdanynt yn unswydd i’w defnyddio’n agregau crai, yn elfen bwysig yn y patrwm cyflenwi cyffredinol yng Ngwynedd. Gyda'i gilydd, dros y cyfnod sylfaen o 10 mlynedd (hyd at 2016), mae'r cynhyrchion hyn wedi cyfrif am gyfartaledd o 9.7% o gyfanswm y gwerthiannau cerrig mâl yng ngogledd Cymru gyfan, gan ostwng yn sydyn ers 2009, o uchafbwynt o fwy nag 16% yn 2007, ond yn gwella i fwy nag 11% erbyn 2016. Fodd bynnag, gan fod y ffigurau am gynhyrchu llechi wedi’u cynnwys eisoes yn yr ystadegau ar gyfer cerrig mâl yng ngogledd Cymru, nid oes unrhyw oblygiadau yn y duedd hon ar gyfer lefel gyffredinol y galw yn y dyfodol, dim ond ar gyfer y cydbwysedd rhwng llechi a mathau eraill o gerrig mâl.

Mae’n debygol mai dim ond meintiau bach o agregau eildro a gynhyrchir o wastraff adeiladu, dymchwel a chloddio yng Ngwynedd, a hynny yn y prif drefi ac ar gyfer prosiectau lleol yn unig.

Wrth bennu’r gofynion gweddilliol am agregau crai a dynnir o’r tir, cymerir y bydd pob un o’r deunyddiau eraill hyn yn parhau i gael ei ddefnyddio, gan gynnwys llechi mâl yn benodol, a dylai’r awdurdod barhau i hyrwyddo hynny.

**Diogelu adnoddau agregau crai**

Mae adnoddau perthnasol o agregau cerrig mâl a thywod a gro ar dir wedi’u diogelu yn y CDLl, yn unol â chyngor manwl sydd wedi’i seilio ar y defnydd o fapiau Arolwg Daearegol Prydain, cyn cyhoeddi mapiau diogelu Arolwg Daearegol Prydain.

**Diogelu glanfeydd a therfynfeydd rheilffyrdd**

Dylid pennu yn y CDLl fod yr holl derfynfeydd rheilffyrdd presennol a newydd dichonol i’w diogelu, er mwyn cynnig dewis llawn o opsiynau ar gyfer cludiant cynaliadwy (pa un a ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu beidio).

## WRECSAM

**Dosrannu ar gyfer darparu agregau crai a dynnir o'r tir yn y dyfodol**

Mae'n ofynnol bod yr awdurdod cynllunio yn gwneud darpariaeth at y dyfodol yn ei Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer agregau crai a dynnir o'r tir ar sail y dosraniadau blynyddol sy'n dilyn:

- Darpariaeth ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir: **0.646 miliwn tunnell y flwyddyn** tan ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 7 mlynedd ar ôl hynny.

- Darpariaeth ar gyfer agregau cerrig mâl: **dim**.

**Cymharu â'r banciau tir presennol**

Cyfanswm y dosraniadau ar gyfer Wrecsam, fel y'u cyfrifwyd yn Nhablau 5.4 a 5.6 yn y brif ddogfen, dros y cyfnod 22 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer tywod a gro a'r cyfnod 25 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer cerrig mâl, yw 14.217 miliwn tunnell ar gyfer tywod a gro a dynnir o'r tir a dim ar gyfer cerrig mâl. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â'r banciau tir presennol o 12.652 miliwn tunnell ar gyfer tywod a gro a dim ar gyfer cerrig mâl (ar 31 Rhagfyr 2016).

**Dyraniadau i'w pennu yn y Cynllun Datblygu Lleol**

Er mwyn delio â'r diffyg tywod a gro, bydd angen pennu dyraniadau newydd sy'n dod i gyfanswm o 1.565 miliwn tunnell o leiaf yn ardal Wrecsam.

I gydnabod y cyfyngiadau a osodwyd gan AHNE Bryniau Clwyd ar weithio adnoddau cerrig mâl yn y rhan fwyaf o ardal Wrecsam, mae lefel y ddarpariaeth cerrig mâl (ac felly'r gofyniad i nodi dyraniadau ar gyfer gweithio cerrig mâl yn y dyfodol) wedi ei osod ar sero. Fodd bynnag, mae ardaloedd bach o adnoddau cerrig mâl (calchfaen a chraig igneaidd) yn bodoli, ychydig y tu allan i'r AHNE yn rhan dde-orllewinol yr ardal, ac erys y posibilrwydd o nodi rhagolygon ar gyfer echdynnu yn yr ardaloedd hynny yn y dyfodol. Os bydd unrhyw gyfle o'r fath yn codi, efallai y bydd yn bosibl i Wrecsam rannu rhan o'r dyraniad cerrig mâl a roddir ar hyn o bryd i Sir y Fflint gyfagos.

Byddai angen i unrhyw drefniant ar y cyd o'r fath gynnig manteision, o ran yr egwyddor agosrwydd, capasiti amgylcheddol a meini prawf cynaliadwyedd eraill, o gymharu â'r dewis o ddatblygu cronfeydd wrth gefn newydd yn Sir y Fflint. Byddai angen iddynt hefyd gael eu hadlewyrchu mewn Datganiad Cydweithio Is-ranbarthol, a chytuno arnynt â RAWP Gogledd Cymru, cyn i unrhyw un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol yn is-ranbarth gogledd-ddwyrain Cymru gael eu cyflwyno i'w harchwilio.

Dylid ystyried hefyd a oes ffactorau sydd ym mharagraff A58 uchod sy'n arwain at unrhyw anghenion ychwanegol am ddyrannu adnoddau.

Hyd y gellir, dylai unrhyw ddyraniadau gael eu dynodi'n Safleoedd Penodol neu, yn niffyg hynny, yn Ardaloedd Dethol. Os gwelir, yn y pen draw, mai dim ond Ardaloedd Chwilio bras y gellir eu pennu, rhaid iddynt fod yn ddigon mawr i gynnwys cronfeydd dichonol mwy o lawer, er mwyn darparu ar gyfer yr elfen o ansicrwydd sydd ynglŷn â hyn.

Ym mharagraff 49 o MTAN 1, nodir nad yw'n ofynnol cynnal banciau tir mewn Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Oherwydd hyn, ni ddylid pennu unrhyw ddyraniadau yn AHNE Bryniau Clwyd, oni bai nad oes unrhyw safleoedd eraill sy'n dderbyniol o safbwynt amgylcheddol.

**Defnyddio agregau eraill**

Credir nad oes dim neu bron dim defnydd o agregau a garthwyd o'r môr yn ardal Wrecsam, yn bennaf am fod cronfeydd helaeth a hygyrch o dywod a gro ar gael ar dir o fewn yr ardal.

Fel y nodwyd yn y DTRh gwreiddiol, roedd tomenni slag yn cael eu prosesu o bryd i'w gilydd yn hen waith dur Brymbo i wneud deunydd llenwi ar gyfer adeiladu ac roedd tomenni o rwbel glofeydd yn cael eu defnyddio i lenwi argloddiau, ond nid yw'r naill na'r llall o'r ffynonellau hyn ar gael bellach ar gyfer agregau eilaidd. Yn yr un modd, mae darnau helaeth o dir diffaith a nifer mawr o adeiladau sy'n gysylltiedig â'r hen ddiwydiannau mwyngloddio a chynhyrchion clai, e.e. yng nghyffiniau Rhiwabon, wedi'u clirio ac mae tomenni eraill wedi'u tirweddu fel nad oes fawr o gyfle i gynhyrchu mwy o ddeunydd o ffynonellau o'r fath.

Yn yr un modd â Sir y Fflint, mae lefelau'r datblygu ac ailddatblygu diwydiannol a masnachol, sy'n uwch nag yn y rhan fwyaf o Ogledd Cymru, yn cynhyrchu meintiau sylweddol o wastraff adeiladu, dymchwel a chloddio sy'n cael eu defnyddio i wneud agregau eildro, er nad ydym yn gwybod eu maint ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd mwy o ailddatblygu sylweddol yn y blynyddoedd nesaf, felly mae'n debygol y bydd y ffynhonnell hon o agregau eraill yn parhau.

Wrth bennu'r gofynion gweddilliol am agregau crai a dynnir o'r tir, cymerir y bydd yr holl ddeunyddiau eraill sydd ar gael yn parhau i gael eu defnyddio a dylai'r awdurdod barhau i hyrwyddo hynny.

**Diogelu adnoddau agregau crai**

Mae adnoddau perthnasol o agregau cerrig mâl a thywod a gro ar dir wedi'u diogelu yn y CDLl, yn unol â chyngor manwl sydd wedi'i seilio ar y defnydd o fapiau Arolwg Daearegol Prydain, cyn cyhoeddi mapiau diogelu Arolwg Daearegol Prydain.

**Diogelu glanfeydd a therfynfeydd rheilffyrdd**

Dylid pennu yn y CDLl fod yr holl derfynfeydd rheilffyrdd presennol a newydd dichonol i'w diogelu, er mwyn cynnig dewis llawn o opsiynau ar gyfer cludiant cynaliadwy (pa un a ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu beidio).

Gweithgor
Agregau
Rhanbarthol
Gogledd Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithgor
Agregau
Rhanbarthol
De Cymru

# Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru.

- 2il Adolygiad -

# Adroddiad ar yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad

## Gydag Argymhellion y Grŵp Llywio

*(terfynol, Ebrill 2020)*

Paratowyd, ar ran Llywodraeth Cymru a Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru
*gan:* **Cuesta Consulting Limited**.

(01460) 929 905 / 07952 170 180
alan.thompson@cuesta-consulting.com

Cuesta

## Cyflwyniad:

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r Broses Ymgynghori ar gyfer 2$^{il}$ Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh), a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2019, ynghyd â'r argymhellion a wnaed gan Grŵp Llywio'r prosiect ynghylch y newidiadau angenrheidiol i'r DTRh drafft, er mwyn ymdrin â phob un o'r pwyntiau a godwyd.  I ddechrau, mae'r adroddiad yn amlygu pum mater allweddol a godwyd gan sawl ymgynghorai ac yna mae'n ymdrin yn ei dro â phob un o'r 20 cwestiwn a ofynnwyd yn holiadur yr ymgynghoriad.

Daeth cyfanswm o 23 ymateb i law. Roedd saith ohonynt gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) yng Ngogledd Cymru; ac roedd deuddeg ohonynt gan ACLlau yn Ne Cymru.  Roedd y pedwar ymateb arall gan y Gymdeithas Cynnyrch Mwynol (MPA), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), un gweithredwr mwynau annibynnol yng Ngogledd Cymru ac un cwmni ymgynghori, sy'n cynrychioli gweithredwr yn Ne Cymru. Mewn cyferbyniad â'r adolygiad 1$^{af}$, ni ddaeth unrhyw ymateb i law gan sefydliadau eraill nac awdurdodau lleol yn Lloegr.

Mae'r ymatebion unigol yn cael eu trin yn gyfrinachol.  Felly, ni chafodd y manylion isod eu neilltuo i gyfranwyr unigol yn fwriadol, ac eithrio lle bo angen gwneud hynny er mwyn gwerthfawrogi eu statws (a lle cafwyd caniatâd i wneud hynny gan y cyfranwyr dan sylw).

## Y Materion Allweddol a Godwyd:

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi amrywiaeth o faterion y mae angen eu hystyried, ac mae'r rhain wedi'u nodi ym mhrif gorff yr adroddiad hwn, ond codwyd nifer o bwyntiau allweddol fel ymateb i ddau neu fwy o gwestiynau ar wahân a/neu gan fwy nag un ymatebydd.   Mae'r rhain wedi'u nodi isod, ynghyd ag ymatebion y Grŵp Llywio a'r camau y cytunwyd arnynt (sy'n cael eu dangos mewn testun glas):

1. Mewn egwyddor mae **ffigurau tai** mewn CDLlau mabwysiedig yn darparu dull cadarn a chyson ar gyfer arwain dosraniadau i'r dyfodol OND:

    a. Mae nifer o'r CDLlau yn nesáu at eu dyddiadau terfynu statudol ac mae un ACLl yn awgrymu y byddai'n amhriodol dirwyn y polisi tai ymlaen i bob pwrpas o CDLlau o'r fath y tu hwnt i'r dyddiad terfynu drwy eu defnyddio yn y DTRh.  Roedd y Grŵp Llywio'n anghytuno â'r ddadl hon, a nododd nad oedd defnyddio'r ffigurau o'r CDLlau hyn, y tybir eu bod y ffynhonnell ddata orau sydd ar gael (gweler isod), ddim yr un fath â dirwyn y polisïau ymlaen. Ar ben hynny, dyddiad sylfaenol DTRh2 oedd 2016 felly adeg y dyddiad sylfaenol roedd gan y mwyafrif llethol o CDLlau 5 mlynedd neu fwy ar ôl i redeg.

    b. Boed hynny'n wir neu beidio, darganfuwyd bod y ffigurau mewn o leiaf rhai o'r CDLlau mabwysiedig yn wallus, am ryw reswm neu'i gilydd, felly ni ddylid eu defnyddio.  Roedd y Grŵp Llywio'n cydnabod y bu anghytuno cryf mewn sawl achos ynglŷn â ffigurau'r gofynion tai pan gafodd y CDLlau eu mabwysiadu i ddechrau; ac yn y mwyafrif o achosion mae'r cyfraddau cwblhau go iawn wedi bod yn sylweddol is na'r gofynion hynny.  Roedd hefyd yn nodi, fodd bynnag, nad oedd yr un o'r pethau hyn o reidrwydd yn golygu bod y gofynion yn anghywir; dim ond bod lefelau adeiladu wedi gostwng, yn rhannol oherwydd y dirwasgiad.  Yn ogystal, roedd y Grŵp Llywio'n teimlo na fyddai'n ymarferol ail-archwilio'r dadleuon hynny a chytuno ar ffigurau amgen ar gyfer pob awdurdod nawr.

Hefyd, ni fyddai unrhyw ffigurau newydd ond yn giplun mewn amser ac ni fyddai'r rhain wedi'u profi mewn Archwiliad CDLl.

c. Os oes angen, gellir cael gafael ar ffigurau gofynion tai mwy diweddar gan ffynonellau eraill, gan gynnwys Adroddiadau Monitro Blynyddol, Adroddiadau Adolygu CDLl neu Strategaethau a Ffefrir CDLl 2. Nododd y Grŵp Llywio fod pob un o'r rhain yn cynnig ffynonellau data amgen, ond nad ydynt yn gwneud hynny'n gyson, ac y byddai perygl 'dewis a dethol' ffynonellau data ar gyfer pob ACLl, oni bai ei fod wedi'i seilio ar resymeg gweithredu glir y canfuwyd ei bod yn gadarn mewn Archwiliad CDLl ac y gellir ei hailddefnyddio mewn Adolygiadau yn y dyfodol.

d. Hefyd, dylid ystyried y ffigurau tai yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) drafft. Roedd y Grŵp Llywio'n cydnabod bod y FfDC drafft yn cyflwyno ffynhonnell data newydd, cyfredol a chyson ar ofynion tai ac, mewn Adolygiadau o'r DTRh yn y dyfodol, efallai y byddai'n gwneud synnwyr cysylltu darpariaeth agregau i'r dyfodol â gofynion tai yn y fersiwn ***fabwysiedig*** ddiweddaraf sydd ar gael o'r FfDC. Yn y cyfamser, fodd bynnag, nid yw'r ffigurau FfDC drafft ond yn cynnig amcan cychwynnol a allai newid ar ôl iddynt gael eu harchwilio gan ACLlau unigol yng ngoleuni amcanion polisi eraill – e.e. ar gyfer twf. Ymhellach, roedd y ffigurau FfDC drafft ar y cyfan yn is na'r ffigurau diweddar ar gyfer cyfraddau cwblhau tai go iawn, yn ystod cyfnod a oedd yn cynnwys dirwasgiad difrifol. Dydy ffigurau o'r fath ddim yn gydnaws â dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd. Am y rhesymau hyn, daeth y Grŵp Llywio i'r casgliad bod y ffigurau tai a nodwyd yn y CDLlau mabwysiedig, a fu'n destun archwiliad manwl yn ystod y Cam Archwilio, yn parhau i fod y ffynhonnell wybodaeth orau sydd ar gael i'w defnyddio yng Ngham 1 o fethodoleg y DTRh. [ond gweler hefyd yr ymateb i Eitem 2 o dan Gwestiwn 6, isod, lle'r oedd y Grŵp Llywio'n cytuno y dylid defnyddio data ar gyfraddau cwblhau tai (yn ogystal â gofynion rhagolygon) yn ystod Cam 3 o'r fethodoleg].

2. **Diffiniad o Is-Ranbarthau**. Yr unig fater sy'n peri pryder yma yw un a godwyd gan sawl awdurdod ar draws De-ddwyrain Cymru, yw y dylid cyfuno is-ranbarth 'Gwent – blaenorol' gydag is-ranbarth Dinas Caerdydd, a gan hynny cyfateb yn uniongyrchol â Rhanbarth Prifddinas Caerdydd. Roedd y Grŵp Llywio'n anghytuno â'r awgrym hwn, oherwydd byddai'n tanseilio'r ymdrechion bwriadol a wnaed yn yr 2il Adolygiad i hyrwyddo patrwm cyflenwi sy'n fwy teg a chynaliadwy ledled De-ddwyrain Cymru gyfan. Nododd fod y ddau is-ranbarth wedi'u cyfuno'n barod i bob pwrpas, â'r diben o gyfrifo dosraniadau ACLl (sydd wedi'u nodi yn Nhabl 5.3), ond bod angen gwahanu er mwyn gallu rhoi'r cydweithrediad is-ranbarthol ar waith yn effeithiol. Byddai cydweithredu yn y fath ffordd ar draws ardal gyfunedig Caerdydd / Gwent – blaenorol yn dod yn llawer anoddach yn logistaidd, ac o bosibl yn golygu y gellid llenwi diffygion yn ardal Gwent – blaenorol gyda chronfeydd dros ben a ganiateir yn ardal Dinas Caerdydd, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ystyriwyd bod hyn yn amhriodol, yn rhannol oherwydd byddai'r pellteroedd teithio dan sylw mewn rhai achosion yn aneconomaidd ac yn anghynaliadwy ond hefyd oherwydd byddai'n groes i bolisi Cenedlaethol i roi mwy o ddibyniaeth ar gyflenwad o Barciau Cenedlaethol. Bydd angen edrych ar y pwynt olaf, yn fwy cyffredinol, yn y canllawiau am gydweithredu (gweler Eitem 43, isod). Efallai y bydd amgylchiadau'n codi lle bydd angen i'r ddau is-ranbarth gydweithredu, ond ni fyddai hynny'n arferol, ac eto byddai angen ei gyfiawnhau yn unol â'r canllawiau.

3. **Dosraniadau i ACLlau neu is-ranbarthau**. Mae'r MPA wedi mynegi rhesymau cryf (yn gysylltiedig â datganiadau clir yn MTAN 1) pam fod rhaid gwneud dosraniadau i ACLlau unigol, ac *nid yw'n ymddangos bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau broblem â hyn*. Yr eithriadau yw'r rhai yng Ngorllewin Cymru a Sir Gaerfyrddin (a oedd, yn yr Adolygiad Cyntaf, wedi derbyn dosraniad cyfunedig am dywod a gro – ond ddim ar gyfer cerrig mâl), ynghyd â Rhondda Cynon Taf, Casnewydd a Sir Fynwy. Mae MTAN1 (Para. 49) yn nodi bod yn rhaid cael banciau tir ym mhob ACLl (ac eithrio Parciau Cenedlaethol ac AHNEau) - nid yw'r gofyniad hwnnw wedi newid. Nododd y Grŵp Llywio mai un ateb posibl yw gwneud eithriad ar gyfer sefyllfa tywod a gro Gorllewin Cymru, fel o'r blaen, ond mai ateb taclusach, na fyddai'n tanseilio'r dull gweithredu cyffredinol, fyddai atgyfnerthu'r awgrymiadau i sicrhau cydweithrediad rhwng yr ACLlau hynny, sydd eisoes wedi'i wneud. Ar gyfer De-ddwyrain Cymru, nodwyd bod y sefyllfa'n peri llawer iawn mwy o broblemau: petai dosraniadau ond yn cael eu gwneud i'r is-ranbarth cyfunedig hwnnw (h.y. Caerdydd + Gwent - blaenorol), ni fyddai cyfiawnhad dros ddyraniadau newydd mewn unrhyw le, yn sgil y cronfeydd dros ben ym Merthyr/PCBB. Byddai hyn yn gwrthdroi, yn hytrach na gwella, y dyhead am batrwm cyflenwi sy'n fwy cynaliadwy. Am y rhesymau hynny, cytunodd y Grŵp Llywio'n unfrydol bod yn rhaid gwneud dosraniadau i ACLlau unigol, oni bai a nes bydd y gofynion yn MTAN 1 yn cael eu newid. Nododd hefyd, fodd bynnag, os nad oes modd diwallu'r dosraniadau a argymhellir ar gyfer yr ACLlau unigol, gellid defnyddio Datganiadau o Gydweithrediad Is-ranbarthol (gweler isod) i ddatblygu ffyrdd amgen (sy'n fwy cyraeddadwy a chynaliadwy) o gyrraedd y ffigwr cyffredinol ar gyfer yr is-ranbarth hwnnw

4. **Datganiadau o Gydweithrediad Is-Ranbarthol (SSRCau)**. Mae'n ymddangos bod y rhain wedi cael eu croesawu at ei gilydd, heb wrthwynebiadau ar wahân i'r angen a leisiwyd yn gyffredinol am eglurhad cliriach ynghylch y mecanweithiau dan sylw (gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag amserlenni amrywiol CDLlau cydrannol). Cytunodd y Grŵp Llywio fod angen canllawiau a thrafodwyd eu cynnwys yn fanwl. Ar ôl eu cwblhau, bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y fersiwn derfynol o'r DTRh diwygiedig.

5. **Data Gwerthiannau**. Dim ond un awdurdod sydd wedi gwrthwynebu'r defnydd o'r cyfartaleddau 3 blynedd a 10 mlynedd uchaf, oherwydd y '*rhagdybiaeth ynghylch gorddarpariaeth'* honedig mae hyn yn ei awgrymu. Roedd un ymatebydd arall (gweithredwr mwynau) wedi gofyn am gael defnyddio data gwerthiannau hyd at 2018, ac nid 2016 (er bod hyn oherwydd mater lleol penodol iawn yn ymwneud â newid perchnogaeth un chwarel). Nododd y Grŵp Llywio, i ddechrau, nad yw gorddarpariaeth yn rhywbeth i boeni amdano at ei gilydd (nid yw'n arwain at gor-gyflenwi, ond mae'n gochel yn erbyn y risg fwy difrifol o dan-ddarpariaeth). Yn ail, efallai ei bod hi nawr yn bosibl defnyddio data gwerthiannau mwy diweddar, ond byddai hyn yn golygu bod angen ail-weithio'r holl ffigurau'n gyfan gwbl ynghyd â'r testun cyfatebol, sy'n golygu gwaith sylweddol ychwanegol ac oedi o ran cyhoeddi'r DTRh. Felly, cytunwyd na ddylid newid y data gwerthiannau.

## Ymatebion Manwl a Chamau a Argymhellir:

### Cyffredinol

Cwestiwn 1: At ei gilydd, ydy'r Ail Adolygiad Drafft o'r DTRh yn help i chi ddeall y materion dan sylw wrth gynllunio ar gyfer darpariaeth agregau yng Nghymru i'r dyfodol? (Os nad yw, awgrymwch unrhyw feysydd y gellid eu gwella).

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: O'r 23 ymateb, dywedodd **13** 'Ydy' ac ni chynigiodd y **deg** arall unrhyw sylwadau ar y cwestiwn penodol hwn.

Ymateb y Grŵp Llywio: Does dim angen newidiadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, er bod sawl ymatebydd wedi nodi bod angen eglurder yn gysylltiedig â mater manylach Datganiadau o Gydweithrediad Is-Ranbarthol (gweler C10 isod)

**Crynodeb Gweithredol**

Cwestiwn 2: Oes unrhyw faterion allweddol neu ganfyddiadau o'r brif ddogfen ar goll o'r Crynodeb Gweithredol a bod angen eu hychwanegu?

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Dywedodd **deg** ymateb 'na' ac ni chynigiodd **11** o'r lleill unrhyw sylwadau. Awgrymodd **un** ymatebydd y gellid rhoi manylion ychwanegol yn yr adran am Gam 4 ynghylch yr hyn y mae strategaeth DTRh2 yn ei ddarparu. Awgrymodd **un** arall y dylai'r Crynodeb Gweithredol esbonio mwy ynglŷn â pherthnasedd y data tai (ar ôl ei gwblhau) ac fe ddylai rybuddio ynghylch y cyfyngiadau dan sylw.

Ymateb y Grŵp Llywio: Dylid ymgorffori'r ychwanegiadau hyn yn seiliedig ar yr ymatebion i C6 a C8 (gweler isod).

**Pennod 1: Pwrpas ac Amcanion y DTRh**

Cwestiwn 3: Oes unrhyw agweddau o bwrpas y DTRh nad ydych yn eu deall ar ôl darllen y bennod hon? Oes unrhyw agweddau rydych chi'n anghytuno â nhw? Os oes, manylwch.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Dywedodd **naw** ymatebydd 'na' ac ni chynigiodd **deg** arall unrhyw sylwadau. Amlygodd **un** ymatebydd (yr MPA) yr angen am eglurder ynghylch SSRCau a rôl y RAWPau o fewn y rheiny. Dywedodd **un** ACLl 'oes' er bod ei bryder yn ymwneud mewn gwirionedd ag effeithiau'r DTRh yn hytrach na'i bwrpas; ac roedd **dau** arall (Caerdydd a RCT) wedi dweud 'oes' ond yn ymwneud yn unig ag ymholiadau penodol ynghylch hyd eu CDLlau - a bydd angen mynd i'r afael â'r rheiny. Roedd Sir Fynwy hefyd wedi codi'r mater am hyd y CDLl.

Ymateb y Grŵp Llywio: Cytunwyd y bydd canllaw ar SSRCau yn cael ei gynhyrchu. Cytunwyd hefyd y dylai 'Cyfnod Cynllun' CDLl Caerdydd fod yn 15 mlynedd fel y mae i'r lleill, ac felly fe ddylai cyfanswm y dosraniad a'r cyfrifiadau cysylltiedig ar gyfer Caerdydd gael eu lleihau yn unol â hynny. *(Roedd Caerdydd wedi nodi, er mai cyfnod y cynllun ar gyfer ei CDLl mabwysiedig yw 2006 i 2026, fod gwaith ar y cynllun wedi dechrau yn 2011 mewn gwirionedd ar ôl diddymu'r CDLl blaenorol (a oedd yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2006 a 2021) a'r rheswm dros gadw'r dyddiad dechrau fel 2006 oedd am fod llawer o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun a ddiddymwyd wedi'i defnyddio ar gyfer y cynllun newydd er mwyn osgoi gwariant diangen ar baratoi tystiolaeth newydd lle nad oedd ei hangen. I bob pwrpas mae hyn yn golygu bod y cynllun yn un 15 mlynedd a ddaw i ben yn 2026).* Roedd y Grŵp Llywio hefyd yn cytuno yn y ddau achos lle nodwyd cyfnodau cynllun gweithredol o ddim ond 10 mlynedd (RCT a Sir Fynwy), bod cyfnodau

gwirioneddol y cynlluniau, mewn termau polisi, yn dal i fod yn 15 mlynedd. Felly, ni ddylid newid y cyfrifiadau ar gyfer yr awdurdodau hynny

**Pennod 2: Egwyddorion Allweddol a Dulliau Gweithredu**

Cwestiwn 4: Ydych chi'n hapus â'r egwyddorion allweddol a'r dulliau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y bennod hon? Os nad ydych, eglurwch pam a beth sydd ar goll, os oes rhywbeth.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Dywedodd **15** o'r ymatebwyr 'ydw' (neu 'ydw'n gyffredinol' mewn un achos) ac ni chynigiodd **chwech** arall unrhyw sylw. Dim ond **un** ymatebydd a oedd wedi dweud nad oedd yn hapus, er bod ei bryderon yn ymwneud â rhoi'r egwyddorion ar waith, yn hytrach na'r egwyddorion eu hunain. Nododd **un** ymatebydd olaf (CNC), er ei fod yn gefnogol at ei gilydd, nifer o awgrymiadau adeiladol am ffyrdd y gellid gwella'r egwyddorion allweddol, yn enwedig drwy ddefnyddio cyfresi data newydd, a gedwir gan CNC, y gellid eu defnyddio i wella, neu o bosibl disodli, y set data 'IMAECA' ar Allu Amgylcheddol. Yn ystod Cyfarfod y Grŵp Llywio cytunwyd, gyda chynrychiolydd CNC, y dylid ystyried yr holl awgrymiadau hyn ar ddechrau'r Adolygiad nesaf, yn hytrach na'r un yma, neu yn ystod y cyfnod yn y canol, drwy drafodaethau rhwng CNC a LlC.

Cwestiwn 5: Ar ôl darllen y ddogfen gyfan, ydych chi'n meddwl bod yr egwyddorion allweddol hyn wedi cael eu harfer yn ddigonol wrth gyflawni'r adolygiad? Os nad ydych, eglurwch pam.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: dywedodd **deg** ymatebydd 'do' (gyda mân amodau mewn tri achos, gan gynnwys yr angen (a nodwyd gan yr MPA) i'r DTRh nodi'n fwy clir bod yr egwyddorion allweddol wedi'u rhoi ar waith) ac roedd **pedwar** arall, er eu bod yn cytuno at ei gilydd, yn cyfeirio at bryderon mwy difrifol – sy'n cael eu hadlewyrchu'n bennaf yn eu hatebion i C6 a C8 (gweler isod). Ni chynigiodd **chwech** arall unrhyw sylw. Roedd **tri** ymatebydd yn anghytuno, gydag un yn cyfeirio at bryderon mwy difrifol ynghylch defnyddio ffigurau tai sydd wedi dyddio a'r angen am ddosraniadau is-ranbarthol, yn hytrach na rhai ACLlau, ac un arall yn nodi pryderon ynglŷn â'r ffordd mae egwyddorion Newid Patrwm Cyflenwi a'r Egwyddor Agosrwydd yn cael eu gweithredu. Mae pob un o'r materion hyn yn cael eu trafod o dan C6, isod. Roedd y trydydd pwynt anghytuno (gan CNC) yn darparu rhagor o awgrymiadau adeiladol ar gyfer ffyrdd y gellir gweithredu'r egwyddorion allweddol yn fwy effeithiol yn ogystal â'u gwella. Eto, cafodd y rhain eu trafod yn ystod Cyfarfod y Grŵp Llywio pryd cytunwyd, gyda chynrychiolydd CNC, bod y rhain i gyd yn awgrymiadau i'w hystyried ar ddechrau'r Adolygiad nesaf, yn hytrach na hwn, neu yn ystod y cyfnod yn y canol, drwy drafodaethau rhwng CNC a LlC. Nodwyd pwynt yr MPA ynghylch yr angen i nodi'r ffaith bod yr egwyddorion allweddol wedi'u rhoi ar waith, er bod angen cynnwys cafeat ynghylch yr anhawster o wneud hynny mewn nifer fach o achosion, lle bydd angen cydweithredu o bosibl er mwyn creu ateb sy'n fwy cyraeddadwy a chynaliadwy.

**Pennod 3: Methodoleg ar gyfer yr 2il Adolygiad**

Cwestiwn 6: Ydych chi'n hapus â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr 2il Adolygiad? Os nad ydych, eglurwch pam a pha welliannau y gellid eu hystyried.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Dywedodd **pum** ymatebydd 'ydw' ac roedd **pedwar** arall yn cytuno gyda mân amheuon ynghylch yr angen am eglurhad cliriach ynglŷn â'r ffordd y mae data tai yn cael ei ddefnyddio. Roedd **tri** arall yn cytuno at ei gilydd ar wahân i bryderon am fanylion penodol – sy'n wahanol ym mhob achos (ac ymdrinnir â phob un ohonynt yn y pwyntiau isod). Dim ond **dau** ymatebydd oedd heb wneud sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd gan bob un o'r **naw** ymatebydd arall bryderon mwy difrifol. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod, ac mae ymatebion y Grŵp Llywio wedi'u nodi'n las ar gyfer pob sylw.

1. Roedd deg ymatebydd unigol (naw o'r 18 ACLl yn Ne Cymru ac un ACLl ychwanegol yng Ngogledd Cymru) wedi lleisio pryderon ynglŷn â defnyddio gofynion tai o CDLlau mabwysiedig, fel dangosydd gofynion agregau i'r dyfodol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi nodi bod y ffigurau mabwysiedig bellach yn cael eu disodli gan ragolygon tai sy'n bendant yn is a fyddai'n cynnig sylfaen dystiolaeth sy'n fwy 'credadwy'. Roedd rhai'n awgrymu y dylid addasu'r ffigurau ar i lawr er mwyn adlewyrchu'r amcanestyniadau mwy diweddar o aelwydydd a phoblogaeth a'r wybodaeth yn Strategaethau a Ffefrir CDLl2 a'r Cynlluniau wedi'u Hadneuo neu yn y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2019. Roedd sawl ymatebydd hefyd wedi nodi'r ffigurau tai llawer is a nodwyd yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol diweddaraf (FfDC) ac awgrymwyd y dylid rhoi blaenoriaeth i'r rhain. Serch hynny, tynnodd yr MPA sylw at y ffaith bod ffigurau'r FfDC yn is na'r cyfraddau cwblhau gwirioneddol a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod diweddar o ddirwasgiad dwfn a'u bod yn gwrthdaro â dyheadau twf mwy cyffredinol Llywodraeth Cymru. Ymateb y Grŵp Llywio: Mae'n amlwg bod y mater hwn yn peri cryn bryder, ac yn cael ei rannu gan gymaint â hanner yr ACLlau yn Ne Cymru (ond dim ond un ACLl yng Ngogledd Cymru), ond mae gwrthddadleuon cryf (wedi'u nodi mewn un ymateb ysgrifenedig ond wedi'u mynegi gan eraill yn ystod y digwyddiadau ymgynghori). Gweler yr ymateb i **FATER ALLWEDDOL 1**, uchod.

2. Roedd un ymatebydd (ACLl yn is-ranbarth Caerdydd) wedi awgrymu'n benodol y dylid addasu Dewis B ym methodoleg Cam 3 i ystyried y cyfraddau cwblhau tai go iawn (dros y cyfnod sylfaenol) *yn ogystal â* gofynion i'r dyfodol. Cafodd hyn ei awgrymu am ei fod yn ofynnol i rai ACLlau sicrhau nifer uwch o dai yn eu his-ardaloedd nag y maen nhw wedi llwyddo i'w gyflawni yn ystod y cyfnod sylfaenol, tra bod disgwyl i eraill sicrhau llai ar gyfartaledd nag y maen nhw wedi'i gyflawni. Mae'r ymatebydd yn awgrymu y byddai'r newid hwn yn gwella'r modd y defnyddir yr egwyddor 'Newid Patrwm Cyflenwi' y cyfeirir ati ym mhennod 2. Ymateb y Grŵp Llywio: Mae hwn yn awgrym da ac fe ddylid ei fabwysiadu. Bydd angen mynd ati i wneud newidiadau cyfatebol i'r manylion yn Nhablau 5.2 a 5.3, gyda'r newidiadau hynny'n cael eu cario drosodd i Dablau 5.4 i 5.7 a'r testun cysylltiedig (gan gynnwys yr Atodiadau Rhanbarthol).

3. Aeth yr un ACLl ymlaen i awgrymu y dylai'r DTRh osgoi nodi dosraniadau go iawn ond yn hytrach fe ddylai ddarparu methodoleg sy'n galluogi mewnosod y data tai diweddaraf sydd ar gael mewn fformiwla y cytunwyd arni, er mwyn cyfrifo'r gofynion ar gyfer pob ACLl adeg paratoi'r CDLl. Ymateb y Grŵp Llywio: Gwrthodwyd yr awgrym hwn am ddau reswm: yn gyntaf, byddai dull fformiwläig yn unig yn cael gwared ar y cyfle i broses y DTRh ddefnyddio unrhyw addasiadau

ansoddol ('synnwyr cyffredin'); yn ail, byddai defnyddio'r data tai 'diweddaraf sydd ar gael' yn gam cadarnhaol tuag at gadw'r holl CDLlau mor gyfredol â phosibl, ond gallai arwain at fethu â chyrraedd y cyfansymiau cenedlaethol a rhanbarthol cyffredinol, fel y pennir gan y DTRh, yn enwedig os yw ACLlau unigol yn dadlau dros y ffigurau tai isaf posibl o blith ystod o ddewisiadau. Roedd y Grŵp Llywio'n ffafrio defnyddio un ffynhonnell data tai sy'n gyson.

4. Roedd pum ymatebydd – gan gynnwys pob un o'r pedwar ACLl yn is-ranbarth 'Gwent – blaenorol' ac un yn is-ranbarth 'Dinas Caerdydd' cyfagos – yn ystyried y dylid cyfuno'r ddwy ardal dan sylw fel un is-ranbarth. Ymateb y Grŵp Llywio: Gweler yr ymateb i **FATER ALLWEDDOL 2**, uchod.

5. Roedd un ACLl arall wedi mynegi pryder mwy cyffredinol bod y ffiniau is-ranbarthol wedi'u llunio heb ddefnyddio Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Ymateb y Grŵp Llywio: Mae dogfennau'r DTRh yn bennaf yn cynrychioli sylfaen dystiolaeth a baratowyd ar y cyd ac felly nid ydynt cystal â chynllun neu raglen ac nid oes eu hangen at ddibenion y Gyfarwyddeb AAS. Yn yr un modd â'r DTRh gwreiddiol a'r Adolygiad Cyntaf, ar y lefel gyffredinol hon ac o ystyried y dadansoddiad manwl pellach a'r gwaith llunio Cynllun y bydd ei angen i weithredu'r DTRh drwy Gynlluniau Datblygu Lleol (lle bo AAS yn ofyniad ffurfiol), ni ystyriwyd ei fod yn briodol nac yn angenrheidiol i AAS gael ei gynnal fel rhan o'r Adolygiad. Dylid ychwanegu datganiad i'r perwyl hwn yn y dogfennau terfynol.

6. Awgrymodd un ymatebydd (ACLl yn is-ranbarth Caerdydd) y dylai'r DTRh annog dulliau cydweithredol ac is-ranbarthol go iawn o weithio drwy ddosraniad is-ranbarthol cyfunedig, yn hytrach na dosraniadau i ACLlau unigol. Nodwyd y pwynt olaf hwn hefyd gan ddau o'r ACLlau yn ardal Gwent – blaenorol a chan bedwar ACLl arall (y rhai yng Ngorllewin Cymru a Sir Gaerfyrddin gyfagos, lle cyflwynwyd dosraniad is-ranbarthol cyfunedig yn yr Adolygiad Cyntaf, yn benodol ar gyfer y ddarpariaeth o dywod a gro). Ymateb y Grŵp Llywio: Byddai'r awgrym hwn, er bod ganddo rywfaint o werth, yn tanseilio rôl y DTRh o bosibl o ran darparu cyngor annibynnol, strategol a thechnegol. Er mwyn cydnabod ei bwysigrwydd, ymdrinnir â hyn o dan **FATER ALLWEDDOL 3**, uchod.

7. Roedd un ymatebydd arall wedi mynegi'r farn bod angen i'r ffigurau gwerthiannau hanesyddol (hyd at ddiwedd 2016) hefyd gael eu diweddaru (hyd at ddiwedd 2018) i adlewyrchu'r newid diweddar mewn perchnogaeth a'r cynnydd wedyn mewn cynnyrch o un pwll tywod a gro penodol yng Ngogledd Cymru. Ymateb y Grŵp Llywio: Roedd y mater hwn yn gysylltiedig ag un chwarel benodol, ond mae'n codi cwestiwn mwy cyffredinol y dylid ei ystyried yn ehangach. Felly, cafodd ei ystyried o dan **FATER ALLWEDDOL 5**, uchod.

8. Yn olaf, nododd tri ACLl fod angen gwneud newidiadau i adlewyrchu cyfnodau gwahanol eu CDLlau (15 yn hytrach na 20 mlynedd yng Nghaerdydd, a 10 yn hytrach na 15 mlynedd yn Sir Fynwy a RCT). Ymateb y Grŵp Llywio: Gweler y sylwadau o dan C3, uchod.

**Pennod 4: Dadansoddi'r Patrwm Cyflenwi Presennol**

Cwestiwn 7: Ydych chi'n hapus â'r esboniad a roddwyd yn y bennod hon o'r patrymau cyflenwi presennol ar draws Cymru gyfan? Os nad ydych, eglurwch eich pryderon. *(Ond sylwch mai dim*

*ond pryderon yn ymwneud â manylion yn eich Rhanbarth neilltuol chi y gellir ymdrin â nhw mewn ymateb i'r cwestiynau ychwanegol (11 i 16) am y ddau Atodiad Rhanbarthol).*

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Dywedodd **11** ymatebydd 'ydw' er bod un o'r rhain wedi nodi bod y patrwm yng Ngogledd Cymru wedi'i ddylanwadu'n helaeth gan ganiatadau gyda chronfeydd mawr ac felly ni fydd yn newid am ddegawdau. Nododd un arall y bydd cynhyrchiant yn symud i leoliadau sydd ychydig yn llai cynaliadwy ar ôl defnyddio'r cronfeydd mwy cynaliadwy oni bai fod cronfeydd newydd yn cael eu caniatáu yn y lleoliadau gorau posibl. Nododd **un** ymateb ar wahân fod angen adolygu'r mapiau dosbarthu data tai os bwriedir defnyddio data tai newydd, ac roedd **un** ymatebydd arall wedi ailadrodd ei bryderon (o C6) ynghylch ffigurau tai gormodol. Nid oedd y **deg** ymatebydd arall wedi cynnig unrhyw sylw. Ymateb y Grŵp Llywio: O ystyried y ffaith NAD yw'r data tai am newid, nid oes angen gwneud newidiadau i'r mapiau.

**Pennod 5: Asesiad o Ddosraniadau a Dyraniadau**

Cwestiwn 8: Ydych chi'n hapus â'r 'Dosraniadau Blynyddol a Ffefrir' a nodwyd yn Nhablau 5.2 i 5.3 a'r testun ategol? Os nad ydych, nodwch eich pryderon, un ai o ran awdurdodau cynllunio lleol unigol neu Is-Ranbarthau, neu Gymru yn ei chyfanrwydd.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Dywedodd **wyth** ymatebydd 'ydw' a phwysleisiodd un o'r rhain y dylid caniatáu gwyro o'r ffigurau hyn dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Awgrymodd y dylid cryfhau canllawiau am hyn yn y DTRh. Nid oedd **pump** arall wedi cynnig unrhyw sylw. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (cyfanswm o **ddeg**) wedi dweud nad oedden nhw'n hapus â'r dosraniadau – yn bennaf am eu bod yn ffafrio dosraniadau is-ranbarthol yn hytrach na rhai ACLl, ond hefyd oherwydd y gofyniad a 'godwyd' yn seiliedig ar ffigurau tai gormodol sydd wedi dyddio. Cyfeiriwyd at yr olaf o'r rhain mewn tri achos yn unig, ond roedd pryderon o'r fath eisoes wedi'u mynegi gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn dan C6 (gweler uchod). Roedd un o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno (Dinas Caerdydd) wedi dyfynnu'r broblem fwy penodol yn ei achos nhw o ddefnyddio Cyfnod Cynllun 20 mlynedd (yn hytrach na 15 mlynedd) a oedd wedi cynhyrchu cynnydd gormodol (51%) mewn gofynion o ran agregau. Ymateb y Grŵp Llywio: Trafodwyd mater Cyfnod Cynllun o dan C3, uchod, ac mae'r dosraniadau is-ranbarthol a data tai yn cael eu trafod mewn perthynas â C6 a'r adran **MATERION ALLWEDDOL**, uchod.

Cwestiwn 9: Ydych chi'n hapus â'r manylion ynglŷn â chyflenwadau dros ben / diffyg a lleiafswm dyraniadau angenrheidiol yn Nhablau 5.4 i 5.7 a'r testun ategol? Os nad ydych, nodwch eich pryderon, un ai o ran awdurdodau cynllunio lleol unigol neu Is-Ranbarthau, neu Gymru yn ei chyfanrwydd.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Dywedodd **deg** ymatebydd 'ydw' ac ni chynigiodd **naw** arall unrhyw sylw. Nid oedd y **pedwar** ymatebydd arall yn hapus, a nodwyd yr un pryderon a fynegwyd o dan C6 a C8, uchod. Ymateb y Grŵp Llywio: gweler y trafodaethau sy'n gysylltiedig â C6, uchod.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n hapus â'r manylion a nodwyd ym mharagraffau 5.39 i 5.41, sy'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio lleol unigol i wyro oddi wrth argymhellion y Datganiad Technegol Rhanbarthol? Os nad ydych, eglurwch pam.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Dywedodd **deg** ymatebydd 'ydw' a dywedodd **tri** arall 'ydw' gydag amodau penodol. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynglŷn â chydweithredu rhwng ACLlau sy'n gweithio i amserlenni gwahanol iawn; pryder na ddylai cydweithredu danseilio gallu ACLl unigol i gyflwyno'i CDLl ei hun; a'r angen mwy cyffredinol am eglurhad ynghylch 'rheolau' penodol cydweithredu o dan senarios amrywiol (e.e. pa un a oes angen cynnwys yr holl ACLlau yn yr ardal yr effeithir arni, neu ddim ond trefniadau dwyochrog ac ati). Awgrymodd un o'r ymatebwyr hyn y dylid caniatáu gwyro oddi wrth argymhellion y DTRh dan amgylchiadau eithriadol yn unig, ac y dylai Llywodraeth Cymru arfer pwerau ymyrryd lle cynigir atebion amgen (cydweithredol) dan amgylchiadau nad ydynt yn rhai 'eithriadol'. Awgrymodd un arall y dylid bod yn ofynnol cael Datganiadau Cydweithredol cyn pen 6 mis o gyhoeddi Adolygiad y DTRh ac y dylid osgoi bwrw amcan ynghylch canlyniadau posibl cydweithredu (e.e. paragraffau 5.31, 5.32 a 5.33 o'r brif ddogfen). Ni chynigiodd **chwe** ymatebydd arall unrhyw sylw ar y mater hwn. Dywedodd y **pedwar** ymatebydd arall nad oedden nhw'n hapus â'r manylion yn y paragraffau hyn. Mewn un achos, roedd y gwrthwynebiad wedi'i seilio'n unig ar y syniad bod y datganiadau'n amodol ar ganiatâd RAWP (a nodwyd gan eraill hefyd ac sydd bellach wedi'i ddileu). Mewn achos arall, teimlwyd bod gofynion yr ACLl yn rhy gyfarwyddol ac eto bod angen mwy o eglurhad ynghylch 'rheolau' (e.e. sut gall awdurdod sydd heb ddechrau ei adolygiad CDLl gytuno i gymryd y ffigurau dosraniadau gan awdurdodau neu is-ranbarthau eraill). Yn y ddau achos arall, roedd y pryder wedi'i seilio fwy ar gysyniad dosraniadau ACLl yn hytrach na rhai is-ranbarthol, fel y mynegwyd mewn perthynas â C6 a/neu C8. Ymateb y Grŵp Llywio: Yn amlwg mae angen testun ychwanegol yn y Brif Ddogfen, fel y gall yr Atodiadau gyfeirio ato, er mwyn egluro'n fanwl sut y byddai'r broses gydweithredu'n gweithio mewn amrywiaeth o wahanol amgylchiadau (gweler **MATER ALLWEDDOL 4**, uchod).

**Atodiad A: Gogledd Cymru**

Cwestiwn 11: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella neu herio unrhyw rai o'r manylion sydd ym mharagraffau A1 i A60 o Atodiad A? Os oes, manylwch.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Roedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i ddim ond 11 o'r 23 ymatebydd (roedd y 12 arall yn ACLl yn Ne Cymru). O'r 11 dan sylw, dim ond **dau** ymatebydd a oedd wedi cynnig unrhyw sylwadau:

- Nododd ACLl Sir Ddinbych fod adnoddau calchfaen i'r dwyrain o Ddyffryn Clwyd wedi'u lleoli yn yr AHNE.
- Awgrymodd y Gymdeithas Cynnyrch Mwynol y dylai'r testun a ganlyn (sydd wedi'i addasu fymryn o'r hyn sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn y manylion ar dudalen 25 o Atodiad A) fod yn berthnasol i'r holl ACLlau ac felly fe ddylid ei gynnwys gyda'r testun cyflwyniadol yn y ddau Atodiad ac ym Mhrif ddogfen y DTRh:

*"Byddai'n rhaid i unrhyw drefniadau a rennir roi manteision o ran egwyddorion agosrwydd, capasiti amgylcheddol a meini prawf eraill ar gyfer cynaliadwyedd sy'n fwy na'r manteision o ddatblygu cronfeydd*

*newydd. Lle bo angen, byddai'n rhaid iddynt gael eu hadlewyrchu mewn Datganiad o Gydweithrediad is-ranbarthol, a chael sêl bendith Llywodraeth Cymru, cyn i unrhyw un o'r CDLlau cyfansoddol yn yr is-ranbarth gael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad".*

*"Hyd y gellir, dylai unrhyw ddyraniadau gael eu dynodi'n Safleoedd Penodol neu, yn niffyg hynny, yn Ardaloedd Dethol. Os gwelir, yn y pen draw, mai dim ond Ardaloedd Chwilio bras y gellir eu pennu, rhaid iddynt fod yn ddigon mawr i gynnwys cronfeydd dichonol mwy o lawer, er mwyn darparu ar gyfer yr elfen o ansicrwydd sydd ynglŷn â hyn".*

Ymateb y Grŵp Llywio: Dylai'r cyntaf o'r paragraffau hyn – sydd wedi'i addasu fymryn i ddarllen "a'i drafod gyda'r RAWP" yn hytrach na "a chael sêl bendith Llywodraeth Cymru" gael ei gynnwys yn y canllaw cyffredinol ar gyfer Datganiadau o Gydweithrediad is-ranbarthol (gweler **MATER ALLWEDDOL 4**, uchod) a'i groesgyfeirio, lle bo'n briodol, yn y testun ar gyfer pob ACLl yn yr Atodiadau Rhanbarthol. Mae'r ail baragraff eisoes yn y brif ddogfen ond fe ddylid ei ailadrodd yn y testun cyflwyniadol ym mhob un o'r atodiadau rhanbarthol.

Cwestiwn 12: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella'r wybodaeth ffeithiol sydd yn Nhablau A3 i A5? Os oes, manylwch.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Roedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i ddim ond 11 o'r 23 ymatebydd (roedd y 12 arall yn ACLl yn Ne Cymru). Ni wnaeth unrhyw ymatebydd **sylwadau**. Dim angen cymryd camau.

Cwestiwn 13: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella neu herio unrhyw ran o'r wybodaeth a roddir am awdurdodau cynllunio lleol unigol ar dudalennau 19 i 30 o Atodiad A? Os oes, manylwch.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Roedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i ddim ond 11 o'r 23 ymatebydd (roedd y 12 arall yn ACLl yn Ne Cymru). Ni wnaeth unrhyw ymatebydd **sylwadau**. Dim angen cymryd camau.

**Atodiad B: De Cymru**

Cwestiwn 14: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella neu herio unrhyw rai o'r manylion sydd ym mharagraffau B1 i A86 o Atodiad B? Os oes, manylwch.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Roedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i ddim ond 15 o'r 23 ymatebydd (roedd yr wyth arall yn ACLl neu'n weithredwyr yng Ngogledd Cymru). O'r 15 dan sylw, dim ond **saith** ymatebydd a oedd wedi cynnig unrhyw sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn:

- Roedd dau ACLl wedi ailadrodd eu pryderon am ffigurau tai, gan gyfeirio'n ôl at eu hymatebion i **C6** (gweler uchod) Ymateb y Grŵp Llywio: gweler yr ymatebion o dan C6 a **MATER ALLWEDDOL 1**, uchod.
- Roedd dau ymatebydd arall wedi nodi cywiriadau angenrheidiol i'r testun sy'n cyfeirio at safle Tir Pentwys (Blaenau Gwent tudalennau 32 a 33, a Thorfaen tudalen 62). Yn ei hanfod, nid yw'r

cronfeydd yn Nhir Pentwys yn cael eu sterileiddio yn seiliedig ar benderfyniad yr apêl yn ddiweddar. Mae'r cronfeydd yn parhau i fod ar gael ar gyfer cloddio yn destun cynllun datblygu gyda ffordd fynediad amgen yn cael ei chyflwyno. Ymateb y Grŵp Llywio: addasu'r testun fel yr awgrymwyd

- Gofynnodd Sir Fynwy am eglurhad ynghylch y symbolau hecsagon yn Ffigurau 4.2, 4.6, 4.7 a 4.8 ac eglurhad ynghylch diffiniadau'r MSAau a'r angen, neu beidio, am leiniau clustogi. Ymateb y Grŵp Llywio: addasu'r mapiau fel yr awgrymwyd

- Cynigiodd Powys gywiriadau ynghylch y testun ym mharagraff B9 ynghylch rhagnentydd Afon Wysg, a nododd anghysondebau mewn perthynas â'r disgrifiad o'r ardal o amgylch Ystradgynlais, i'r de o ardal APCBB, sy'n rhan o ardal is-ranbarthol Powys, ond ni ddangosir hynny yn Ffigurau B4, B5, B6 a B7. Ymateb y Grŵp Llywio: addasu'r mapiau fel sy'n briodol

- Roedd un ymatebydd arall wedi gofyn a allai paragraff B23 gyfeirio at 'cyfyngedig' yn hytrach na 'fawr o gyfle' Ymateb y Grŵp Llywio: addasu fel yr awgrymwyd

Cwestiwn 15: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella'r wybodaeth ffeithiol sydd yn Nhablau B3 i B5? Os oes, manylwch.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Roedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i ddim ond 15 o'r 23 ymatebydd (roedd yr wyth arall yn ACLl neu'n weithredwyr yng Ngogledd Cymru). O'r 15 dan sylw, dim ond **dau** ymatebydd a oedd wedi cynnig unrhyw sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn:

- Roedd yr MPA a SLR Consulting wedi argymell newidiadau i enw'r gweithredwr ar gyfer dau o'r safleoedd yn y tablau.

Ymateb y Grŵp Llywio: Addasiadau ffeithiol i'w gwneud yn unol â'r ceisiadau.

Cwestiwn 16: Oes gennych chi unrhyw wybodaeth leol fanwl a fyddai'n help i wella neu herio unrhyw ran o'r wybodaeth a roddir am awdurdodau cynllunio lleol unigol ar dudalennau 32 i 65 o Atodiad B? Os oes, manylwch.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Roedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i ddim ond 15 o'r 23 ymatebydd (roedd yr wyth arall yn ACLl neu'n weithredwyr yng Ngogledd Cymru). O'r 15 dan sylw, dim ond **saith** ymatebydd a oedd wedi cynnig unrhyw sylwadau a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn:

- Roedd dau ACLl wedi ailadrodd eu pryderon am ffigurau tai a/neu Gyfnodau Cynllun, gan gyfeirio'n ôl at eu hymatebion i C6 (gweler uchod)

- Roedd dau ymatebydd arall unwaith eto wedi nodi cywiriadau angenrheidiol i'r testun sy'n cyfeirio at safle Tir Pentwys yn Nhorfaen a Blaenau Gwent (gweler C14, uchod).

- Nododd Sir Fynwy fod ei adnoddau calchfaen mewn ardaloedd o 'gapasiti amgylcheddol cymharol isel' i ymdopi â rhagor o waith chwarela ac felly awgrymodd "*Mae'r camgymhariad hwn o ran amcanion yn haeddu trafodaeth bellach yn Atodiad B, er mwyn rhoi syniad mwy clir a realistig o allu Sir Fynwy i gwrdd â gofynion cyfunedig yr is-ranbarth*". Ymateb y Grŵp Llywio: ychwanegu testun fel yr awgrymwyd

- Nododd Powys y sylwadau ar ddiogelu pennau rheilffyrdd a cheiau sy'n bodoli eisoes neu rai yn y dyfodol drwy'r CDLlau a byddai'n croesawu gwybodaeth ychwanegol os oes unrhyw safleoedd o'r fath wedi'u pennu ar gyfer y tymor hirach drwy broses paratoi'r DTRh mewn perthynas â Phowys. Ymateb y Grŵp Llywio: nid oes safleoedd o'r fath ym Mhowys

- Darparodd Rhondda Cynon Taf ragor o fanylion ynglŷn â'r cais cynllunio i ehangu chwarel Craig-yr-Hesg. Ymateb y Grŵp Llywio: Mae'r cais wedi'i wrthod ers hynny, yn groes i gyngor y swyddogion, ond mae'n bosibl y caiff apêl ei chyflwyno.  Diweddaru'r testun gyda chyngor gan Ysgrifennydd RAWP

**Y Broses Ymgynghori**

Cwestiwn 17:  Ydych chi'n meddwl bod y broses ymgynghori, yn cynnwys yr arolwg hwn, yn ddigonol ac yn addas i'w diben?  Os nad ydych, eglurwch pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran yr adolygiad hwn neu adolygiadau yn y dyfodol.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd:  Dywedodd **deg** ymatebydd 'ydy' ac ni chynigiodd **12** arall unrhyw sylwadau.  Dim ond **un** ymateb negyddol a gafwyd, gan ACLl yn Ne Cymru a oedd yn cwyno bod pryderon cynharach am ddata tai, fel y mynegwyd yn ystod cyfarfod blaenorol RAWP, wedi cael eu diystyru.  *(Yn ymarferol roedd y pryderon hynny wedi'u hystyried ac ymatebwyd i'r ACLl ar y pryd i esbonio pam na chafodd y fethodoleg ei newid)*. Ymateb y Grŵp Llywio: O ystyried y ffaith bod camau rhesymol wedi'u cymryd, ar y pryd, i fynd i'r afael â phryderon yr ACLl unigol hwn, a bod cyfleoedd wedyn i bob parti fynegi eu barn yn ystod y brif ymarfer ymgynghori, ni ystyrir bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r broses ymgynghori.

**Ac yn Olaf …**

Cwestiwn 18:  Ydych chi'n meddwl bod yr ail Adolygiad hwn o'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol yn debygol o fod yn help i symud tuag at system chwarela fwy cynaliadwy yng Nghymru, yn y blynyddoedd i ddod?  Os nad ydych, eglurwch pam.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd:  Dywedodd **naw** ymatebydd 'ydy', ond mewn tri achos roedd hyn gydag amodau, gan gynnwys ffafriaeth dros ddosraniadau is-ranbarthol, cysylltiadau uniongyrchol â'r FfDC a'r angen am "*hyblygrwydd i addasu i anghenion y farchnad nawr ac yn y dyfodol*".  Mewn **dau** achos arall, roedd yr ymatebwyr wedi mynegi amodau mwy sylweddol, gyda chytundeb yn amodol ar fynd i'r afael yn foddhaol â'r pryderon yn gysylltiedig â C6 a C8.   Roedd **un** ACLl arall wedi anghytuno'n bendant, oherwydd pryderon o dan C6. Nid oedd y **deg** ymatebydd arall wedi cynnig unrhyw sylw.  Ymateb y Grŵp Llywio: Mae'r newidiadau sy'n angenrheidiol yma eisoes wedi'u nodi mewn perthynas â C6 a C8, uchod.  Cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol ym mis Chwefror 2020 rhwng Llywodraeth Cymru, Ysgrifennydd SWRAWP, yr Ymgynghorydd a thri grŵp is-ranbarthol yr ACLl lle mynegwyd y pryderon hyn.  Roedd hyn yn golygu bod modd trafod a datrys y materion.

Cwestiwn 19: Os ydych yn ymwneud yn agos â rhoi'r broses Cynllun Datblygu Lleol ar waith yng Nghymru, ydych chi'n credu bod y Datganiadau diwygiedig yn debygol o fod o gymorth yn arwain y broses honno ac yn dylanwadu arni? Os nad ydych, eglurwch pa welliannau yr hoffech chi eu gweld.

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Dywedodd **naw** ymatebydd 'ydw', ond mewn un achos roedd hyn eto yn amodol ar fynd i'r afael yn foddhaol â'r pryderon yn gysylltiedig â C6 a C8. Dywedodd **tri** arall 'na', gan nodi unwaith eto eu pryderon o dan C6 fel y rheswm dros eu hanfodlonrwydd. Nid oedd yr **11** ymatebydd arall wedi cynnig unrhyw sylw. Ymateb y Grŵp Llywio: Eto, mae'r newidiadau sy'n angenrheidiol yma wedi'u trafod eisoes mewn perthynas â C6, uchod.

Cwestiwn 20: … ac a oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas ag unrhyw agwedd o'r Adolygiad o'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol?

Crynodeb o'r atebion a roddwyd: Roedd **15** o'r 23 ymatebydd wedi ymateb i'r cwestiwn hwn (nid oedd yr **wyth** arall wedi cynnig unrhyw awgrymiadau). Mewn sawl achos, nid oedd y rhain ond yn ailadrodd y pryderon a fynegwyd o dan C6 a C8, ond cyflwynwyd amrywiaeth o sylwadau ychwanegol hefyd. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod a nodir ymatebion awgrymedig mewn glas ar gyfer pob sylw.

1. Nododd y Gymdeithas Cynnyrch Mwynol efallai y byddai'n bosibl diweddaru'r DTRh gyda ffigurau gwerthiannau 2018. Ymateb y Grŵp Llywio: Gweler yr ymateb i **FATER ALLWEDDOL 5**, uchod.

2. Gan nad yw dyheadau LlC am dwf yn cael eu hadlewyrchu yn ffigurau tai'r FfDC drafft, dylid talu mwy o sylw i'r galw o fathau adeiladu eraill, ac nid tai yn unig. Ymateb y Grŵp Llywio: Yng ngoleuni'r ymateb y cytunwyd arno i **FATER ALLWEDDOL 1**, nad yw'n golygu dibynnu ar ffigurau'r FfDC drafft, cytunwyd i ddefnyddio ffigurau tai, at ddibenion yr 2il Adolygiad, fel *dangosydd* priodol o weithgarwch economaidd ehangach, gan gynnwys mathau adeiladu eraill.

3. Dylid addasu tabl 3.3 i ddangos cofnod ar wahân ar gyfer Cyngor Sir Benfro ac APCAP. Ymateb y Grŵp Llywio: Cytuno.

4. Mae RTS2 yn cynnig cyfle enfawr i ddefnyddio'r egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy fel y nodwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chynllunio ar gyfer mwynau mewn ffordd fwy cynaliadwy ac yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy o fewn ardaloedd marchnad is-ranbarthol yn hytrach nag o fewn ffiniau awdurdod lleol mympwyol. Ymateb y Grŵp Llywio: Dylid cynnwys testun ychwanegol ynghylch y cysylltiad â Deddf 2016, ond gweler C6 a **MATER ALLWEDDOL 3**, uchod, am drafodaeth ynghylch dosraniadau is-ranbarthol yn erbyn rhai'r ACLl.

5. Gellid codi'r sylwadau ym mharagraff 3.17 o'r drafft a'u defnyddio fel tystiolaeth gan ddarparwyr gwasanaethau eraill, gan danseilio'r system sy'n dilyn y cynllun. Ymateb y Grŵp Llywio: Caiff y testun ym mharagraff 3.17 ei gymhwyso gan y paragraff sy'n dilyn yn syth ar ei ôl, 3.18.

6. Mae paragraff B79 o Atodiad B yn nodi bod cyfeiriad at 'Gyfnod y Cynllun' yn golygu dyddiad terfyn y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu neu sy'n cael ei baratoi (pa un bynnag yw'r hwyraf) ar gyfer

yr awdurdod cynllunio hwnnw. Mae CS Fynwy eisoes wedi gofyn am eglurhad ynglŷn â 'chyfnod y cynllun' sy'n berthnasol iddo ac fe'i hysbyswyd y byddai'n 2033 a 10 mlynedd, felly 2043, am fod cynllun newydd wrthi'n cael ei baratoi. Ymateb y Grŵp Llywio: Ymdrinnir â mater Cyfnod y Cynllun dan C3, uchod.

7. Dylai'r DTRh nodi sut mae ACLlau sy'n diwallu dosraniadau awdurdodau cyfagos o fewn eu his-ranbarth yn cael eu digolledu gan yr awdurdodau hynny am wneud hynny. Dylai hefyd ystyried goblygiadau tai modiwlar ar y galw am agregau ac asesu p'un a fyddai hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth o agregau i'r dyfodol. Ymateb y Grŵp Llywio: Ymdrinnir â'r angen i gynnwys eglurhad ar faterion yn ymwneud â chydweithredu rhwng yr ACLlau o dan C10, a **MATER ALLWEDDOL 4**, uchod, er nad yw mater digolledu'n codi. Nid oes modd ymdrin â thai modiwlar heb dystiolaeth berthnasol ar y mater.

8. Pwysleisio bod y cronfeydd a'r dyraniadau yn ofyniad sylfaenol, ac er mwyn sicrhau cronfeydd newydd cymharol gymedrol gallai ceisiadau i gwrdd â'r gofynion sylfaenol fod am gronfeydd sylweddol uwch. Ymateb y Grŵp Llywio: Cytuno y gellir ychwanegu'r pwyslais hwn.

9. Rhaid nodi'n glir rôl "Datganiadau Tir Cyffredin" a'r mecanweithiau sy'n gysylltiedig â'u paratoi. Ymateb y Grŵp Llywio: At ddibenion y DTRh, y rhain yw'r "Datganiadau o Gydweithrediad Is-ranbarthol" arfaethedig, fel y trafodwyd o dan C10 a **MATER ALLWEDDOL 4**, uchod.

10. Mae'r FfDC drafft fwy neu lai wedi haneru'r amcanestyniadau o dwf tai, ond gallai mesurau eraill ddylanwadu ar y ffyrdd o ddarogan y galw am agregau. Ymateb y Grŵp Llywio: Nid yw hwn bellach yn peri pryder – gweler Eitem 2 uchod.

11. O ystyried amseriad y cam mae CDLl Sir y Fflint wedi'i gyrraedd, mae'r Cyngor eisoes wedi cymeradwyo dull y DTRh a argymhellir ar gyfer Sir y Fflint ac Is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru. Ymateb y Grŵp Llywio: Nodwyd.

12. Mae tabl 3.3 yn nodi'n gywir mai gofyniad tai Torfaen a'r gofyniad tai blynyddol yw 4,700 a 313 yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae tabl 5.3 yn nodi mai gofyniad tai blynyddol Torfaen yw 383. Ymateb y Grŵp Llywio: Cytuno, mae angen cywiro'r ffaith hon, yn ogystal â gwneud newidiadau cyfatebol i'r canrannau a'r dosraniadau, cyn eu trosglwyddo i Atodiad B.

13. Gofyniad tai Pen-y-bont ar Ogwr yw 9,690, neu 646 bob blwyddyn, yn hytrach na 8,153 neu 544 bob blwyddyn fel sydd wedi'i nodi yn nhablau 3.3 a 5.3. Gofyniad gweddilliol Pen-y-bont ar Ogwr yw'r ffigwr o 8,153 gan ei fod wedi codi 1537 o dai yn ystod y cyfnod rhwng dechrau paratoi'r cynllun (2006) a'r adeg y mabwysiadwyd y cynllun (2009). Serch hynny, dylai'r gofyniad tai ar gyfer cyfnod cyffredinol y cynllun rhwng 2006 – 2021, fel sydd wedi'i nodi yn nhabl 3.3, fod yn 9,690. Mae'r gofyniad tai o 9,690 hefyd yn cael ei nodi'n gyson yn ei gyd-astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai blynyddol. Ymateb y Grŵp Llywio: Rhaid defnyddio'r wybodaeth newydd hon, ar ôl gwirio gyda Phen-y-bont ar Ogwr. Os cytunir, bydd angen gwneud newidiadau cyfatebol i'r canrannau a'r dosraniadau yn Nhabl 5.3, cyn eu trosglwyddo i Atodiad B.

14. Gofyniad tai CDLl PCBB yw 1,990, neu 133 y flwyddyn. Gofyniad tai CDLl mabwysiedig Merthyr Tudful yw 2,250, neu 150 y flwyddyn. Felly, 'y gofyniad tai blynyddol i'r dyfodol o Gynlluniau

Lleol' cyfunedig ar gyfer yr awdurdodau lleol hyn yw 283 y flwyddyn (fel y nodwyd yn barod). Ymateb y Grŵp Llywio: nid oes angen newid.

15. Gofyniad tai Conwy + PC Eryri yw 7,320 (6,520 yng Nghonwy, 770 yn PC Eryri) neu 488 y flwyddyn, yn hytrach na 7,350 neu 490 y flwyddyn fel sydd wedi'i nodi yn nhabl 3.3 a 5.3. Ymateb y Grŵp Llywio: Rhaid gwneud y mân gywiriad hwn, ynghyd â newidiadau cyfatebol i ganrannau a dosraniadau yn Nhabl 5.2, cyn eu trosglwyddo i Atodiad A.

16. Mae adnoddau llechi sylweddol yng Ngwynedd yn ogystal â gwastraff llechi eilaidd a ddefnyddir yn lle agregau crai, ac mae deunydd o'r fath wedi'i dderbyn mwy a mwy ar gyfer sawl defnydd adeiladu dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, er bod llechi ar gael, mae defnydd arbenigol sy'n gofyn am agregau manyleb uchel, fel cerrig ffordd sydd â gwerth cerrig caboledig uchel. Er nad oes gofyniad am ddyraniadau Creigiau Caled yn CDLl Gwynedd a Môn, ni ddylai sefyllfa o'r fath atal cyflwyno ceisiadau am gronfeydd creigiau caled arbenigol. Ymateb y Grŵp Llywio: Cytuno, rhaid pwysleisio hyn yn Atodiad A, yn ogystal â nodi'r dynodiad WHS arfaethedig a allai gyfyngu ar fynediad at adnoddau llechi at ddibenion agregau eilaidd.

17. Rhaid i'r adroddiad gynnig eglurhad llawnach ynghylch pam y defnyddiwyd tai fel dangosydd – efallai fel adran Cwestiynau Cyffredin? Ymateb y Grŵp Llywio: Cytunir y byddai tudalen Cwestiynau Cyffredin yn ddefnyddiol, ond efallai ar ffurf tudalen we ar wahân, a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach nag o fewn y DTRh. Y rheswm dros hyn yw oherwydd bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio'r DTRh eisoes yn gyfarwydd â'r materion technegol.

18. Mae CDLl Wrecsam wedi cyrraedd y Cam Archwilio. Ymateb y Grŵp Llywio: Nodwyd.

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Mai 19eg, 2020** |
| **Aelod Cabinet perthnasol:** | **Y Cynghorydd Craig ab Iago** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Gibbard – Pennaeth Tai ac Eiddo** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Strwythur y Gwasanaeth Tai** |

**Y Penderfyniad a geisir**

Gofynnir i'r Cabinet –

a) Gymeradwyo ariannu'r gost net ychwanegol o £150,500 er mwyn gwireddu newidiadau i strwythur staffio'r Gwasanaeth Tai, fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.4 a 3.7 o'r adroddiad hwn, ac os yn gytûn, i

b) Gymeradwyo ffynhonnell addas i ariannu cost net y newidiadau i'r strwythur, naill ai –
   i. drwy wneud defnydd o arbedion sydd eisoes wedi eu gwireddu gan yr Adran, fel yr amlinellir ym mharagraff 4 o'r adroddiad hwn, neu
   ii. drwy wneud defnydd o gynnyrch treth y Premiwm Treth Cyngor ar dai gwag ac ail gartrefi.

## 1. Cefndir

1.1 Yng nghyfarfod y Cabinet ar Fai y 7fed y llynedd, yn dilyn adolygiad rheolaethol y Prif Weithredwr, penderfynwyd creu Adran Tai ac Eiddo newydd er mwyn gallu ceisio cwrdd â'n dyhead i roi blaenoriaeth uwch i fynd i ymrafael â'r her sylweddol sy'n ein hwynebu yn y maes tai. Mae dyfodiad y premiwm ail gartrefi yn rhoi cyfle i'r Cyngor geisio llunio atebion newydd fydd yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl Gwynedd allu sicrhau cartrefi addas o fewn eu cymunedau.

1.2 Penodwyd Pennaeth newydd ar gyfer yr Adran a cychwynnodd yn ei swydd ym mis Medi. Yn ogystal â chychwyn ar y gwaith o sefydlu pa fath o gynlluniau sy'n debygol o uchafu'r budd allwn ni ei wireddu drwy ddefnyddio'r premiwm ail gartrefu, gofynnais i'r Pennaeth hefyd flaenoriaethu cynnal adolygiad o'r strwythur staffio presennol o fewn yr Adran er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer wynebu'r her sydd o'n blaenau.

1.3 Roedd y gwaith hwn wedi ei gwblhau i bob pwrpas cyn i'r argyfwng Covid 19 ein taro. Er ein bod ar hyn o bryd yn parhau i flaenoriaethu ein holl ymdrechion i geisio sicrhau fod yr Adran yn gallu parhau i gyflawni ei swyddogaethau blaenoriaeth 1 yn ystod yr argyfwng, gwyddom hefyd fod angen paratoi ar gyfer ail afael yn ein blaenoriaethau arferol maes o

law. Yn ogystal, mae rhai o'r profiadau yr ydym wedi eu profi yn ystod yr argyfwng ei hun, yn arbennig o safbwynt materion digartrefedd,  wedi cadarnhau'r angen i ni sicrhau fod ein trefniadau yn gadarn ar gyfer wynebu'r cyfnod nesa.

1.4 Felly, pwrpas yr adroddiad hwn yw amlygu casgliadau adolygiad y Pennaeth a chynnig strwythur newydd fydd yn ein galluogi i gyflawni mwy a chwrdd â'n dyheadau strategol yn y maes Tai.

**2. Gwasanaethau'r Adran Tai ac Eiddo**

2.1 Mae strwythur unedau presennol yr Adran i'w weld yn atodiad A.

2.2 Mae 213 o aelodau staff yn yr Adran, yn gymysgedd o staff swyddfa a gweithlu, wedi eu rhannu fel a ganlyn:

| | Gwasanaeth Tai | Gwasanaeth Eiddo | Cyfanswm yr Adran |
|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | 52 | 41 | 90 |
| **Gweithlu yn y maes** | 9 | 114 | 123 |
| **Cyfanswm** | 61 | 155 | 213 |

2.3 Mae'r Gwasanaeth Eiddo yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Trefnu gwaith cynnal a chadw adeiladau
- Gwasanaeth teleofal i unigolion bregus
- Caffael a rheoli cyflenwadau ynni
- Lleihau allyriadau carbon
- Gweithlu cynnal a chadw
- Rheoli swyddfeydd y Cyngor
- Gweithlu glanhau adeiladau amrywiol
- Rhaglen adeiladu Ysgolion yr Unfed Ganrif ar hugain
- Cynlluniau cyfalaf datblygu ac adnewyddu adeiladau eraill
- Materion diogelwch statudol (Asbestos, Legionella ayb)
- Rhaglen fuddsoddi i wella cyflwr adeiladau
- Difa Pla
- Prynu a gwerthu eiddo
- Rheoli tenantiaid
- Unedau diwydiannol a chanolfannau menter
- Prisio eiddo

2.4 Mae 5 uned waith o fewn y Gwasanaeth Eiddo gyda nifer o'r rheolwyr yn gyfrifol am gyfuniad o fwy nag un maes gwaith. Mewn unedau ble fo'r niferoedd staff yn uchel neu fod arbenigeddau cwbl wahanol i'w gilydd, yna mae Arweinyddion Tîm mewn lle i gynorthwyo'r Rheolwr.

2.5 Mae'r Gwasanaeth Tai yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Ceisiadau am gymorth gan y digartref
- Ail gartrefu'r digartref mewn tai preifat a thai cymdeithasol
- Cefnogi tenantiaethau unigolion bregus
- Atal digartrefedd
- Hosteli digartrefedd
- Ail sefydlu carcharorion
- Cynllun Ffoaduriaid Syria a'r cynllun Ffoaduriaid Byd Eang
- Asesu ceisiadau am dai cymdeithasol ar ran y Cymdeithasau Tai (rhestr aros)
- Cefnogaeth a rheolaeth teithwyr
- Safle sipsiwn Llandegai
- Cynlluniau adfer tai gwag
- Grantiau gwella cyflwr tai
- Grantiau prynwyr tro cyntaf
- Addasiadau hygyrchedd mewn tai preifat (DFG)
- Gorfodaeth Tai
- Trwyddedu a rheoli eiddo aml ddeiliadaeth (HMO)
- Grantiau ynni
- Partneriaeth Tai Gwynedd
- Strategaeth Tai
- Grant Tai Cymdeithasol
- Tai Fforddiadwy
- Prosiectau strategol

2.6 Mae'r swyddogaethau uchod wedi eu rhannu rhwng dwy uned waith, a dau dîm/maes gwaith arbenigol sydd ddim yn rhan o uned waith ar hyn o bryd. Mae'r ddwy reolwr yn cymryd cyfrifoldeb am sawl maes gwaith gwahanol. Mae arweinyddion tîm ar ambell i faes gwaith penodol ond mae nifer o swyddogion sydd ddim yn rhan o dîm ffurfiol.

3. **Cyflawni mwy yn y maes Tai**

3.1 Mae'r gwaith o drosi ein Strategaeth Tai i fod yn Gynllun Gweithredu Tai yn nesáu at gael ei orffen. Mae holl staff y Gwasanaeth Tai wedi cael mewnbwn i'r broses o herio gwahanol gynlluniau posib a fyddai'n cynyddu'r opsiynau tai sydd ar gael i bobl leol. Rydym wedi ymgynghori'n eang gyda sefydliadau lleol yn y maes Tai ac wedi derbyn mewnbwn gan ein partneriaid yn y Cymdeithasau Tai lleol. Mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol a brwdfrydig o bob cyfeiriad gydag ymdeimlad fod cyfle i ni gyflawni llawer mwy yn y maes yma.

3.2 Rydym wedi cynnal trafodaethau cynnar gyda'r Pwyllgor Craffu Gofal ac wedi cael budd mawr o gael mewnbwn manwl gan aelodau o Grŵp Tasg a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu i'n cynorthwyo. Roedd Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn gefnogol iawn i'r math o gynlluniau sy'n cael eu hystyried ac yn croesawu'r flaenoriaeth uwch sy'n cael ei roi gan y Cyngor i'r maes hwn erbyn hyn. Mae'r cam olaf cyn gallu cyflwyno'r Cynllun Gweithredu

Tai i'r Cabinet, sef sefydlu ymarferoldeb a hyfywdra ariannol y cynlluniau unigol, wedi gorfod cael ei oedi dros dro yn ystod yr argyfwng presennol ond bydd modd ei gwblhau'n fuan pan fydd modd dychwelyd ein sylw tuag at faterion dydd i ddydd.

3.3 O fod wedi adolygu'r strwythur staffio sydd mewn lle i ddarparu'r swyddogaethau presennol yn yr Adran, ac o wybod fod y Cynllun Gweithredu Tai yn golygu y byddwn yn gafael yn y cyfle i gyflawni llawer iawn mwy yn y maes Tai, mae'r Pennaeth o'r farn fod angen cyfres o addasiadau i strwythur y Gwasanaeth Tai. Byddai peidio ag addasu'r strwythur yn llesteirio'n sylweddol ein gallu i gyflawni dyheadau'r Cyngor yn y maes hwn.

3.4 Gwelir yn Atodiad B y strwythur newydd sy'n cael ei argymell gan y Pennaeth. Yn gryno, mae'n arwain at y newidiadau canlynol yn y Gwasanaeth Tai:

a) Cyfuno'r rhan helaeth o'r swyddogaethau gweithredol dydd i ddydd o dan Uned Tai newydd dan arweiniad Uwch Reolwr Tai. Bydd hynny'n arwain at ddiddymu'r ddwy swydd reolaethol bresennol yn y Gwasanaeth.

b) Sefydlu timau gwaith penodol yn y maes Digartrefedd gydag Arweinyddion Tîm/ Arweinyddion Maes yn cynorthwyo'r Uwch Reolwr newydd i arwain y timau unigol. Bydd hyn yn galluogi rhannu'r gweithgaredd digartrefedd yn dri thîm a fydd yn galluogi cefnogi'r Uwch Reolwr Tai i roi mwy o ffocws ac adnodd tuag at wynebu'r heriau cynyddol yn y maes hwn.

c) Rheolwr Prosiect Digartrefedd (swydd dros dro i'w chyllido drwy ddargyfeirio arian unwaith ac am byth sydd eisoes dan reolaeth yr Adran) er mwyn canolbwyntio ar wireddu'r Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol a rhoi sylw manwl i orwariant sylweddol ar lety dros dro.

ch) Addasu swydd yr Arweinydd Tîm Prosiectau a Grantiau i gynnwys cyfrifoldeb am ystod ehangach o gynlluniau a phrosiectau newydd a fydd yn deillio o'r Cynllun Gweithredu Tai er mwyn gallu uchafu'r budd o'r premiwm ail gartrefi.

d) Uno'r Swyddogion Technegol Tai a'r Swyddogion Gorfodaeth Tai o dan gyfrifoldeb un arweinydd tîm.

dd) Er mwyn gallu cyflawni ein Cynllun Gweithredu Tai newydd, mae'r Pennaeth yn argymell sefydlu swydd Rheolwr Cyflenwad Tai a thrwy hynny sefydlu Uned newydd a fydd yn arwain ar gyflawni'r Cynllun Gweithredu Tai ac uchafu'r budd o'r premiwm ail gartrefi. Y Rheolwr Cyflenwad Tai fydd hefyd yn arwain ar faterion tai strategol, y Tim Opsiynau Tai (delio â cheisiadau am dai cymdeithasol) a'r Grant Cymorth Tai newydd (arferai gael ei alw'n Grant Cefnogi pobl)

e) Addasu Swydd yr Arweinydd Tim Opsiynau Tai i gynnwys arwain ar sefydlu gwasanaeth "triage" newydd i ddelio efo'r holl ystod o ymholiadau anghenion tai h.y. creu "siop un stop" newydd ar gyfer pobl sydd angen cymorth gyda phroblem yn ymwneud â thai.

f) Uwchraddio un swydd weinyddol yn sgil derbyn cyfrifoldebau ychwanegol.

g) Creu swydd Swyddog Gweithredol Tai ac Eiddo i gynorthwyo'r Pennaeth gyda materion traws adrannol gan gynnwys rheoli prosiectau trawsffurfio a chynlluniau adfywio yn y maes tai.

ng) Swydd rhan amser i reoli a datblygu systemau gwybodaeth a thechnoleg yr Adran a chefnogi Rheolwyr ac Arweinyddion Tim i adnabod cyfleoedd i wella effeithlonrwydd systemau.

h) Dileu swyddi gwag Swyddog Cyswllt Teithwyr, Swyddog Cyswllt Landlord a Thenant a Cymhorthyd Gweinyddol (TOT).

3.5 Nid yw'r Pennaeth yn argymell newidiadau o sylwedd i strwythur y Gwasanaeth Eiddo. Gan fod y Pennaeth wedi bod yn gyfrifol am y maes gwaith yma ers cryn amser, mae ganddo adnabyddiaeth dda o berfformiad y gwasanaethau ac mae nifer ohonynt eisoes wedi bod yn destun ymarferiadau Ffordd Gwynedd mannwl. Mae sawl newid i'r strwythur wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r Pennaeth o'r farn fod y strwythur rheolaethol presennol yn gadarn ac effeithiol.

3.6 Yn dilyn sefydlu ein Cynllun Gweithredu Tai, mae'n bosib y byddwn yn gofyn i Reolwyr o fewn y Gwasanaeth Eiddo ddefnyddio eu harbenigedd i gynorthwyo gyda rhai cynlluniau a meysydd gwaith newydd. Os digwydd hynny, bryd hynny byddai angen ystyried os yw'n arwain at newid cyfrifoldebau a swyddogaethau'r unigolion dan sylw.

3.7 Gwyddom eisoes y bydd cynnydd yn y cynlluniau adeiladu o'r newydd yn deillio o'r Cynllun Gweithredu Tai ac mae'r Uned Datblygu Eiddo eisoes wedi cychwyn buddsoddi amser ac adnoddau ar astudiaethau dichonoldeb, asesu safleoedd datblygu tai ac ymgyfarwyddo gyda'r gofynion grant/statudol diweddaraf yn y maes tai er mwyn sicrhau na fydd oedi di angen pan fydd y Cynllun Gweithredu Tai yn ei le. Rydym yn ffodus fod gennym Uned Ddatblygu sy'n brofiadol iawn o safbwynt rheoli datblygiadau adeiladu o'r newydd gwerth miliynau o bunnoedd (e.e. rhaglen Ysgolion Yr Unfed Ganrif ar Hugain) ac felly mae'r Pennaeth yn argymell ychwanegu'r maes gwaith hwn at gyfrifoldebau'r Rheolwr Datblygu Eiddo.

3.8 Roedd adolygiad rheolaethol y Prif Weithredwr yn sefydlu'n glir y gwahanol swyddogaethau sy'n bodoli o fewn y Cyngor er mwyn gallu gwireddu'n dyheadau i weithredu o ddydd i ddydd yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd. Mae'r newidiadau i strwythur y Gwasanaeth Tai a argymhellir gan y Pennaeth yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r swyddogaethau hyn.

## 4. Oblygiadau cyllidol

4.1 Mae argymhellion y Pennaeth yn moderneiddio'r strwythur staffio yn y Gwasanaeth Tai a darparu'r adnoddau staffio fydd ei hangen i roi mwy o flaenoriaeth ac yn gwella'n gallu i oresgyn yr heriau sylweddol sy'n ein hwynebu yn y maes tai yng Ngwynedd.

4.2 Mae cost net gwireddu'r newidiadau hyn yn £150,500

4.3 Yn ddiweddar mae'r Adran wedi gallu cyflawni arbedion newydd sydd heb eu dynodi'n rhan o Gynllun Arbedion y Cyngor. Yn dilyn grymuso staff i ddilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd, mae'r tim mae'r Tim Cadwraeth Ynni wedi adnabod dull newydd, mewn partneriaeth ag arbenigwyr caffael ynni cenedlaethol, o brynu ein cyflenwadau nwy. Yn draddodiadol rydym wedi bod yn caffael nwy ar y cyd gyda nifer o awdurdodau cyhoeddus eraill. Yn dilyn ymdrech gan swyddogion y Tîm i gynnal ocsiwn i gaffael cyflenwr nwy, rydym wedi gallu dod i gytundeb a fydd yn costio £235,000 y flwyddyn yn llai na'r gost bresennol.

4.4 Yn ychwanegol i hyn, yn dilyn yr ocsiwn mae fframwaith wedi ei sefydlu gennym i brynu nwy, sydd bellach ar gael i awdurdodau cyhoeddus eraill i'w defnyddio. Bydd y Cyngor yn derbyn taliad o 1% o unrhyw arbedion a gaiff ei gwireddu gan awdurdod arall os fyddant yn dymuno manteisio o ddefnyddio "Fframwaith Gwynedd".

4.5 Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio'r un dechneg i gaffael ein cyflenwad trydan yn fuan a gallai hyn arwain at arbedion pellach eto.

4.6 Byddai modd defnyddio'r budd yma sydd wedi deillio o ymdrechion swyddogion yr Adran i ddilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd er mwyn ariannu'r gofynion ychwanegol sydd ei angen er mwyn cyflawni'r Cynllun Tai. O fod yn defnyddio'r arbedion caffael nwy i gyllido'r newidiadau i strwythur y Gwasanaeth Tai, byddai hyn yn gadael £84,500 yn weddill fel arbedion refeniw blynyddol.

4.7 Opsiwn arall wrth gwrs fyddai defnyddio'r incwm premiwm ail gartrefi i'w ariannu gan dderbyn y byddai hynny yn ei dro yn lleihau'r swm sydd ar gael i'w wario ar y cynlluniau unigol fydd yn y Cynllun Gweithredu Tai.

**5. Camau nesaf ac amserlen**

5.1 O fod yn derbyn sêl bendith y Cabinet i'r strwythur newydd, byddwn yn symud ymlaen yn ddi-oed gyda'r broses benodi. Byddwn hefyd yn cwblhau'r gwaith o lunio'r Cynllun Gweithredu Tai ar y cyfle cyntaf unwaith y byddwn yn gallu rhyddhau'r adnodd sydd yn naturiol yn cael ei flaenoriaethu ar hyn o bryd i ymateb i'r argyfwng.

**Barn yr Aelod Lleol:** Ddim yn fater lleol

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**Y Swyddog Monitro:**
Rwy'n fodlon fod yr argymhelliad yn ceisio adnoddau ariannol ar gyfer yr 2il strwythuro arfaethedig yn briodol. Mae'n cynnig modd i ganiatáu I'r Adran Tai ac Eiddo wireddu eu cynlluniau ar gyfer strwythur newydd.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Cadarnhaf fod y swm £150,500 yn yr adroddiad yn amcangyfrif cywir o gost net ychwanegol y strwythur staffio argymhellir ar gyfer y Gwasanaeth Tai. Nid yw'r Cabinet


yn ymyrryd mewn materion staffio, ond mi fyddai cymeradwyo ariannu'r gost £150,500 yn galluogi'r Pennaeth Tai ac Eiddo i symud ymlaen a gosod y strwythur staffio newydd y Gwasanaeth Tai (Atodiad B) yn ei le.

Mae digon o arbedion ynni blynyddol gellid ei briodoli er mwyn ariannu'r gost staff ychwanegol, ond yn yr hinsawdd ariannol yn sgil effaith yr argyfwng Covid-19, byddai'n fuddiol cael swmp yr arbedion ynni yma er mwyn lleddfu sefyllfa ariannol gorfforaethol y Cyngor. Mae adnoddau digonol hefyd ar gael o gynnyrch treth y Premiwm blynyddol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau yn y maes Tai. Felly, bydd angen i'r Cabinet bwyso a mesur os i ddefnyddio naill ffynhonnell ariannu, neu ryw gyfuniad o'r ddau.


**Atodiadau**

Atodiad A a B **–** Strwythur presennol ac arfaethedig y Gwasanaeth Tai


## Atodiad A – Strwythur Presennol (1)



## Atodiad A – Strwythur Presennol (2)



## Atodiad B – Strwythur Arfaethedig(1)



## Atodiad B – Strwythur Arfaethedig(2)

